



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:


- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.


### **About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>









# CASGLIAD O HYMNAU

WEDI EU DETHOL A'U TREFNU YN OL ANSAWDD  
YSBRYDOL A THREFN REOLAIDD

Gwasanaeth i'n Beglmys.

GAN Y

PARCH. DANIEL JONES,

PERIGLOR TRAWSFYNYDD, MEIRION.

[*All Argraffad.*]



CAERFYRDDIN: WILLIAM SPURRELL.

MDCCLXIII.

147. 9. 84.



I'R GWIR BARCHEDIG DAD YN NUW,  
JAMES COLQUHOUN CAMPBELL, D.D.,

Arglwydd Esgob Bangor,

Y CYFLWYNIR (TRWY EI GANIATAD)

**D Casgliad Hton,**

FEL NOD O BARCH DIDWYLL IDDO, AC O GARIAD  
GWRESOG ATO, O HERWYDD EI RAGORIAETHAU  
AMRYWIOL A LLUOSOG, YN EI HOLL BERTH-  
YNASAU AG EGLWYS CRIST, AC AM BOB  
CAREDIGRWYDD A DDERBYNIODD  
Y DETHOLYDD O'I LAW;

AC MEWN GWEDDI A GOBAITH Y PARHA DUW EI  
OES A'I DDEFNYDDIOLDEB ESGOBAETHOL  
DROS LAWER O FLYNYDDOEDD;

GAN EI OSTYNGEIDDIAF WAS,

DANIEL JONES.



## CYNNWYSIAD.

	Tud.
. Cynghorion Buddiol ac Eglur i Eglwyswyr ...	5
Gweddïau Dirgel yn yr Eglwys .....	7
Dangoseg i'r Testynau .....	9
Dangoseg i'r Mesurau .....	15

### HYMNAU AT Y SULIAU A'R GWYLIAU.

	Hymnau.
Y Suliau yn Adfent .....	427, 428, 1—24
Nadolig Crist .....	25—30
Sul Gwedi'r Nadolig .....	31—36
Dydd yr Enwaediad .....	37—42
- Yr Ystwyll .....	438 43—48
Y Suliau Gwedi'r Ystwyll .....	49—87
Septuagesima .....	88—94
Secsagesima .....	95—100
Cwincwagesima .....	101—106
Mercher y Llundw .....	107—112
Y Suliau yn y Garawys .....	113—143
Y Sul nesaf o flaen y Pasc .....	144—150
Dydd Gwener y Croglith.....	433, 444, 151—158
Dydd Pasc.....	436, 159—166
Y Suliau Gwedi'r Pasc .....	167—196
Dydd Iau y Dyrchafael .....	197—202
Y Sul ar ol Dydd y Dyrchafael .....	203—208
Y Sulgwyn .....	271, 363, 209—214
Sul y Drindod .....	215—220
Y Suliau Gwedi'r Drindod .....	221—370

### AT ACHLYSURON EBILL.

Bedydd .....	371—374
Confirnasiwn .....	375—377
Y Cymmun .....	378—388
Claddedigaeth .....	32, 35, 279, 384—400
Gosod Sylfaen Eglwys .....	401—405
Cyssegrïad neu Agoriad Eglwys .....	406—408
Y Cynauaf .....	409—415
Cenadol.....	45, 48, 245, 290, 416—419
Dydd Ymryd neu Ymostyngiad .....	107, 420—421
Ysbytty neu Glafdy.....	422
Hymnau Ychwanegol .....	423—447
Mynegai i Linellau Cyntaf y Pennillion .....	tudal. 305

## CYNGHORION

### Buddial ac Eglur i Eglwyswyr.

“Dian fod yr Arglwydd yn y lle hwn, ac nis gwyddwn l. Ac efe a ofnodd, ac a ddywedodd, Mor ofnadwy yw y lle hwn! Nid oes yma onid ty i Dduw a dyma borth y nef- oedd.”—*Gen. xxviii. 16, 17.*

1. PAN fyddoch yn myned i'r Eglwys, a dyfod o'r Eglwys, cedwch eich meddwl a'ch calon ar waith y Ty. Trowch y byd a'i holl ofalon allan o'ch calon ar yr adeg hon, a rhoddwch le sanctaidd i bethau mawrion eich henaid.

2. Ymdrechwch hyd y mae ynoch i gadw eich cyd- gynnuliad. Deuwch i bob Gwasanaeth o ba natur bynag y byddo, os gellwch gael rhyw les ynddo, neu fod o ryw les iddo. Gwnewch eich goreu dros Grist. A chymbhellwch eich gilydd i hyn yma.

3. Deuwch yn brydlawn i'r Gwasanaeth. Byddwch yn yr Eglwys bum mynyd o leiaf cyn yr amser, fel y galloch fyned i'ch lleoedd priodol, a chyflwyno eich hun- ain mewn gweddi bersonol a dirgel i Dduw, cyn dechreu addoli yn gyhoeddus.

4. Byddwch yn sobr, yn wylaidd, ac yn ddifrifol trwy yr holl Wasanaeth, peidiwch ymddyddan â neb, nac edrych ar neb na dim yn yr Eglwys, o'r fynyd yr eloch i mewn iddi hyd nes eloch allan o honi. Ond yn benaf oll, peidiwch ag edrych oddi amgylch yn amser y Weddi gyhoeddus. Sefydlwch eich golygon ar y gweddiâu, os ydych yn medru darllen, os amgen, cauwch eich llygaid fel na rwystreir eich gweddiâu, ac fel na offidoch yr Offeiriad.

5. Pan weloch yr Offeiriad yn ymostwng mewn gweddi ddirgel yn y ddarllenfa, ar ei fynediad iddi, ymostyngwch oll gydag ef, mewn dymuniad ar Dduw drosto, yr hyn fydd yn gysur mawr iddo ef, ac yn weddeidd-dra ynoch chwithau.

6. Na fydded a wneloch â'r arferiad sydd gan rai o droi eu llyfrau cân, a'u llyfrau hymnau ar amser y Gwasanaeth a'r bregeth. Mae hyn yn arwydd eglur o ammharch i drefn a gweddeidd-dra, o ddifaterwch mawr, os nid o galedwch calon. Pe credech y poen mae hyn yn roddi i'r Offeiriad, mi a hwn na allech fod yn euog o hono.

7. Gochelwch yr arferiad o gysgu yn Nhy Dduw. Mae pawb yma yn effro, ac mewn ymdrech am eich henaid. Mae'r Diafol a'i holl weision yn effro; ac mae Duw a'i holl weision yn effro. Mae un deyrnas am ddamnio eich hunig enaid dros byth, a'r deyrnas arall am ei gadw i fywyd tragwyddol. Cofiwch y gall y Diafol a phechod eich colli yn eich cwsg; ond na all Duw a'i ras eich hachub heb eich cael yn effro. A fedrwch chwi gysgu mewn lle mor ofnadwy.

8. Ymdrechwch fod yn hollol gyfarwydd yn yr holl Wasanaeth, a chymmerwch ran ynddo. Darllenwch a gweddïwch eich ran, mewn llais uchel, eglur, soniarus, a chydseiniol. Ac ymdrechwch fod yn wresog yn yr ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd, fel y byddo yr holl wasanaeth yn hyfrydwch i chwi, ac nid yn faich.

9. Cofiwch fod Eglwys y Duw byw yn deilwng o'r glendïd corfforol a'r prydferthwch gwisgoedd mwyaf a ellir. Ty Dduw—Porth y nef—Ysbytty y Meddyg Mawr—a Dinas y Brenin Mawr ydyw. Ymlanhêwch cyn dyfod iddi, a byddwch yn lân ynddi. Ffieiddiwch mewn eiddigedd sanctaidd yr arferiad sydd gan rai o gnoi myglys, a phoeri, a pheswch yn y Ty ag y mae angylion y chwech aden yn cuddio eu gwynebau ynddo, a sancteiddiach Tir na'r man y diosgodd Moses ei esgidiau cyn myned iddo.

10. Pau ddechreuo y bregeth, deliwch eich llygaid ar y pregethwr heb eu troi ymaith. Canys cenad Duw *atoch* chwi yw efe yn y bregeth. Gwrandëwch am fywyd.

11. Peidiwch â myned allan na symmud o'ch lle, hyd nes byddo yr Offeiriad wedi gorphen ei weddi ddirgel. A lle mae trefn a gweddeidd-dra yn cael eu lle priodol, mae yr Offeiriad yn myned allan yn gyntaf o flaen y gynnulleidfa. Ymddygwch yn weddaidd, ac mewn trefn.

12. Dangoswch bob hawddgarwch a charedigrwydd i wrandawyr dyeithr neu achlysurol. Gwahoddwch hwynt i'ch heisteddleoeedd, a rhoddwch le iddynt i eistedd, hyd yn oed pe baech hebdo eich hunain; canys yr ydych chiwi *gartref*. Mae llawer iawn yn euog, nid yn unig o beidio bod yn garedig i ddyeithriaid, ond o wrthod lle iddynt, a'u troi allan o'u heisteddleoeedd.

---

## GWEDDIAU DIRGEL.

GWEDDI I'W HARFER AR OL MYNED O HONOM I'N LLEOEDD PRIODOL YN YR. EGLWYS.

DIOLCH i Ti, O Arglwydd nef a daiar, yr Hwn na all yr holl nefoedd dy gynnwys, a'r Hwn nad yw'r nefoedd yn lân yn dy olwg, am ymddarostwng o honot i breswyllo gyda dyn ar y ddaiar.

Diolch i Ti am ein gorchymyn i adeiladu Ty i'th Enw Glân, er mwyn cyfarfod â'th bobl ynddo, i wrando eu gweddïau, i dderbyn eu mawl, i gydweithio â hwynt yn achubiaeth pechaduriaid, a'u bendithio â phob bendith ysbrydol ag sydd yng nghlŷn a'u hiachawdwriaeth yng Nghrist Iesu. Cymhorth ni yr awr hon i sefydlu ein holl feddwl arnat Ti ac ar dy waith, i sychedu am y Duw byw, i edrych ar dy brydferthwch, ac i ymofyn

am danat yn dy Deml. Caniatâ wrando ein gweddïau, derbyn ein mawl, a bendithio ein llafur. Bydd fel Gwlith i ni yma heddyw, fel y cynnyddom ar gynnydd Duw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

---

**GWEDDI I'W HARFER PAN FYDDO YR OFFEIRIAD  
YN YMOSTWNG, MEWN GWEDDI DDIRGEL AR  
EI FYNEDIAD I'R DDIARLLENFA.**

**BENDIGEDIG** fyddo dy Enw, ein Tad nefol, am anfon o honot dy Genad eglwysig atom y dydd hwn. Arddel ef fel dy Genad dy Hunan. Dyro nerth corff a meddwl iddo at bob rhan o'r Gwasanaeth. Caniatâ fod nerth ac awdurdod yr Ysbryd Glân yn cydfyned â phob rhan o'th waith yma heddyw; fel y byddo gogoniant i'th Enw, llawenydd yn y nef, a gorfoledd ym Mhyrth Merch Sïon, wrth weled gras Duw yn amlhau, trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Bendigedig. Amen.

---

**GWEDDI I'W HARFER AR DDIWEDD Y GWASANAETH  
CYN MYNED ALLAN O'R EGIWYS.**

**DERBYN** ein diolch, O Arglwydd, am nerth i ddyfod i'th Dy heddyw, am dueddu ein calon i gymmeryd rhan yn ei Wasanaeth, ac am y gwirioneddau gwerthfawr a wrandawsom. Dyro nerth i'w credu â'n holl galon, byw yn eu hol, a myfyrio arnynt yn barhäus, er goleuo ein meddwl, a chysuro ein henaid yn y byd gorthrymedig hwn. A chaniatâ fod pob gwasanaeth yn ein cymhwysu yn fwy fwy, i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni, yn Enw a Chyfyngdod ein Harglwydd a'n hunig Iachawdwr, Iesu Grist. Amen.

## DANGOSEG I'R TESTYNAU.

---

- Adfywiad Eglwysig, 204, 210, 293, 299, 433, 440.  
Afon angeu, 150, 279, 392, 394, 396, 398.  
Afon goch Calfaria, 41: y bryn, 113.  
Angeu—yn nesŷu, 150, 317, 389.  
Angylion yn gweini'r saint, 358.  
Amser, byrdr, 32, 370, 443.  
Awn rhagom i'r wlad well, 148.  
Bara'r bywyd, 415.  
Bedydd, 371—374.  
Blino ar y ddaiar hon, 38.  
Boreu braf ger llaw, 65.  
Brwydr Golgotha, 439. Bryniau Caersalem, 18.  
Bryniau Canaan, 135. Buddugoliaeth Calfari, 86.  
Byw a marw yn y goleuni, 131.  
Cân newydd y nef, 298. Cân y Drindod, 215, 218, 220.  
Cariad at Dduw, 106.  
Cariad yn rhagori, 101, 102.  
Ceidwad i'r colledig, 171.  
Ceisio'r trysor drud, 35.  
Cenadol, 8, 48, 158, 179, 181, 290, 312, 416—419.  
Claddedigaeth, 16, 17, 35, 187, 243, 279, 384—400.  
Coron yn lle croes, 302.  
Crefydd mewn amser, 356.  
Crefydd wirioneddol, 168.  
CRIST—a fydd yn ben, 416.  
Adgyfodiad, 159—166, 436.  
Bywyd y Cristion, 331.  
Cana am ei aberth, 108, 174, 234, 274, 383.  
Canu ei fawl, 145, 217.  
Cariad at, 105. Clod i'w enw, 133.  
Codi ar ei ddelw, 149.  
Cofio ei ddwyfol loes, 115.  
Coroner Ef yn ben, 46, 180.  
Craig yr iachawdwriaeth, 66.  
Craig yr oesoedd, 12, 365.

- CRIST—Cyfaill pechaduriaid, 280.  
 Cyfaill yn anghu, 187, 243, 296.  
 Cyfryngwr addas, 144.  
 Dan ei aden, 349. Dan yr hoelion, 151.  
 Dattod gweithredoedd diafol, 82.  
 Dewis Iesu, 35.  
 Diangfa yn ei glwyfau Ef, 147.  
 Digon yn anghu, 16, 242.  
 Dilyn ei esampl, 328.  
 Ei barodrwydd i fadden beiau, 141.  
 Ei deyrnas, 93; yn ben moliant y byd, 266.  
 Ei ddigonedd, 34, 47, 146.  
 Ei ddyfodiad, 1, 44, 427, 428.  
 Ei eiriolaeth, 97.  
 Ei gariad, 175, 362.  
 Ei groes, 110, 148, 155, 188, 297, 330, 429, 433.  
 Ei haeddiant, 70. Ei lawnder, 143.  
 Ei ymddarostyngiad, 438.  
 Ein Harchoffeiriad, 355.  
 Esgyniad, 197—199, 201, 202.  
 Ffoi i'w fynwes, 118, 435. Ffordd at y Tad, 27.  
 Ffynnon bywyd, 252, 373, 437, 444.  
 Ffynnon Calfaria, 120.  
 Genedigaeth, 28, 30.  
 Gwahoddiad ato, 91.  
 Haeddiant ei groes, 330; ei glwyf, 119, 195; ei  
 waed, 109, 111, 112, 157, 174, 378.  
 Hebdo, heb ddim, 350.  
 Iachawdwriaeth trwyddo, 225, 278.  
 Lloches yn ei glwyf, 74.  
 Nef y credadyn, 200. Nerth i'r gwan, 194.  
 O'n hochr ni, 84.  
 Prif wrthddrych ein serch, 261.  
 Rhagori ar bawb, 20, 29, 33, 147, 173.  
 Rhinwedd ei waed a'i aberth, 61, 96, 140, 157, 350.  
 Rhodd y Tad, 25.  
 Sylfaen, Noddfa, Lloches, 64.  
 Sylwedd y nefoedd, 116. Sylwedd y cysgodau, 1.  
 Unig noddfa pechadur, 349, 431, 435.

- CRIST**—Wylo yn yr olwg arno ar y Groes, 152  
 Yn bob peth i bechadur, 100, 289.  
 Yn derbyn plant bychain, 371, 372.  
 Yn dyfod ar y cwmwl, 4; i farnu, 56.  
 Yn dyoddef am ein beiau ni, 169.  
 Yn fuddugol ar anghen a'r bedd, 82, 83, 232, 400.  
 Yn gwisgo natur dyn, 2, 144, 422.  
 Yn Lloches gadarn, 123, 172, 435.  
 Yn marw, 151, 153  
 Yn rhagori ar bawb, 173.      Yr enw mwyaf, 3.  
 Yr Adgyfodiad a'r Bywyd, 384, 385.  
 Yr unig Waredwr, 158, 167.
- Cristion**—ar ei daith, 316, 332, 398.    Balm o Gilead, 314.  
 Cartrefe ei serch, 135, 208, 304, 321.  
 Ei ddedwyddwch, 430.  
 Ei hyder, 273, 277; obaith, 326; wroldeb, 324.  
 Gweled y goleu, 267, 313.  
 Toriad ei wawr, 267, 313.  
 Wrth ei fodd yng ngwaith yr Arglwydd, 352.  
 Yn ffoi i'r bryniau, 332, 364.  
 Yn ymfrostio yn y Groes, 433.  
 Yn ymofyn am ei Dduw, 316.
- Cyfammod**—Ei nerth, 228.
- Cyffes Iob**, 385.
- Cymmun**, 81, 84, 86, 112, 118, 121, 151, 153, 156, 184,  
 378—383.
- Cynauaf**—56, 57, 98, 191—193, 264, 318, 409—415.
- Cynhwrf Calfaria**, 154.
- Dechreu blwyddyn**, 37, 40.
- Dewch i'r dyfroedd**, 445.
- Duw**—a digon, 104, 130, 131, 235.  
 Bugail ei bobl, 251.  
 Caru Duw a'i air, 186.      Craig y Cristion, 241.  
 Chwilio am, 244.  
 Dyfnderoedd ei feddyliau, 132, 237, 259, 265.  
 Efe yn unig, 20.  
 Ei drugaredd, 36, 98, 282, 283, 306, 361, 409, 410.  
 Ei ddaioni, 98, 191—193, 195, 253.  
 Ei enw yn dŵr cadarn, 273.



- Duw—Ei fawredd, 81, 56—58, 132, 255, 337, 338, 409.  
 Ei ffyrdd yn anchwiliadwy, 138, 259, 265.  
 Ei gariad, 77, 94, 175, 183, 226, 238, 250.  
 Ei haelioni gwastadol, 40.  
 Ei hollwybodaeth, 230.  
 Ei lywodraeth, 93, 259, 260, 264.  
 Ei ragluniaeth, 138, 237, 251, 265.  
 Ei ras, 39, 58, 71, 79, 256, 284.  
 Grym ei leferydd, 134. Gwedd ei wyneb, 238.  
 Hiraeth am dano yn yr anial, 85.  
 Hyder yn ei ras, 79, 90, 92, 182.  
 Molwch Ef, 39, 56, 57, 218, 247, 254, 318, 369, 411.  
 Nawdd i'w blant, 122, 257.  
 Nerth i'r gwan, 59, 81, 99, 194, 221, 222, 258.  
 Nerth mewn cystudd, 89, 223.  
 Parod i faddeu, 229.  
 Pleser yn ei waith, 344—6.  
 Sicrwydd ei gyfammod, 228.  
 Y greadigaeth yn dadgan ei glod, 88.  
 Y nefoedd yn dadgan ei ogoniant, 88, 191.  
 Ymddiried yn, 59, 60, 69.  
 Yn dragwyddol, 195, 320.  
 Yn Dri Pherson, 216, 219, 220.  
 Yn gwrando gweddi, 275, 357.  
 Yn natur dyn, 44.  
 Yn newid y galon, 233.  
 Yn preswyllo yn Sion, 249.  
 Duwioldeb yn elw, 137; ei werth, 272.  
 Dychweliad yr afradlon, 354.  
 Dydd gras, 32. Dydd y Farn, 5, 6, 16.  
 Dydd yr Arglwydd, 239, 269, 329, 347, 359.  
 Dyddiau braf ar Sion, 45.  
 Eglwys—Duw yn nerth iddi, 224, 442.  
 Ei thegwch yn y nef, 53, 358, 366.  
 Yn dyfod o'r anialwch, 53, 319.  
 Yn griddfan dan y Groes, 432.  
 Eglwys—Gosod sylfaen, 401—5.  
 Cyssegru neu agor, 406—8, 305, 320.  
 Emyn Foreuol, 423. Emyn Brydnawnol, 424.

- Ffynnon yn yr anial, 438; i'n glanhau, 170, 444.**  
**Ffynnon o ddwr a gwaed, 121, 156, 437.**  
**Gair Duw—Addewid o'n hochr, 189.**  
 Clod i Dduw am dano, 367.  
 Ei briodoliaethau, 412.  
 Ei ragoroldeb, 325.  
 Ei ysgrifenu yn ein calon, 309.  
 Llwyddiant y, 245, 246, 250, 266, 312, 315, 418.  
 Pwyso arno, 190.  
 Yn ddigyfnewid, 7.  
 Yn gysur i'r saint, 9, 325.  
 Yn llewyrch i'r byd, 311.  
**Galwad y Cenedloedd, 43—45; at arlwy gras, 268.**  
**Gobaith—Llawenhau mewn, 267.**  
**Gras—Cynnydd mewn, 304; yn arwain trwy'r anial,**  
 136; yn unig all ein hachub, 178; yn uno  
 Duw â dyn, 434.  
**Gwaed yr Oen, 119.**  
**Gwahoddiad i'r swper mawr, 336.**  
**Gweddi—Alwad yr Efengyl, 307.**  
 Am afael ar y bywyd, 340.  
 Am amddiffyn Duw dros yr Eglwys, 78.  
 Am bresenoldeb Iesu, 176.  
 Am gael Iesu yn y rhyfel, 67.  
 Am lwyddiant ar y gair, 8, 440.  
 Am serch at ddeddfau Duw, 263.  
 Amddiffyn y wir grefydd, 75, 76.  
 Anian bur, 348.      Anian Iesu, 348.  
 Ar yr Eiriolwr, 111.  
 Arweiniad, 22, 227.  
 Burdeb, 110, 118, 168, 176, 184.  
 Ddiangfa rhag y tân, 123.  
 Edifeirwch a maddeuant, 109, 265.  
 Ein cadw rhag cam, 335.  
 Faddeuant, 23, 341—3.  
 Fod yn un o'r plant, 226.  
 Fodd i farw mewn tangnefedd, 17.  
 Fwynhâd o Dduw, a byw yn ol ei air, 11, 235.  
 Fyw yn agos at Grist, 68.

- Gweddi—Ffrwyth crefyddol, 196.  
 Ffyddlondeb, 10, 52, 55.  
 Goncwest ar bechod, 351.  
 Hedd Duw yn angen, 24. Hwyllo'r enaid, 322.  
 I Dduw amlygu ei Hun ym moddion gras, 13, 14, 15.  
 I Dduw amlygu ei nerth achubol, 19, 21.  
 I fyned ar ol Crist, 142, 327.  
 Lynu wrth yr orsedd, 287, 288, 292.  
 Lwyddiant yr Efengyl, 179, 181.  
 Mewn ofnau ar y daith, 117.  
 Nerth a glanhâd, 333, 334.  
 Nerth ar ffordd y nef, 121, 128, 303.  
 Nerth i addoli, 267.  
 Nerth i ogoneddu Duw, 277, 339.  
 Nerth mewn gwendid, 62, 63, 236, 368.  
 Olchi'r enaid, 184. Oleuni a nerth, 54.  
 Ollyngdod oddi wrth ein pechod, 360—362.  
 Sancteiddrwydd, 72.  
 Sefyll rhyngom a'r tân, 124.  
 Taerineb mewn, 125, 126, 127, 130, 291.  
 Wared yr enaid rhag drwg, 323.  
 Wrاندawiad i'n gweddïau, 49, 50, 51.  
 Gwlad yr addewid, 42, 177.  
 Hiraeth am oruchafiaeth ar bechod, 172.  
 Iubili—Blwyddyn y Iubili a ddaeth, 231, 268.  
     Dysgwyl ei gwawr, 248.  
 Llawenydd yn yr ystormydd, 262. [418.  
 Llwyddiant yr Efengyl, 45, 48, 179, 245, 266, 290, 312,  
 Nef—Dinas Duw, 87, 224, 249.  
     Ei dedwyddwch, 18, 135, 148, 212, 281, 302, 426.  
     Gobaith a hiraeth am, 60, 177, 208, 300, 321, 441.  
     Llais yn galw i'r, 185.  
 Nerth yn ol y dydd, 71.  
 Oriau sobr, 387.  
 Pechod—Colli'r dydd, 309.  
 Pren y Bywyd, 425.  
 Saint—Cyssegriad eu beddau, 395.  
     Eu cymdeithas, 308.  
 Salem heb ei llanw, 310. Seren Iacob, 43.

- Tragwyddoldeb, 240, 443.  
 Trugaredd—Mawredd, 285, 286.  
 TY DDUW.—Serch at, 276, 294, 305, 329, 347, 353, 407.  
     Cyssegrïad neu agoriad, 305, 320, 406—408.  
 Udgorn achub, 271.  
 Udgorn yr Efengyl, 231, 236, 246.  
 Wrth ymadael, 446, 447.  
 Y flordd newydd, 73.  
     Gras y nef yn nerth i'r gwan, 177.  
     Yn orphwysfa, 207, 386.  
 Ymryd, 107—109, 111, 112, 421, 420.  
 Yr Ysgol Sul—Gwel dan "Gair Duw," a "Dydd yr  
     Arglwydd," 7, 9, 10, 11, 14, 32, 315, 372, 375, 377.  
 YR YSBRYD GLAN.—Arweiniad yr, 203—206, 270, 363.  
     Gweddi am, 184, 209—214.  
 Ysbytty neu glafdy—Casgliad tuag at gynnal, 422.

---

### DANGOSEG I'R MESURAU.

- M. C.—2, 10, 17, 20, 26, 43, 47, 50, 58, 61, 62, 77, 94,  
 95, 113, 119, 120, 127, 133, 135, 139, 152, 167,  
 170, 173, 175, 177, 180, 182, 185, 192, 198, 202,  
 203, 207, 209, 217, 218, 223, 224, 235, 248, 255,  
 257, 261, 265, 270, 274, 275, 283, 295, 296, 303,  
 316, 324, 327, 333, 338, 345, 350, 355, 358, 361,  
 372, 377, 386, 401, 402, 412, 414, 415, 417, 425,  
 426, 427, 429.  
 M. C. D.—48, 53.  
 M. H.—9, 13, 32, 39, 40, 46, 51, 56, 68, 73, 84, 87, 93,  
 97, 98, 101, 106, 112, 122, 123, 129, 143, 159,  
 160, 166, 195, 199, 201, 204, 206, 210, 214, 216,  
 222, 225, 230, 233, 239, 242, 247, 256, 260, 264,  
 276, 281, 287, 290, 294, 304, 321, 337, 348, 354,  
 363, 369, 371, 375, 380, 387, 388, 389, 390, 403,  
 406, 413, 416, 418, 421, 423, 424, 433.  
 M. H. D.—88, 136.  
 M. B.—29, 37, 65, 136, 169, 234, 306, 434.  
 M. B. D.—28, 71, 128, 226, 326.

- M. S.—19, 25, 36, 49, 69, 75, 99, 102, 107, 110, 145, 155,  
191, 205, 211, 220, 250, 258, 292, 305, 311, 323,  
329, 335, 341, 353, 373, 374, 378, 379, 384, 385,  
397, 407, 409, 411, 420, 430.
2. 8.—64, 81, 308.
5. 8.—366.
6. 4.—15, 63, 80, 272.
6. 5.—1, 396.
6. 8. neu 6. 4. 4.—3, 57, 70, 91, 104, 111, 130, 141, 147,  
148, 162, 190, 231, 267, 298, 300, 312, 318, 320,  
347, 360, 405, 445.
6. 8. 6.—24.
- 7AU.—121, 161, 163, 197, 213, 266, 365, 435.
7. 4.—161, 163, 197, 444.
7. 6.—6, 16, 23, 66, 76, 96, 108, 115, 137, 149, 165, 168,  
183, 187, 193, 221, 229, 237, 277, 278, 284, 288,  
302, 310, 314, 339, 343, 356, 404, 410, 419.
- 8AU.—82, 83, 150, 188, 215, 330: 251, 362: 116.
8. 7—5, 14, 21, 27, 35, 42, 55, 60, 74, 78, 85, 89, 100,  
103, 109, 114, 118, 125, 131, 142, 146, 154, 158,  
164, 172, 178, 184, 189, 200, 208, 212, 219, 227,  
232, 238, 240, 243, 246, 252, 259, 263, 271, 273,  
279, 282, 286, 289, 291, 293, 297, 301, 313, 317,  
322, 325, 328, 331, 332, 336, 340, 342, 352, 357,  
364, 367, 368, 376, 381, 382, 383, 391, 292, 393,  
394, 395, 438, 439, 440, 441, 442, 443, 447.
8. 7. 3.—8, 31, 67, 92, 134, 156, 181, 194, 241, 268,  
315, 346, 351, 436.
8. 7. 4.—4, 11, 22, 30, 34, 38, 44, 54, 59, 72, 79, 90, 105,  
117, 124, 126, 132, 153, 157, 171, 176, 179, 186,  
236, 244, 245, 262, 269, 285, 299, 307, 309, 334,  
344, 349, 359, 370, 398, 399, 408, 422, 428, 431,  
446.
8. 7. 6.—280, 437.
8. 8. 6.—86, 151, 319.
8. 8. 8.—12, 174, 254.
8. 8. 8. 6.—52.
9. 8.—7, 18, 138, 144, 249, 400.
- 10AU.—196, 228, 432.      11AU.—33, 41, 45, 140.

## HYMNAU.

---

### Y Sul Cyntaf yn Adfent.

**COLLECT.**—Dyfodiad Crist i'r byd—Ei ail-ddyfodiad i farnu'r byw a'r meirw. *Gwedd*—Am ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, a gwisgo arfau y goleuni—Fel y cyfodom i'r bywyd anfarwol trwyddo Ef.

#### BOREUOL WEDDI.

1.

6. 5.

TRWY y cysgodau cudd,  
'R oedd rhai yn canfod  
O bell, â golwg ffydd,  
Oen Duw yn dyfod;  
Y Sylwedd mawr ei ddawn,  
I dalu perffaith Iawn,  
A rhoi gollyngdod llawn,  
Trwy waed y cymmod.  
  
Fe ddaeth, mae'r ffordd yn rhydd  
I fro'r goleuni ;  
A modd i ffoi, trwy ffydd,  
O bob trueni :  
Fe ddaeth,—aeth at y Tad,  
Yn rhin ei Ddwyfol waed,  
Gan gael i ni ryddhâd,  
Rhag cael ein cospi.

2.

M. C.

Ym mhlith holl ryfeddodau'r nef,  
 Hwn yw y mwyaf un:  
 I wel'd anfeidrol Ddwyfol Fod  
 Yn gwisgo natur dyn.

Doed y trueiniaid yma 'nghyd,  
 Yn lluoedd heb ddim rhi';  
 Cânt eu diwallu oll yn llawn,  
 O ras y nefoedd fry.

Mae mil o filoedd ger ei fron  
 Yn treulio'r amser maith,  
 A byth heb gollir cariad pur,  
 Na'r pleser yn y gwaith.

Mae ynddo drysor fel y cefnfor,  
 Byth ni cheisaf ddim yn rhagor,  
 Hedd a bywyd yw ei ffafor ;  
 Nefoedd berffaith,  
 Yw cael drachtio 'i Ddwyfol hedd.

3.

6. 8.

YMGRYMED pawb i lawr,  
 I enw'r addfwyn Oen,  
 Yr enw mwya' mawr,  
 Erioed a glywyd son ;  
 Y clod, y mawl, y parch, a'r bri,  
 Fo byth i enw'n Harglwydd ni.

O nefol addfwyn Oen,  
 Sy'n llawer gwell na'r byd,  
 Mae lluoedd maith y nef,  
 Yn rhoddi arno 'u bryd;  
 Mae'th ddawn, a'th ras, a'th gariad drud,  
 Yn llanw'r nef, yn llanw'r byd.

Dyoddefodd hoelion dur,  
 Fe gollodd Ddwyfol waed,  
 Gwnaeth ni'n offeiriaid pur,  
 Was'naethu 'i anwyl Dad;  
 Breninoedd f'm o Ddwyfol ryw,  
 Perthynas agos iawn i'n Duw.

Coronau gawn cyn hir,  
 Oll fel ei goron Ef,  
 A gwel'd 'i ogoniant pur,  
 Yn ddysglaer yn y nef;  
 A seinio 'i glod, a'i ryfedd waith,  
 I eithaf tragwyddoldeb maith.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

4.

8. 7. 4.

WŴLE'N dyfod ar y cwmwl,  
 Mawr yw'r enw sy iddo 'n awr,  
 Ar ei fraich ac ar ei forddwyd  
 Ysgrifenwyd ef i lawr;  
 Haleluia! groesaw, groesaw, addfwyn Oen.



Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,  
 O gwmpeini hardd eu gwedd,  
 Welaf draw yn codi fyny,  
 I'w gyfarfod Ef o'r bedd;  
 Darfu galar; dyma iachawdwriaeth lawn.

Nid oes yno gofio beiau ;  
 Dim ond llawn faddeuant rhad,  
 Poenau'r groes, a grym y cariad,  
 A rhinweddau maith y gwaed;  
 Darfu ofni, daeth llawenydd yn ei le.

5.

8. 7.

Duw mawr ! pa beth a welaf draw ?  
 Diwedd a braw i'r holl-fyd;  
 Mi wela'r Barnwr yn nesau  
 Ar glaer gymylau tanllyd;  
 Yr udgorn mawr yn seinio sydd,  
 A'r beddau'n rhoddi'r meirw'n rhydd,  
 I wae neu ddydd o wynfyd.

Dydd gras yw'n awr, dydd yw i ni  
 I ffoi rhag llid i ddyfod;  
 Mae eto le, trwy'r Iesu hael,  
 I ni â Duw gael cymmod:  
 Awn ato Fe, cawn eto fyw,  
 Boed iddo glod, dydd cymmod yw,  
 O brysiwn i'w gyfarfod.

6.

7. 6.

Y GWR fu ar Galfaria  
 A welir maes o law  
 Yn eistedd ar ei orsedd,  
 A'r glorian yn ei law;  
 A phawb a gesglir yno,  
 I'w pwysu ger ei fron;  
 O f'enaid, cais dduwioldeb  
 A droa'r glorian hon.

Daw dydd o brysur bwyso  
 Ar grefydd cyn bo hir;  
 Ceir gwel'd gan bwy mae sylwedd,  
 A phwy sydd heb y gwir:  
 O Arglwydd, rho i mi 'dnabod  
 Ar f'ysbryd, ol dy law;  
 Can's dyna'r stamp a'r ddelw  
 Arddelir ddydd a ddaw.

Bydd myrdd o ryfeddodau,  
 Ar doriad boreu wawr;  
 Pan ddelo plant y tdnau,  
 Yn iach o'r cystudd mawr;  
 Oll yn eu gynau gwynion,  
 Ac ar eu newydd wedd;  
 Yn debyg iawn i'w Harglwydd,  
 Yn d'od i'r lan o'r bedd.

## Yr Ail Sul yn Adfent.

COLLECT.—Yr holl Ysgrythyr Lân yn ysgrifenedig er ein hathrawiaeth a'n haddysg ni. *Gweddî*—Am nerth i'w gwrando, ei darllen, ei chwilio, a'i dyegu, a'i mwynhau yn ein calonau—Fel y gallom gynnal ynom ein hunain obaith y bywyd tragwyddol, yr hwn a gawsom trwy Grist.

### BOREUOL WEDDI.

7.

9. 8.

O AGOR fy llygaid i weled  
 Dirgelwch dy arfaeth a'th Air;  
 Mae'n well imi gyfraith dy eneu  
 Na miloedd o arian ac aur :  
 Y ddaiar ä'n dân â'i thrysorau,  
 Ond geiriau fy Nuw fydd yr un;  
 Y bywyd tragwyddol yw 'dnabod  
 Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.

Rhyfeddod a bery'n ddiddarfod  
 Yw'r ffordd a gymmerodd Efe  
 I gadw pechadur colledig,  
 Trwy farw ei Hun yn ei le ;  
 Fe safodd fy Mrenin ei Hunan,  
 Gorchfygodd awdurdod y ddraig,  
 Ein Ceidwad galluog ni ydyw,  
 O caued preswylwyr y Graig.

Y Llew o lwyth Iudah orchfygodd;  
 Pa elyn all sefyll o'i flaen?  
 Mae Sion yn teithio tuag adref  
 Mewn cerbyd dychrynlyd o dân;

Bydd iniloedd o saint ac angylion,  
 Yn dorf ogoneddus yng nghyd,  
 Yn canu rhyw anthem dragwyddol  
 O ogoniant i Brynwr y byd.

8.

8. 7. 3.

TYRED, Iesu, i'r ardaloedd  
 Lle teyrnasa'r dywyll nos;  
 N'ad fod rhan o'r byd heb wybod  
 Am dy chwerw angyloes;  
 Pam bydd poen addfwyn Oen  
 Am dano'n eitha'r byd heb son?  
 O gwna imi brofi'r sypiau,  
 Hyfryd ffrwythau'r Ganaan wlad,  
 Blas maddeuant pur a heddwch,  
 Gwleddoedd hyfryd ty fy Nhad;  
 Dyma hwy, perlau mwy,  
 Gloddiwyd yn ei farwol glwy'.

9.

M. H.

Ym mhob rhyw drallod blin y b'wyf,  
 Ehedeg at fy Nuw yr wyf;  
 Dim gobaith mewn un lle ni chair,  
 Ond yn ei 'sgrifunedig Air.  
 Yn llyfr gras fy nefol Dad  
 'Rwy'n cael i'm blinder esmwythâd,  
 Gwel'd 'rwy', 'mhob dalen ynddo 'mron,  
 Wynneb a llais fy Mhrynwr Hon.

Hwn yw dadguddiad Duw ei Hun,  
 Uwch rheswm dall, a synwyr dyn;  
 F' arweinydd i'r wlad nefol fry,  
 Trwy'r byd a'r glyn wylofus du.

O boed i'th Air, alluog Dduw,  
 Gyfeirio 'nhraed tra byddwyf byw,  
 Rhag troi o'r brif-ffordd ddedwydd fwyn,  
 Ar dy ddeheulaw sydd i'm dwyn.

PRYDNAWNOL WEDDI.

10.

m. c.

Mi ymddiriedaf yn ei Air,  
 Er cymmaint yw fy mai;  
 Ac fe derfynwyd dydd ac awr,  
 Pan gaffwy'm gwir ryddhau.

N'ad fi foddloni ar rhyw rith  
 O grefydd heb ei grym:  
 Ond gwir adnabod Iesu Grist  
 Yn fywyd anwyl im'.

Plant ydym eto dan ein hoed,  
 Yn dysgwyl am y 'stâd;  
 Mae'r etifeddiaeth ini'n dod,  
 Wrth destament ein Tad.

11.

8. 7. 4.

DYSGWYL wyf ar hyd yr hirnôs,  
 Dysgwyl am y boreu ddydd,

Dysgwyl clywed pyrth yn agor,  
 A chadwyni'n myn'd yn rhydd:  
 Dysgwyl goleu pur yn nh'wyllwch tewa'r nos.

Nid oes arnaf faich yn gorphwys,  
 Dim ond eisieu dy fwynhau;  
 Nid oes arall dan y nefoedd  
 All yn hollol fy iachäu;  
 Rho dy gwm'ni, cyn im' fyn'd i'r cefnfor glas.

Dal fy llygad, dal heb wyro,  
 Dal ef ar dy addewid wir;  
 Dal fy nhraed heb gynnyg ysgog  
 Allan o dy gyfraith bur;  
 Boed d'orch'mynion imi'n gysur ac yn hedd.

Mi gaf yn y wlad wy'n myned,  
 Ddiengu'n lân i maes o'm poen,  
 Gorphwys draw i derfyn gofid,  
 Gyda'r addfwyn anwyl Oen;  
 Ni ddaw tristwch bythi fewn dros furiau'r nef.

12.

8. 8. 8.

O'r Graig y mae'n dylifo maes,  
 Yn afon ddysglaer loew las,  
 Sef Craig yr Oesoedd gadarn yw;  
 A thyna'r man y gwua fy lle,  
 Tan gysgod tawel furiau'r ne',  
 Lle caf ddyddanwch tra b'wyf byw.

'Rwy'n cofio gair fy Iesu mawr,  
 Y doi'r Dyddanydd ata' i lawr,  
 Na chawn i farw o dristwch mwy;  
 O Dduw, cyflawna'th air i ben,  
 Rho im' Arweinydd is y nen,  
 Ddangoso'r ffordd iachao 'nghilwy'.

### Y Trydydd Sul yn Adfent.

COLLECT.—Crist yn anfon ei Genadwr i barotol ei ffordd o'i  
 flaen. *Gweddî*—Am lwyddiant ar lafur gweinidogaethol  
 ei weision—Fel y byddom bobl gymmeradwy yn ei olwg  
 Ef, pan ddelo i farnu'r byd.

### BOREUOL WEDDI.

13.

M. H.

'Rym yn dy erfyn, Arglwydd mawr,  
 Disgyn o entrych nef i lawr,  
 'Rhyd ysgol faith Iehofah 'n ddyn,  
 'Roi bendith Iacob i bob un.

Gwel ni yn myn'd i maes i blith  
 Gelynyon cryfion rif y gwllith;  
 O rho addewid ini i gyd  
 Y byddi o'n plaid hyd ddiwedd byd.

Gad ini dd'od i'r mynydd fry,  
 I'r cwmwl goleu atat Ti,  
 Fel y dysgleirio'n gwyneb pryd,  
 Nes synu Iarael oll i gyd.

Rho'r cleddyf dysglær yn ein llaw,  
 Nerth' ni i'w chwareu yma a thraw,  
 A rhoddi i'n gelynyon glwy',  
 Fel ag na safu gelyn mwy.

14.

8. 7.

O LLEFARA, addfwyn Iesu;  
 Mae dy eiriau fel y gwin,  
 Oll yn ddwyn i mewn dangnefedd  
 Ag sydd o anfeidrol rin;  
 Mae holl leisiau'r greadigaeth,  
 Holl ddeniadau cnawd a byd,  
 Wrth dy lais hyfrydaf tawel  
 Yn dystewi a myn'd yn fud.

Nis gall holl hyfrydwch natur,  
 A'i melusder penaf maes,  
 Fyth gymharu â lleferydd  
 Hyfryd, pur, maddeuol ras;  
 Gad im' glywed swm dy eiriau,  
 Awdurdodol eiriau'r nef,  
 Oddi mewn yn creu hyfrydwch,  
 Nad oes mo'i gyffelyb ef.

D'wed dy fod yn eiddo imi  
 Mewn llyth'renau eglur clir,  
 Tor ammheuaeth, sych ddigysur,  
 Tywyll, dyrys, cyn bo hir;



'Rwy 'n hiraethu am gael clywed  
 Un o eiriau pur y ne',  
 Nes bo ofn du a thristwch  
 Yn dragwyddol golli eu lle.

15.

6. 4.

O TYRED, Arglwydd mawr,  
 Dyhidla o'r nef i lawr gawodydd pur,  
 Fel byddo i'r egin grawn,  
 Foreu-ddydd a prydawn,  
 I darddu'n beraidd iawn o'r anial dir.

Mae peraroglau'th ras  
 Yn taenu o gylch i maes awelon hedd:  
 Estroniaid sydd yn d'od  
 O'r pellder eitha' erioed,  
 I gwympo wrth dy droed, a gwel'd dy wedd.

Mae tegwch d'wyneb pryd  
 Yn maeddu oll i gyd sy ar ddaiar las;  
 Mae pob rhyw nefol ddawn  
 Oll yno'n gryno lawn  
 Yn tarddu'n hyfryd iawn o'th glwyfau maes.

Af bellach tua'r wlad,  
 Bwrcaswyd im' â gwaed, 'rwyf yn nesäu;  
 Caf yno oll i'm rhan,  
 Sydd eisieu ar f'enaid gwan,  
 A hyny yn y man, i'w wir fwynhau.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

16.

7. 6.

O FLAEN y faine rhaid sefyll,  
 Ië, sefyll cyn bo hir,  
 Nid oes a'm nertha i yno  
 Ond dy gyfiawnder pur;  
 Myfi anturia'n eon,  
 Trwy ddyfroedd a thrwy dân,  
 Heb oleu ac heb lewyrch,  
 Ond dy gyfiawnder glân.

Ti Farnwr byw a meirw,  
 Sydd ag allweddau'r bedd,  
 Terfynau eitha'r ddaiar  
 Sy'n dysgwyl am dy hedd;  
 'Dyw gras i Ti ond gronyn,  
 Mae gras ar hyn o bryd  
 Rhyw filoedd maith o weithiau  
 I mi yn well na'r byd.

17.

M. C.

PAN ddelo Angeu yn ei rwysg,  
 I dori f'oll i lawr,  
 Fy unig noddfa werthfawr fydd  
 Yn fy Ngwardwr mawr.

Fe saif cyfammod pur y nef  
 Pryd hyny yn ei rym,  
 Pan fo pob cysur is y nef  
 Wedi diflanu'n ddim.

O gad im' mewn tangnefedd pur  
 Roi'm hanadl ola'i maes,  
 Ac mewn gorfoledd hwylio dros  
 Y cefnfor garw glas ;

A myn'd tan ganu tua'r wlad  
 Bwrpaswyd imi fyw;  
 Ac wedi gado 'mhell o'm hol  
 Gystuddiau o bob rhyw.

18.

9. 8.

**M**AÆ ffrydiau'n gorfoledd yn tarddu  
 O ddysglaer orseddfainc y ne';  
 Ac yno esgynodd yr Iesu,  
 Ac yno yr eiriol Efe;  
 Y gwaed a foddlonodd gyfiawnder,  
 Daenellwyd ar orsedd ein Duw,  
 Sydd yno yn beraidd yn erfyn  
 I ni y troseddwy'r gael byw.

Cawn esgyn o'r dyrys anialwch  
 I'r beraidd Baradwys i fyw;  
 Ein henaid lluddedig gaiff orphwys  
 Yn dawel ar-fynwes ein Duw:  
 Diangfa dragwyddol geir yno,  
 Ar bechod, cystuddiau, a phoen,  
 A gwledda, i oesoedd diderfyn,  
 Ar gariad annhraethol yr Oen.

O fryniau Caersalem ceir gweled  
 Holl daith yr anialwch i gyd;  
 Pryd hyny daw troion yr yrfa  
 Yn felus i lanw ein bryd:  
 Cawn edrych ar 'stormydd, ac ofnau,  
 Ac angeu dychrynlyd a'r bedd,  
 A ninnau, 'n ddiangol o'u cyrhaedd,  
 Yn nofio mewn cariad a hedd.

### Y Prdmerydd Sul yn Adfent.

COLLECT.—Ein hanalluogrwydd i redeg yr yrfa a osodwyd o'n blaen. *Gweddî*—Am i Dduw ein cymhorth, a'n gwared yn ebrwydd trwy Iawn digonol ei Fab.

#### BOREUOL WEDDI.

19.

M. S.

DY ras, dy nawdd, fy Nuw, im' dod,  
 Sef ynod ymddiriedaf:  
 Nes myned heibio'r aflwydd hyn,  
 Dan d'edyn ymgysgodaf.

Ymddiried f'enaïd ar Dduw sydd,  
 Ar Dduw trwy ffydd y galwaf;  
 Ac a gwblhâf ei air yn iawn,  
 Sef cyfiawn yw'r Goruchaf.

Ymddyrrha, Dduw, y nef uwch law,  
 Oddi yno daw d'arwyddion,  
 A bydded dy ogoniant ar  
 Y ddaiar a'i thrigolion.

20.

M. C.

Ni fedda'i ar y ddaiar fawr,  
 Ni fedda'i yn y ne',  
 Neb ag a bery'n anwyl im',  
 Yn unig ond Efe.

Mae ynddo ei Hunan drysor mwy  
 Na fedd yr India lawn;  
 Fe brynodd imi fwy na'r byd,  
 Ar groesbren un prydawn.

Fe brynodd imi auraidd wisg,  
 Trwy ddyoddef marwol glwy',  
 A'i angeu ef a guddia'm gwarth,  
 I dragwyddoldeb mwy.

O! na allwn rodio er ei glod,  
 Ac iddo bellach fyw,  
 A phob anadliad fyn'd i maes  
 I ganmol gras fy Nuw.

21.

8. 7.

[20.]

GOSOD babell yng ngwlad Gosen,  
 Dere, Arglwydd, yno'th Hun,  
 Gostwng o'r uchelder goleu,  
 Gwna dy drigfan gyda dyn;  
 Trig yn Sion, aros yno,  
 Lle mae'r llwythau'n d'od yng nghyd,  
 Byth na 'mâd oddi wrth dy bobl,  
 Nes yn ulw'r elo'r byd.

Blinais ar afonydd Babel,  
 Nid oes yno ond wylo i gyd;  
 Llais telynnau hyfryd Sion  
 Sydd yn gysson dynu 'mryd:  
 Tyr'd & ni, yn dorf gariadus,  
 O gaethiwed Babel fawr,  
 Ac nes bôm ar fynydd Sion,  
 N'ad 'ni osod clun i lawr.

Dacw'r Brenin yn ei degwch,  
 Wele 'i Briod wrth ei glun;  
 Gwedd ei wyneb sy'n rhagori  
 'Mhell ar wedd wynebpryd dyn;  
 Dyma ddydd, dydd ei ddyweddi,  
 Dyma'r briodasol wledd,  
 Dyma'r dydd caiff pererinion  
 Yfed o'i dragwyddol hedd.

22. PRYDNAWNOL WEDDI. 8. 7. 4.

ARGLWYDD, arwain trwy'r anialwch  
 Fi bererin gwael ei wedd,  
 Nad oes ynof nerth na bywyd,  
 Fel yn gorwedd yn y bedd;  
 Hollalluog, ydyw'r un a'm cwyd i'r lan.  
 Nos, rho'r golofn dân i'm harwain,  
 A rho'r golofn niwl y dydd;  
 Dal fi pan b'wy'n teithio'r manau  
 Geirwon yn y ffordd y sydd;  
 Rho mi fanna, fel na b'wyf i lwfrhau.

Agor y ffynnonau melus,  
 Sydd yn tarddu o'r Graig i maes;  
 'Rhyd yr anial mawr canlyned  
 Afon iachawdwriaeth gras;  
 Rho imi hyny, dim i mi ond dy fwynhau.  
 Pan bwy'n myned trwy'r Iorddonen,  
 Angeu creulawn yn ei rym—  
 Ti eist trwyddi gynt dy Hunan,  
 Pam yr ofnaf bellach ddim?  
 Buddugoliaeth, gwna imi waeddi yn y llif.

23.

7. 6.

PECHADUR wyf, o Arglwydd,  
 Sy'n curo wrth dy ddôr;  
 Erioed mae dy drugaredd  
 Ddiddiwedd yn ystôr;  
 Er iti faddeu beiau  
 Rifedi'r tywod mân,  
 Gwn fod dy hen drugaredd  
 Lawn gymmaint ag o'r blaen.  
 Dy hen addewid rasol  
 A gadwodd rif y gwllith  
 O ddynion wedi 'u colli,  
 A gân am dani byth;  
 Er cael eu mynych glwyfo  
 Gan bechod is y nen,  
 Iachêir eu mawrion glwyfau  
 A dail y bywiol Bren.

24.

6. 8. 6.

O DDUW, rho im' dy hedd,  
 A golwg ar dy wedd,  
 A maddeu 'n awr, fy meiau mawr,  
 Cyn'r elwyf lawr i'r bedd:  
 Ond im' gael hyn, nid ofna'r glyn,  
 Na cholyn angeu 'n hwy;  
 Dof yn dy law i'r ochr draw  
 Heb friw na braw, ryw ddydd a ddaw,  
 Uwch law pob loes a chlwy'.

Dy gymhorth, Arglwydd, dod,  
 I rodio er dy glod,  
 A byw trwy ffydd, o ddydd i ddydd,  
 Gan estyn at y nod;  
 Cael treulio 'm hoes i Grist a'i groes,  
 Er pob rhyw loes a chlwy';  
 A byw heb wad, i roi mawrhâd,  
 I gariad rhad, fy Iesu mad,  
 Fydd fy nymuniad mwy.

Gogoniant rhown bob pryd.  
 I'r Tad, a'r Mab un fryd,  
 I'r Yspryd Glân, yn ddiwahân,  
 Rhown fawl ar gân i gyd;  
 I'r Un yn Dri, cydunwn ni,  
 I roddi mawl bob tro;  
 Llefwn un floedd, i gyd ar g'oedd,  
 Megys yr oedd, yn oes oesoedd,  
 Y bydd, boed felly bo.



## Madalig Crist.

COLLECT.—Duw yn rhoddi ei Fab i gymmeryd ein hanian arno; ei eni o Forwyn bur. *Gwaddi*—Gan ein bod wedi ein had-genedlu, a'n gwneyd yn blant i Dduw trwy fabwys a gras, am i ni gael ymadnewyddu trwy yr Ysbryd Glân bob dydd.

### BOREUOL WEDDI.

25.

M. S.

FE roddwyd Mab yn rhad i ni.  
 Ei enw sy'n Rhyfeddol,  
 Ar ysgwydd Hwn llywodraeth gaed,  
 Duw cadarn, Tad tragwyddol.  
 Chwilio ei Berson hardd a'i waith  
 Sydd orchwyl maith anfeidrol;  
 Mae ar y llawr ac yn y ne',  
 A'i enw E'n Rhyfeddol.  
 Yr Hen Ddihenydd yn ddyn gwan  
 Mewn preseb dan ei rwymau;  
 Y Gair tragwyddol ar lin Mair,  
 Heb fedru gair o'i enau.  
 Mae holl ddoethineb Duw yng nghyd  
 Yn cwrddydd yn ei Berson;  
 Nid rhyfedd fod y nefol lu  
 Yn ei ryfeddu'n gysson.

26.

M. C.

DEFFROWCH, drigolion daiar gron,  
 I byncio cân ddiludd;  
 Cyduned dyn â theulu'r nef  
 Roesawi'r dedwydd ddydd.

Dechreuwyd y llesmeiriol fawl  
 Gan dorf ddysgleirwych nen;  
 A thân seraphaidd roes mewn hwyl  
 Delynau fyrdd uwch ben.

Yn gyflym trwy'r eangder mawr  
 Dadseiniai'r llafar lef;  
 Y gân a'r testyn newydd oedd,  
 A mwy na llon'd y nef.

I lawr trwy byrth wybrenau'r Ior  
 Y ffrwd lifeiriol ddaeth,  
 Gan foli Ceidwad newydd dd'od  
 I ddechreu ar ei waith.

Clywch fawl y dorf gerubaidd fry!  
 Gogoniant leinw'r gân;  
 Ewyllys da a hedd i ddyn  
 Cydgana'r dyrfa lân.

27.

8. 7.

DYMA babell y cyfarfod,  
 Dyma gymmod yn y gwaed,  
 Dyma noddfa i lofruddion,  
 Dyma i gleifion Feddyg rhad;  
 Dyma fan yn ymyl Duwdod  
 I bechadur wneyd ei nyth,  
 A chyflawnder pur y nefoedd,  
 Yn siriol wenu arno byth.

Ffordd a drefnwyd cyn bod amser,  
 Gael diangfa o ddrygau'r ddraig;  
 Mewn addewid gynt yn Eden,  
 Fe gyhoeddwyd Had y Wraig;  
 Ffordd i gyfiawnhau'r annuwiol,  
 Ffordd i godi'r marw'n fyw,  
 Ffordd gyfreithlawn i droseddwr  
 I hedd a ffafr gyda Duw.

O ddyfnderoedd iachawdwriaeth,  
 Dirgelwch mawr duwioldeb yw;  
 Duw y duwiau wedi 'mddangos,  
 'Nghnawd a natur dynol ryw:  
 Dyma'r Person a ddyoddefodd  
 Yn ein lle ddigofaint llawn,  
 A chyfiawnder waeddi, "Gollwng  
 Ef yn rhydd, mi gefais iawn."

## PRYDNAWNOL WEDDI.

28.

M. B. D.

BLANT ffyddlon Sion, dewch,  
 A llawenhëwch i gyd,  
 Ym mlaen â chwi, fel milwyr da,  
 Yn llon er gwaetha'r llid;  
 O hyfryd ddedwydd awr!  
 Messiah mawr a gaed:  
 Henffych i'r dydd a'r boreu daeth  
 Yr iachawdwriaeth rad.

Er ini gollir hedd  
 Gynt ym Mharadwys wiw,  
 A bod yn fyr o gadw'r fraint,  
 Myn'd dan ddigofaint Duw;  
 Ni gawsom Had y Wraig  
 Yn gadarn graig i'n traed:  
 Henffych i'r dydd a'r boreu daeth  
 Yr iachawdwriaeth rad.

O blant, y fendith fawr  
 A ddaeth yn awr i ni,  
 Mae genym Ddyddiwr gyda Duw,  
 Yn c'oeiddi'r Iubili:  
 Maes o'r caethiwed du,  
 Rhai gafodd y rhyddhâd:  
 Henffych i'r dydd a'r boreu daeth  
 Yr iachawdwriaeth rad.

29.

M. B.

[30.]

Pe caid y ddaiar gref,  
 A'i meddu yn ei maint,  
 Cael Iesu'n rhan, a'i ddilyn Ef,  
 Sydd fil rhagorach braint.

Pe cawn holl berlau'r llawr,  
 A holl bleserau'r byd,  
 Yng ngwyneb gras fy Iesu mawr  
 Fel us yr aent i gyd.

Pe bawn mewn cystudd trist  
 Yn dyoddef trwy fy oes,  
 Un olwg ffydd ar gariad Crist  
 Felusai bob rhyw loes.

Rho undeb ffydd, O Dduw,  
 Ag Ef, y bywiol Ben;  
 Byw iddo nes myu'd ato i fyw  
 Yn wiw i'r nefoedd wen.

30.

8. 7. 4.

AWN drwy ffydd i Feth'lem Iudah,  
 I gael golwg ar Fab Duw;  
 Wedi 'mddangos mewn naturiaeth  
 A chnawdoliaeth dynol ryw.  
 Heb un pechod yn ei berson purlan ef.

Dyma Geidwad wedi 'i eni,  
 Dyma Brynwr byw i ni;  
 Talodd ef ein holl ddyledion,  
 Ar brydnawn yng Nghalfari.  
 Moliant iddo byth am garu teulu dyn.

Boed i'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd,  
 Un Duw hyfryd diwahân,  
 Mewn gorfoledd bob gwir foliant,  
 A gogoniant fyth ar gân.  
 Haleliwia, unwn glod i'w enw glân.

Y Sul gwedi'r Nadolig.

41

Gwel y Colect am Nadolig.

31.

BOREUOL WEDDI.

8. 7. 3.

**MAWR** oedd Iesu'n nhragwyddoldeb,

Mawr yn gwisgo natur dyn,

Mawr yn marw ar Galfaria

Mawr yn maeddu angeu 'i hun

Hynod fawr yw ef yn awr

Brenin nef a daiar lawr.

Mawr oedd Iesu yn yr arfaeth,

Mawr yn y cyfammod hedd,

Mawr ym Meth'lem a Chalfaria,

Mawr yn d'od i'r lan o'r bedd,

Mawr a fydd ef ryw ddydd,

Pan ddadguddir pethau cudd.

Mawr yw Iesu yn ei Berson,

Mawr fel Duw, a mawr fel dyn;

Mawr ei degwch a'i hawddgarwch,

Gwyn a gwridog, teg ei lun,

Mawr yw ef yn y nef

Ar ei orsedd gadarn gref.

Mawr yw Iesu yn ei swyddau,

Mawr fel Archoffeiriaid glân

Mawr fel Prophwyd, mawr fel Brenin,

Mawr fel Bugail o fy mlaen;

Mawr yw'r gwaith Iesu a wnaeth,

Fe gaiff glod dros oesoedd maith.

32.

M. H.

Mewn bywyd mae gwas'naethu Duw,  
 Dydd gras ac iechydwrïaeth yw;  
 Tra paro'r lamp i losgi ma's  
 Yr adyn gwaethaf all gael gras.

Bywyd yw'r awr a roddes Ef  
 I ochel uffern, ffoi i'r nef;  
 Dydd yw gall pechaduriaid gwael  
 Fendithion i'w heneidiau gael.

Y byw fydd marw, hyn a wŷyr,  
 Y meirw aeth i anghof llwyr;  
 Fe ddarfu eu cof a'u synwyr hwy,  
 Ni 'dwaenant ac ni 'dwaenir mwy.

Am hyny'r hyn fydd yn fy mryd,  
 Bid imi wneyd â'm hegni gyd;  
 Gan nad oes dyfais, gwaith, na'i wedd,  
 Na ffydd na gobaith yn y bedd.

Nid oes pardynau i ryddhau  
 Mewn bedd, lle'r ydym ni'n nesäu;  
 Ond angeu a thywyllwch du  
 Byth yno yn teyrnasu sy.

33.

11AU.

Fe dderfydd y llyisiau sydd aml o ryw,  
 Y blodau arogledd a llonwedd eu lliw;  
 Eu tegwch a wywa, ânt eilwaith i'w lle,  
 Ond pery hawddgarwch Tywysog y ne'.

A glaswellt yw'r bobl, fe dderfydd bob un,  
Y trawsion, a'r cedyrn, a'r tlawd yn gytûn;  
Cyfnewid eu tegwch, salwineb i'w lle,  
Ond byth ni chyfnewid Tywysog y ne'.

Am hyny mi garaf fy Mhriod tr'wy' byw,  
Nas rhedo fy nghalon ar greadur anwiw;  
Mi 'gwelaf yn llanw yr eisieu 'mhob lle,  
A thyma ragoriaeth Tywysog y ne'.

Fe bery yn gywir mewn tristwch a thrai,  
Yn gyfaill pur ffyddlawn pan ballo pob rhai;  
Fe bery yn angeu, fe'm cymmer i dre',  
Mi gara'n dragwyddol Dywysog y ne'.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

34.

8. 7. 4.

Iesu, Iesu, 'r wyt Ti'n ddigon,  
'Rwyf Ti'n llawer mwy na'r byd,  
Mwy trysorau sy'n dy enw  
Na thrysorau'r India i gyd, [Duw.  
Oll yn gyfan, daeth i'm meddiant gyda'm

Y mae gwedd dy wyneb grasol  
Yn rhagori llawer iawn  
Ar bob peth a welodd llygad  
Ar hyd wyneb daiar lawn;  
Rhosyn Saron, Ti yw tegwch nef y nef.



Tarian gadarn yw dy enw,  
 Pan bo'r gelyn yn nesâu,  
 Angeu'i hunan sydd yn ofni,  
 Angeu sydd yn llwfrhau;  
 Ti orchfygaist, 'does ond canu'n awr i mi.

35.

8. 7.

COFLA, f' enaid, cyn it' dreulio  
 D' oriau gwerthfawr yn y byd,  
 Cyn ehedeg ffwrdd oddi yma,  
 Pa un a ge'st y trysor drud;  
 Ym mha ardal bydd dy letty,  
 Fath bryd hyny fydd dy wedd,  
 P'un ai llawen ai cystuddiol  
 Fyddi y tu draw i'r bedd?

Pan bo'r llygaid yma'n t'wyllu,  
 Yn eu pyllau'n llechu lawr,  
 Troi oddi amgylch wrth ymdrechú  
 A galluoedd angeu mawr;  
 P'odd dyoddefaf y fath gystudd—  
 Pwy adfera'r colled hyn—  
 Oni chaf guddio 'mhen yng nghlwyfau  
 'R Oen fu ar Galfaria fryn?

Iesu hawddgar, 'rwy'n dy ddewis;  
 Nerth i ddilyn ol dy droed!  
 Yna caiff fy enaid 'hedeg  
 I'r hapusrwydd uwch y rhod:

Tra fo'm pridd yn myn'd i ymgymmysg  
 A'r hyn wnaethpwyd ef ryw bryd,  
 Llewyrch wyneb Duw ddysgleira  
 Ranau f' enaid oll i gyd.

36.

M. S.

PAN yr ystyriwyf, O Dduw cu,  
 Dy drugareddau tirion,  
 Rhyfeddod, mawl, a chariad sy  
 Yn llwyr orchfygu 'nghalon.

Rhoddion heb rif a ddarfu'm gael  
 Trwy d'ofal tadol tyner,  
 Cyn gwybod o ba ffynnon hael  
 Y tarddai'r cyfryw fwynder.

Am dy ddaioni mawr bob pryd,  
 Tru paro f'einioes soniaf;  
 A chwedi'n, mewn rhagorach byd,  
 Ag awen newydd canaf.

Pan saif rhod natur, pan na bo  
 Na nos, na dydd, na blwyddyn,  
 Cadwaf dy gariad byth mewn co';  
 I'm diolch ni bydd terfyn.

Dy foli, Arglwydd, fydd fy ngwaith,  
 Trwy fy holl oes anfarwol;  
 Ond O! i ganu'th glodydd maith  
 Rhy fer yw oes dragwyddol.

## Dydd Enwaediad Crist.

### BOREUOL WEDDI.

37.

M. B.

Dros flwyddyn eto'n awr,  
 Trwy nodded Un yn Dri,  
 Diangol ŷm, a chododd gwawr  
 Un newydd arnom ni.

Er hir ddiffrwytho tir  
 Y Pen Gwinllanydd mawr,  
 A bloedd cyfiawnder uwch ein pen  
 I dori'r pren i lawr;

Hyd yma llwyddo wnaeth  
 Ei ddwys eiriolaeth Ef,  
 Uwch gwaedd pechodau o bob rhyw,  
 Er uched yw eu llef.

Gogoniant fo i'r Tad,  
 I'r Mab, a'r Ysbryd Glân;  
 Fel gynt y bu, y mae, a bod  
 Yn hanfod diwahân.

38.

8. 7. 4.

WRTH fy nghuro gan y gwyntoedd,  
 Wrth fy maeddu gan y don,  
 Wrth fy nryllio yn erbyn creigydd,  
 Bliniais ar y ddaiar hon; [lân.  
 O! am ddyddiau, pan ddarfyddo pechu'n

Yn y boreu 'rwyf yn meddwl,  
 Cadwa'i'r Hwyl hyd brydnawn;  
 Eto'n gwyr'n ddiarwybod,  
 'Rwyf oddi arno'n fuan iawn:  
 Camsyniadau fwyaf sydd yn llanw f' oes.  
 O! ddedwyddwch anghymharol,  
 Dysgwyl ydwyf foreu a nawn,  
 I gael profi'm calon ffiaidd,  
 O rasmusau'r nef yn llawn: [na'r gwin.  
 Tyred, Arglwydd, mae dy gwm'ni'n well

39.

M. H.

WRTH orsedd bur Iehofah mawr,  
 Chwi bobloedd oll, ymgrymwech lawr;  
 Cyffeswch ef yn Dduw erio'd,  
 Fe ddichon ladd a rhoddi bod.  
 Trwy ddwyfol nerth heb gymhorth un,  
 Gwnaeth ni o'r pridd yn hardd ein llun;  
 Pan gwyr'som oll o'i ddeddfau gwir,  
 Fe'n trodd ni'n ol i'w gorlan bur.  
 I'th byrth yr awn â diolch glân,  
 Cyfuwch a'r nef dyrchafwn gân;  
 A myrdd o bob rhyw iaith yn bod  
 A leinw'th byrth â llafar glod.  
 Dy deyrnas, Ior! sydd led na'r byd;  
 Anfeidrol ddawn yw d' heddwch drud;  
 Fe saif dy air fel craig uwch nen,  
 'Nol treulio'r byd ei oes i ben.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

40.

M. H.

Hyd yma darfu Duw ein dwyn,  
 Bendigaid fyddo'i enw mwyn;  
 'R un yw ei allu ar bob pryd,  
 A'i gariad sydd yr un o hyd.  
 Arwyddion tyner iawn y sydd  
 O'i ofal tadol Ef bob dydd;  
 Trwy'r flwyddyn rhydd y rhai'n heb ri',  
 O'i dechreu hyd ei diwedd hi.  
 Trwy holl beryglon bywyd brau,  
 Ei gadarn law a'n cadwai'n glau:  
 Ni phalla nodded Brenin nef;—  
 Rhown iddo fawl ag uchel lef.  
 Ar fin y ddofn Iorddonen ddu,  
 Ein calon a gyfoda'n hy;  
 Gwir foliant gaiff ddiweddi'n taith;  
 Molwn i dragwyddoldeb maith.

41.

IIAU.

Yr afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr  
 Yw gwraidd fy ngorfoledd a'm oysur i'n nawr  
 Calfaria roes haeddiant, Calfaria roes hedd,  
 Calfaria sy'n cadw agoriad y bedd.  
 Mae Angeu ei hunan, ei ofnau a'i loes, [groes;  
 Mewn cadwyn gadarnaf yn rhwym wrth dy  
 Allweddau hen uffern ddychrynllud i gyd  
 Sy'n hongian wrth ystlys Iachawdwr y byd.

'Doedd dim all'sai ostegu pob,terfysg a loes,  
 Cydwybod a'i dychryn, ond angeu dy groes;  
 Can miloedd o ofnau oedd yno'i yn gytân,  
 Nes clywed fod Crëwr y ddaiar yn ddyn.

Wel bellach gad imi roi ffarwel i'r byd,  
 Ffarwel i'w drysorau a'i bleser yng nghyd;  
 Un gorchwyl sydd genyf fyth mwyach i gyd,  
 Sef caru a chanu i Iachawdwr y byd.

Fy mywyd boed bellach yn fywyd o ffydd,  
 Dy orchmynion i'm henaid yn bleser bob  
 dydd; [byw,  
 Na boed genyf bleser byth bellach tr'wy'  
 Ond rhodio ar y ddaiar i foddio fy Nuw.

42.

8. 7.

MÆ'R anialwch wedi'm blino,  
 Chwant sydd arnaf wel'd y tir  
 Rhoddwyd imi gan fy Arglwydd,  
 Cadarn mewn addewid wir;  
 Gwlad o oleuni heb dywyllwch,  
 Gwlad o gariad heb ddim trai,  
 Gwlad heb hawddfyd na phleserau  
 Ond yn unig ei fwynhau.

P'odd yr af fi trwy'r Iorddonen,  
 Oui ddeui Di dy Hun  
 Yno i dori grym y tdnau,  
 Ac i sefyll wrth fy nghlun?

Dal fy mhen i'r lan yn gadarn,  
 Pan fo'r Angeu'u fawr ei rym,  
 Pleidia yn eon yn ei wyneb,  
 Pan na b'wyf yn gallu dim.

N'ad i bechod fy nghoncwero,  
 Tra b'wyf ar y ddai'r yn byw,  
 N'ad e'm rhwystro i gymdeithasu  
 Yn fynych mynych â fy Nuw;  
 N'ad ei fod yn awr marwolaeth  
 Megys mynydd mawr o blwm,  
 Pan b'wyf am ddiengu fyny,  
 I fy ngwasgu lawr yn drwm.

Yr Ystwyll.

43.

BOREUOL WEDDI.

M. C.

Y DOETHION welsant seren hardd,  
 Yn lloni'r Dwyrain dir;  
 At seren Iacob tywys oedd,  
 A Haul Cyfiawnder pur.

'R Hwu ddysgodd seren b'le i fyn'd  
 A'u dysgodd hwy 'r un wedd,  
 I'w dilyn bellach, bant a bryn,  
 Nes cael Tywysog Hedd.

Y doeth a'r annoeth, nef a llawr,  
 I Fethle'm brysio maent;  
 Telynu'r ddeufyd roi'r mewn hwyl  
 I foli am y fraint.

Ni bu'r fath gwrdd erioed o'r blaen,  
 'R eithafoedd pella 'nghyd;  
 Cadd preseb Bethle'm fwy o fri  
 Na llysoedd pena'r byd.

44.

8. 7. 4.

WELE ganwyd y Messiah,  
 Daeth yn wir yr hyfryd ddydd;  
 Awn i Fethle'm gyda'r doethion,  
 I'w ganfod Ef â golwg ffydd;  
 Cydaddolwn, wele Duw yn natur dyn.

Wele'r enw mawr Rhyfeddol,  
 Wele'r Ior, tragwyddol yw;  
 Clywch angylion yn clodfori  
 Duw yn Ddyn, a dyn yn Dduw:  
 T'wysog Heddwch, yn y preseb gwelwyd ef.

Testyn cân yr holl brophwydi,  
 Seren Iacob, Had y Wraig,  
 Silo Iudah, Gwreiddyn Iesse,  
 Yr Hwn a siga ben y ddraig:  
 Iechydwrïaeth i drueiniaid drwyddo ddaeth.

Holl blant Sion, gorfoleddwch,  
 A chydgenwch newydd gân,  
 Canys ganwyd i chwi Geidwad,  
 Yr hwn a gaed trwy'r Ysbryd Glân:  
 Cenwch iddo, nes dadseinio'r nefoedd faith.



45.

IIAU.

FE welir rhyw ddyddiau, fy Arglwydd a'i  
gŵyr,

Pan darddo goleuni yng nghysgod yr hwyr,  
Pan ddelo'r gorllewin, y dwyrain, a'r de',  
A'r gogledd i brofi cafodydd y ne'.

Fe basia'r gwlawogydd a'r oerfel yng nghyd,  
Daw adar i ganu trwy gonglau'r holl fyd,  
Gwinllanoedd a'r bryniau a ffrwythydd ryw  
'stôr,

A blodau ar unwaith o foroedd i fôr.

Fe gwymp yr addewid ar ddinas a gwlad;  
Addewid ffyddlonaf, addewid y Tad;  
Tywelltir yr Ysbryd fel moroedd didrai,  
Ar lwythau hen Iacob yn fwy ac yn llai.

O ddyddiau dedwyddaf, prysurwch ym mla'n  
Mae'r arfaeth yn galw, mae pechod yn dân,  
Mae pobpeth yn addfed, mae gweddi mewn  
grym;

O tyred; ddeheuwynt, yn attal 'does dim.

PRYDNAWNOL WEDDI.

46.

M. H.

HENFFYCH i enw Iesu gwiw,  
Syrthied o'i flaen angylion Duw;  
Rhowch iddo'r parch, holl deulu'r nef:  
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,  
 Plygwch yn isel wrth ei draed;  
 Fe'ch tynodd â thrugaredd gref:  
 Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

Boed i bob llwyth a phob ryw iaith,  
 Trwy holl derfynau'r ddaiar faith,  
 Gydganu'n llafar iawn eu llef:  
 Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

Er bod eu beiau'n aml iawn,  
 Mae ganddo iachawdwriaeth lawn;  
 Eu cânu'n wyn wna Brenin nef:  
 Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

47.

M. C.

[29.]

Ti, Iesu, ydwyt oll dy Hun  
 Fy meddiant ar y llawr,  
 A Thi dy Hunan fydd fy oll  
 O fewn i'r nefoedd fawr.

Mae 'nymuniadau maith eu hyd  
 Yn pwyntio oll yn un,  
 Dros bob gwrthddrychau is y ser,  
 Ac atat Ti dy Hun.

O Ffynnon trugareddau maith!  
 Diderfyn yw dy ras,  
 I roi trysorau pena'r nef  
 I'r tlotaf un i maes.

Fy nghysur unig tan bob gwae,  
 Dy fod Di imi'n Dduw;  
 Ac yn dy gysgod mi af trwy  
 Gystuddiau o bob rhyw.

Ac yuot mi ymffrostia'n hy  
 'Mod i'n gyfoethog iawn;  
 Am fod trysorau maith fy nghras,  
 Fel Ti, 'n adfeidrol lawn.

48.

M. C. D.

AED swN Efengyl bur ar led  
 Trwy barthau'r byd o'r bron,  
 Boed llwyddiant trwy deyrnasoedd Cred  
 Lle mae pregethiad hon;  
 Fel delo miloedd eto i maes  
 O'r t'wyllwch cas yn fyw,  
 Trwy'r India draw ac Asia fras,  
 I ganmol gras ein Duw.

Aed sain yr udgorn arian mawr  
 Ym mlaen trwy'r anial dir;  
 Fel delo'r werin gyda'r wawr  
 I 'mofyn am y gwir;  
 Helaetha'th babell 'r ochr hyn,  
 Estyn gortynau i maes,  
 O oes i oes tra paro'r byd,  
 Bydd canmol golud gras.

# Sul Cynaf gwedi'r Ystwyll. 55

COLLECT.—*Gweddî*—Am wrandawriad o'n Gweddïau—Am gael deall ein dyledswyddau crefyddol—Am ras a fyddlondeb i gyflawnu ein dyledswyddau.

## BOREUOL WEDDI.

49.

M. S.

[31.]

ERGLYW, O Dduw, fy llefain i,  
Ac ar fy ngweddi gwrando;  
Rhof lef o eitha'r ddaiar gron,  
A'm calon yn llesmeirio.  
Dwg fi i dalgraig uwch na mi,  
Ac iddi bydd i'm derbyn;  
Can's Craig o obaith, Tŵr difost,  
Im' fuost rhag y gelyn.  
O fewn dy babell y bydd byth  
Fy nhrigfan ddilyth, ddedwydd;  
A'm holl ymddiried a fyn fod  
Dan gysgod dy adenydd.

50.

M. C.

[32.]

AT Un a wrendy weddi'r gwan,  
'Rwyf yn dyrchafu 'nghri;  
Ym mhob cyfyngder, ing, a phoen,  
O Dduw, na wrthod fi.  
Er mwyn dy grog a'th angeu drud  
Ar fynydd Calfari,  
A'th ddwys eiriolaeth yn y nef,  
O Dduw, na wrthod fi.

Pan yn wynebu ymchwydd yr  
Iorddonen ddofn ei lli,  
A theithio'n unig trwy y glyn,  
O Dduw, na wrthod fi.

51.

M. H.

[33.]

O CLYW fy ngwaedd, a gwel fy ngwedd,  
Fel hydd am ddwr, 'rwy'n brefu am hedd;  
'Tyr'd, O fy Nuw, cwyd fi uwch nen,  
I'th lwyr fwynhau o fewn i'r llen.  
Gwel fi yn llesg, a gwrando'n llef;  
Mi wnes im' nyth wrth borth dy nef,  
Lle 'rosaf byth, tra byddwyf byw,  
Nes cael rhoi naid i gol fy Nuw.  
'Does dim wna les is nefol len,  
Nes teimlwy' mhwys ar Grist fy Mhen;  
Mae 'nghalon fach yn awr yn friw,  
Trwy ddysgwyl wrth fy anwyl Dduw.  
Pa bryd y gwela'i 'r ddedwydd awr  
I'm beiau'n llu gael myn'd i'r llawr?  
Yn bur heb len gael gwel'd fy Nghrist,  
A myned trwy f'holl ofid trist.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

52.

8. 8. 8. 6.

[35.]

EIN noddfa gadarn fythol yw  
Y gair a ddaeth o eneu'n Duw,  
Fe dd'wedodd y cawn ninnau fyw,  
Anfeidrol yw ei ras:

Ni welwn ol ei siriol saint,  
 Dan y cystuddiau mwya'u maint,  
 Yn cadw 'u cysur, cadw 'u braint,  
 Yng ngwyneb angeu glas.

O addfwyn Iesu, gad in' fod  
 O fewn dy gorlan dan dy nod,  
 A threulio'n bywyd er dy glod,  
 Yn gyflawn o dy hedd;  
 Yng nghanol terfysg a phob gwae,  
 Croes a chystuddiau'n amlhau,  
 Gan fyn'd ym mlaen dan lawenhau,  
 Nes gorwedd yn y bedd.

53.

M. C. D.

FE welir Sion fel y wawr,  
 Er gwaeled yw ei gwedd,  
 Yn d'od i'r lan o'r cystudd mawr,  
 'Nol agor pyrth y bedd;  
 Heb glaf na chlwyfus yn eu plith  
 Yn ddysglaer fel yr haul,  
 Yn y cyfiawnder dwyfol byth  
 A gaed trwy Adda'r Ail.

54.

8. 7. 4.

[34.]

Duw, nid oes ond Ti dy Hunan  
 Ddaw â'm henaid llesg i'r lan,  
 Sydd yn suddo mewn dyfnderoedd  
 Dyfnion tywyll ym mhob man;  
 Gwna i mi gredu, credu a cherdded ar y môr.

Draed lluddedig, dewch i fyny;  
 Ymestynwch, ddwylaw 'mlaen;  
 Draw mae'r wobr, draw mae'r goron,  
 Draw mae 'Mhriod hawddgar glân;  
 Ffarwel bellach, 'chofia' i ddim ond pen y daith.

Mae dy Ysbryd Di yn fywyd,  
 Mae dy Ysbryd Di yn dân,  
 Fe sy'n dwyn yr holl fforddion,  
 Cywir, sanctaidd, pur ym mlaen;  
 Cyfarwyddwr pererinion, arwain fi.

55.

8. 7.

[36.]

CYFARWYDDA'm henaidd, Arglwydd,  
 Pan b'wy'n teithio 'mlaen ar hyd  
 Llwybrau culion dyrys anhawdd  
 Sydd i'w cerdded yn y byd;  
 Cnawd ac ysbryd yn rhyfela,  
 Weithiau cariad, weithiau cas;  
 Ton ar don sydd yn gorchuddio  
 Egwyddorion nefol ras.

Cul yw'r llwybr imi gerdded,  
 Is fy llaw mae dyfnder mawr,  
 Ac mae ofnau yn fy nghalon  
 Rhag i'm troed i lithro i lawr:  
 Yn dy law y gallaf sefyll,  
 Yn dy law y dof i'r lan,  
 Yn dy law byth ni ddiffygiaf,  
 Er nad ydwyf fi ond gwan.

Wrth dy orsedd 'rwyf yn cwympo,  
 Annheilyngaf ddyn erioed,  
 Mewn anwiredd y'm cenedlwyd,  
 Mewn anwiredd mynaf fod;  
 Darfu'm nerth, a darfu'm goleu,  
 Darfu'm haeddiant yn gytân,  
 Mae'm hapusrwydd oll yn gorphwys  
 Ar a wisgodd natur dyn.

Yr Ail Sul gwedi'r Ystwyll.

COLLECT.—Eangder llywodraeth Duw. *Gweddî*—Am dang-  
 nefedd Duw holl ddyddiau ein bywyd.

BOREUOL WEDDI.

56.

M. H.

[37.]

I'r Arglwydd cenwch lafar glod,  
 A gwnewch ufudd-dod llawen fryd;  
 Dewch o flaen Duw a pheraidd dôn,  
 Drigolion daiar faith i gyd.

Gwybyddwch mai Efe sy Dduw,  
 A'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod;  
 Nid ni'n hunain; ei bobl ym ni,  
 A defaid rhi ei borfa a'i nod.

O ewch i'w byrth â diolch clau;  
 Yn ei gynteddau molwch Ef;  
 Bendithiwch enw Duw hynod;  
 Rhowch iddo glod trwy lafar lef.



Can's da yw'r Arglwydd, Awdwr hedd;  
 Da ei drugaredd a dilyth;  
 A'i wirionedd i ni a roes  
 O oes i oes a bery byth.

57. 6. 8. neu 6. 6. 4. 4. [38.]

DRIGFANAU dedwydd fry,  
 Molwch eich Crëwr mawr;  
 Ei waith mewn clodydd cu,  
 Fo'ch cân goruwch y llawr:  
 A llafar lef, chwi fydoedd fry  
 A'r nefol lu, moliennwch Ef.  
 Yr haul, a'r lloer, a'r ser,  
 Dadgenwch byth ei glod:  
 Mawrygwch waith eich Ner,  
 Bawb oll sydd is y rhod:  
 Uchafion nen a'r ddaiar faith,  
 Mawrygwch waith eich bywiol Ben.  
 Dadganed pobpeth byw,  
 A greodd Duw erio'd;  
 Angylion o bob rhyw,  
 Cydganed pawb ei glod;  
 Ei fawl dilyth a'i fawredd Ef  
 Trwy'r ddai'r a'r nef a bery byth.

58. M. C. [39.]

Ŵ'n llon'd y nefoedd, llon'd y byd,  
 lon'd uffern hefyd yw;

Llon'd tragwyddoldeb maith ei hun,  
Diderfyn ydyw Duw.

Mae'n llon'd y gwagle yn ddigoll,  
Ei air a'i allu'n un;  
Anfeidrol, Annherfynol Fod,  
A'i hanfod ynddo'i Hun.

Hunanfodol ydeodd Ef  
Cyn llunio nef na llawr,  
Yn nhragwyddoldeb pell yn ol  
Yn Dduw anfeidrol fawr.

Anfesuredig yw ei ras,  
Un addas yw i ni;  
Ni welsom ac a glywsom son  
Am droion Un yn Dri.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

59.

8. 7. 4.

[40.]

Er dy fod yn uchder nefoedd,  
Uwch cyrhaeddyd meddwl dyn,  
Eto mae'th greaduriaid lleiaf  
Yn dy olwg bob yr un;  
Nid oes meddwl, ond yw'n oleu o dy flaen.

Ti yw 'Nhad, a Thi yw 'Mhriod,  
Ti yw'm Harglwydd, Ti yw'm Duw;  
F'unig dŵr, a'm hunig noddfa,  
Neu i farw, neu i fyw;  
Cymmer f'enaid tan dy aden tua'r nef.

Tro 'ngel ynion yn eu gwrthol,  
 A phalmenta'r ffordd i'r wlad,  
 Tra b'wy'n yfed addewidion  
 Pur yr iachawdwriaeth rad;  
 Fel y gallwyf o fy nghystudd ymgryfhau.

Minnau ymddigrifaf ynot,  
 A chanmolaf byth dy ras,  
 Tra bo'r anadl pur yn para,  
 Ynte wedi'r el i maes; [nghân  
 Tragwyddoldeb ni chaiff ddiwedd ar fy

60.

8. 7.

[42.]

MANNA nefol sy arnaf eisieu,  
 Dwr rhedegog gloew byw,  
 Sydd yn tarddu o tan riniog  
 Teml sanctaidd bur fy Nuw;  
 Golchi'r aflan, cânu'r Ethiop,  
 Gwneyd yr euog brwnt yn lân,  
 Ti gai'r clod ryw fyrdd o oesoedd,  
 'Nol i'r ddaiar fyn'd yn dân.

Y mae nefoedd yn ei gwm'ni;  
 Y mae bywyd yn ei wedd,  
 Ag sy'n gwneuthur angeu'n gyfail,  
 Ag sy'n peri concro'r bedd.  
 Rho'th gyfeillach, Iesu addfwyn,  
 Dyna wy'n ei geisio i gyd;  
 Ac mi fyddaf foddllawn ddididig  
 I oll a gwrddwyf yn y byd.

Y mae meddwl am ei haeddiant,  
 Meddwl am ei gariad pur,  
 Fel rhyw ffynnon o lawenydd,  
 Llawn o ddyfroedd gloew clir;  
 Fe ei Hunan yw'm gogoniant,  
 Fe yw'm hymffrost a fy ngrym,  
 Enw pawb o dan yr wybren  
 Ond ei Hunan elo'n ddim.

61.

M. C.

[41.]

Ac er bod draw afonydd mawr,  
 Holl ofnau angeu loes,  
 Af trwyddynt, er eu grym a'u maint,  
 Tan gysgod gwaed y groes.

Mi glywaf lais merthyron lu  
 A seintiau yn y blaen,  
 'Nawr wedi cyrhaedd pen y daith,  
 Er gwaethaf dwr a than.

Edrychaf ar y croesbren trwm  
 Fu ar ei ysgwydd Ef,  
 A'r goron ddrain fu ar ei ben,  
 Pan brynodd imi'r nef.

Mae'n eiriol heddyw o flaen y fainc,  
 Yn cofio'i boen a'i wa'd;  
 Ac wedi gwneyd tragwyddol hedd  
 'Nawr rhyngof fi a'm Tad.

64 *Crydydd Sul gwedi'r Pstnyll.*

COLLECT.—*Gweddi*—Am drugarhau wrth ein gwendid,—  
Am ein cymhorth a'n hamddiffyn yn ein holl beryglon.

BOREUOL WEDDI.

62. M. C. [44.]

WEL dyma'r eiddil, dyma'r gwan,  
Yn griddfan wrth dy draed;  
Tu hwnt pob gobaith i gael byw,  
Ond trwy dy Ddwylol waed.

Rhifedi 'meiau sydd dros ben  
Pob haeddiant oll o ddyn;  
Ac nid oes geny'n noddfa im'  
Ond haeddiant Duw ei Hun.

Mor anobeithiol yw fy mriw,  
'Da'i 'mofyn meddyg mwy,  
Ond ato'i Hunan, ar y pren  
Ddyoddefodd farwol glwy'.

Am iddo yno grymu'i ben,  
A marw ar y groes,  
Mwy na rhifedi beiau'r byd  
Yw haeddiant Dwyfol loes.

63. 6. 4. [43.]

Gwnes addunedau fil,  
I gadw'r llwybr cul, ond methu 'rwy';  
Preswilydd mawr y berth,  
Chwanego eto'm nerth,  
I ddringo'r creigiau serth, heb flino mwy.

Mae pechod o bob gradd  
 Yn fawr am gael fy lladd, a minnau'n wan;  
 O estyn fraich i maes,  
 Dangos d'effeithiol ras,  
 O'r tiroedd anial cras, dwg fi i'r lan.

Ond atat mae fy nghri,  
 'Does unig ond Tydi all fy nglanhau;  
 Mwy haeddiant sy'n dy waed  
 Na'r pechod mwyaf gaed,  
 A chryfach cariad\_rhad na grym fy mai.

64.

2. 8.

[45.]

Fy sail, a'm nerth, a'm noddfa dan yr haul,  
 A'm cysur mwy, fydd Adda'r Ail;  
 Rhof f'adaail arno; dyma'r graig,  
 A grym fy enaid i barhau,  
 Er llid a gallu drygau'r ddraig.

Pwy ddaw yn angeu i 'maflyd yn fy llaw?  
 Pan ddelo dychryn brenin braw,  
 I'm danfon draw i'm cartref hir,  
 Nid oes a saif yn graig a thŵr,  
 Yng ngrym y dwr ond Iesu'n wir.

Efe fu rhwng y lladron yn fy lle,  
 Tan hoelion rhwng y ddai'r a'r ne',  
 A'r bicell gref yn gwanu'i fron,  
 A ddeil fy enaid yn y lli,  
 Rhag suddo'n angeu du a'i don.

65.

M. B.

O FEWN yr anial dir  
 Bydd galar dros brydnawn;  
 Ond boreu braf a ddaw'n ei bryd,  
 Mae'n gwawrio'n hyfryd iawn.  
 'Dyw'r adeg ddim ym mhell,  
 Cawn wlad sydd well i fyw;  
 Y mae gorphwysfa eto'n ol  
 I ddedwydd bobl Dduw.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

66.

7. 6.

[47.]

AM Graig i adeiladu,  
 Fy enaid, chwilia'n ddwys,  
 Y Sylfaen fawr safadwy,  
 I roddi arni'th bwys;  
 Bydd melus yu yr afon  
 Gael Craig a'm deil i'r lan,  
 Pan fyddo pob ystormydd  
 Yn curo f'enaid gwan.  
 A gaiff y fath bechadur,  
 Sydd ffaidd, aflan, noeth,  
 O flaen dy orsedd sefyll,  
 Pan elo'r byd yn boeth?  
 Pryd hyn caf eglur wybod  
 Beth yw cyfammod rhad,  
 A chanu i'm Hanwylyd,  
 Yn hyfryd dy fy Nhad.

Am Graig yr iachawdwriaeth,  
 Fy enaid egwan; cân;  
 Y Sylfaen fawr dragwyddol,  
 A'r hyfryd Gonglfaen:  
 Fy noddfa rhag ystormydd,  
 Fy nghysgod rhag y gwres;  
 Mae'n ganmil mwy rhagorol  
 Na chedyrn furiau pres.

67.

8. 7. 3.

[48.]

Aros, Iesu, yn y rhyfel,  
 F'enaid yn lluddedig sydd;  
 Ti bia d'rysu fy ngelynion,  
 Ti bia'r enw, Ti bia'r dydd:  
 Yn dy ddawn unig cawn  
 Fuddugoliaeth werthfawr iawn.  
 Minnau gerddaf trwy'r byddinoedd,  
 Ond it' gerdded o fy mlaen;  
 Mae dy gamrau'n tori tônau,  
 Mae dy gamrau'n diffodd tân:  
 'N ol dy droed, gwna i mi ddod  
 Fy hyfrydwch mwya' erioed.  
 Da i mi fod yr addewid  
 Wedi rhoddi gan fy Nuw,  
 A bod gair o eneu'r Brenin  
 Uwch gelynion o bob rhyw;  
 Ei 'dlewid Ef, gadarn gref,  
 Arwain eiddil gwan i'r nef.



68.

M. H.

[46.]

O IESU mawr, y meddyg gwell,  
Gobaith yr holl ynnysoedd pell,  
Dysg imi seinio 'maes dy glod,  
Mai digyfnewid wyt erioed.

O hoelia'm meddwl, ddydd a nos  
Crwydredig, wrth dy nefol groes,  
A phlana'm hysbryd yn y tir  
Sy'n llifo o lawenydd pur.

Fel bo fy nwydau drwg yn lân  
Yn cael eu difa â'r nefol dân;  
A chariad yn melusu'r groes,  
Trwy olwg ar dy farwol loes.

Fe gaiff dy enw anwyl glod,  
Pan ddarfo i'r ddai'r a'r nefoedd fod,  
Am achub un mor wael ei lun,  
Na all'sai ei achub ond dy hun.

### Y Pedwerydd Sul gwedi'r Ystwyll.

COLLECT.—Amledd ein peryglon, a'n hanallu i yngynnal danynt. *Gweddî*—Am y fath nerth, ym mhob perygl, ag a'n harweinio trwy bob profedigaeth.

### BOREUOL WEDDI.

69.

M. S.

[49.]

B'LE trof fy wyneb, Arglwydd eu,  
Ond atat Ti dy Hunan;  
Pob peth gweledig 'thâl ef ddim,  
Ond gwneuthur imi riddfan.

Os yw 'nghofidiau yn y byd  
 I bara hyd y diwedd,  
 O fewn y nef fe dderfydd hyn  
 Troi'r tristwch yn orfoledd.

Po mwyaf gawn o wres y dydd,  
 Mwy yno fydd ein moliant;  
 Cawn, yn lle'n cystudd byr a'n crwys,  
 Dragwyddol bwys gogoniant.

Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron  
 Holl chwerwon ddyfroedd Marah;  
 Pryd hyn y try pob chwerw nant  
 Yn win i blant Iehofah.

70.

6. 8.

[50.]

Fy Iesu yw fy Nuw,  
 Fy noddfa gadarn gref,  
 Ni fedd fy enaid gwan,  
 Ddim arall dan y nef;  
 Mae Ef ei Hun a'i angeu drud,  
 Yn fwy na'r nef, yn fwy na'r byd.

O ffynnon fawr ei rhin,  
 O ddwyfol win a llaeth,  
 Sydd yn ei haeddiant Ef,  
 'Does yn y nef o'i math;  
 Dewch bawb yng nghyd, gwelwch y fraint  
 A gadd y lleiaf un o'r saint.

Ni chollwyd gwaed y groes  
 Erioed am ddim i'r llawr,  
 Ni oddefwyd angeu loes  
 Heb ryw ddybenion mawr;  
 A thyna oedd ei amcan Ef,  
 I'm dwyn o'r byd i deyrnas nef.

71.

M. B. D.

[51.]

WEL, f'enaïd, dos ym mlaen  
 'Dyw'r bryniau sydd ger llaw,  
 Un gronyn uwch, un gronyn mwy,  
 Na hwy a gwrddaist draw;  
 Dy anghrediniaeth gaeth,  
 A'th ofnau maith eu rhi',  
 Sy'n peri it' feddwl rhwystrau ddaw  
 Yn fwy na rhwystrau fu.

'R un nerth sydd yn fy Nuw,  
 A'r un yw geiriau'r nef;  
 'R un gras a'r un ffyddlondeb sy  
 'N gartrefu ynddo Ef:  
 Fy ngwendid o bob math,  
 A'm llygredigaeth cry',  
 'Ddiffoddant, er eu natur gas,  
 Hyd fyth mo'r gras sy fry.

Mi welaf fyrdd dan sel  
 Fu'n ofni fel fy hun,  
 'Nawr wedi dringo'r creigydd serth  
 I gyd, trwy nerth yr Un;

Yn canu'r ochr draw,  
 Heb arnynt fraw na phoen,  
 Ganiadau hyfryd Calfari,  
 Dyoddefaint addfwyn Oen.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

72.

8. 7. 4.

[58.]

O SANOTEIDDIA f'enaïd, Arglwydd,  
 Ym mhob nwyd ac ym mhob dawn;  
 Rho egwyddor bur y nefoedd,  
 Yn fy ysbryd llesg yn llawn;  
 N'ad fi grwydro, draw nac yma, o fy lle.  
 Llwybr cul gwna'n llwybr esmwyth,  
 Tylau serth yn wastad iawn,  
 Cyfyngderau chwith, a chroesau,  
 O ddyddanwch pur yn llawn,  
 Edrych trwyddynt, i fynyddau ty fy Nhad.  
 Plana'r egwyddorion hyny,  
 Yn fy enaid bob yr un,  
 Ag sydd megys peraroglau  
 Yn dy natur Di dy Hun;  
 Blodau hyfryd, fo'n dysgleirio dai'r a ne'.  
 Fel na chaffo'r pechod adgas,  
 Mwg a tharth y pydew mawr,  
 I fy nallu ar y llwybr,  
 Na fy nhaslu fyth i lawr;  
 Gwna im' gerdded, union ffordd wrth oleu  
 dydd.

73.

M. H.

FFORDD newydd wnawd gan Iesu Grist,  
 I basio heibio i ufferu drist,  
 Wedi ei phalmantu ganddo ef,  
 O ganol byd i ganol nef.

Agorodd ef yn lled y pen  
 Hollaraidd byrth y nefoedd wen,  
 Roi rhydd-did i'w gariadau ef,  
 I mewn i holl drigfanau'r nef.

Gwnawd llwybr rhydd, 'does rwystr mwy,  
 Na's gall credadyn dori trwy;  
 Gelyuion hyll ro'w'd dan ein traed  
 Ac angyu'n ffrynd trwy rin y gwaed.

Os tdnau gawn, a 'stormydd chwyth,  
 Mae Duw o'n tu, ni foddwn byth;  
 Credwn yn gryf down maes o law,  
 Yn iach i'r lan yr ochr draw.

74.

8. 7.

[54.]

Mi edrychaf ar i fywy,  
 Deued t'wyllwch, deued nos;  
 Os daw heddwch im' o un-lle,  
 Fe ddaw oddi wrth waed y groes;  
 Dyna'r fan y gwna i fy nhrigfan,  
 Dyna'r fan gobeithia i mwy;  
 Nid oes iechyd fyth i'm henaid,  
 Ond mewn Dwyfol farwol glwy'.

Gobaith f'enaïd yw ei haeddiant,  
 Gobaith f'enaïd yw ei rym;  
 Tlawd, a llesg, a gwan, ac ynfyd,  
 Ydwyf fi, heb feddu dim:  
 Trwodd draw yr wyf yn edrych,  
 Dros y bryniau mawrion pell,  
 Ac yn dysgwyl fy ngorphwysdra,  
 O gyfiawnder llawer gwell.

Nid oes ffynnon wedi 'i hagog,  
 Ag all olchi'r euog hyn,  
 Ond y ffynnon a agorodd  
 Cariad, ar Galfaria fryn:  
 Gwaed all dalu'n llwyr am feiau,  
 Gwaed all agor porth y nef;  
 Ac nid oes foddlonar' nefoedd,  
 Ond ei haeddiant Dwyfol Ef.

### Y Ffynnon a'r Gwedi'r Ystwyll.

COLLECT.—*Gwedi*—Ar i Dduw gadw ei Eglwys yn y wir grefydd—Ac am i'r bobl sydd yn gobeithio yn unig trwy ras, gael eu hamddiffyn ganddo dros byth.

### BOREUOL WEDDI.

75.

M. S.

[55.]

O DEUWCH, awn i'w bebyll Ef,  
 A llafar oslef canwn;  
 Ger bron ei droedfainc fore a nawn  
 Yn ufudd iawn ymgrymwn.

A chyfod Dithau, Arglwydd Rhi,  
 I'th babell i orphwyso;  
 Trig byth yn hon ag arch dy nerth,  
 Cei foliant prydferth yno.

Cyfiawnder pur ac nid ei rith,  
 Fo'n wisgoedd i'th offeiriaid;  
 A'th saint fo'n orfoleddus iawn,  
 O gysur llawn fo'n henaid.

76.

7. 6.

[56.]

ATOLWG, Arglwydd, cadw  
 Dy Eglwys, dros y llawr,  
 Yn bur mewn barn a bywyd,  
 Hyd ddydd y cyfrif mawr:  
 Hen athrawiaethau grasol,  
 Achubol, Tri yn Un,  
 Fo'n cael eu gwir gyhoeddi,  
 A'u credu gan bob dyn.

Tangnefedd Duw ei Hunan  
 Deyrnaso ynddi oll;  
 A gwna hi'n gorff diraniad  
 O gariad brwd heb goll;  
 A grasol air ein Iesu  
 Breswyllo ynddi hi,  
 Ym mhob doethineb nefol,  
 A'th oleu nerthol Di.

77.

M. C.

UWCH pob rhyw gariad is y nef,  
 Yw cariad pur fy Nuw;  
 Anfeidrol foroedd dyfnion maith,  
 Heb fesur arno yw.  
 Dechreuodd draw cyn creu y byd,  
 Fe bery fyth ym mla'n,  
 Heb un cyfnewid, ac heb drai,  
 Pan elo'r byd yn dân.  
 O dewch a gwelwch, chwiliwch ef,  
 Anfeidrol gariad mawr,  
 Ag sydd yn maddeu miloedd myrdd  
 O feiau yn yr awr.  
 Yn para'n ffyddlon fyth heb drai,  
 P'odd byna' troio'r byd;  
 A phe cymmysgai tir a môr,  
 Yr un yw'm Daw o hyd.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

78.

8. 7.

[57.]

ARGLWYDD grasol, cadw'th Eglwys,  
 Cadw'th deulu mawr dy Hun,  
 Rhag holl dwyll a llygredigaeth  
 Athrawiaethau gweigion dyn;  
 Gosod arni weision ffyddlon,  
 Goleu, iachus yn eu barn,—  
 Thrawon wyllo'r wir athrawiaeth,  
 Ac a'i cadwo'n bur bob darn.



Llosged nefol dân Efengyl  
 Bob gau grefydd yn y byd;  
 Pob gau farn, a gwag arferiad,  
 Sy'n yr Eglwys fawr i gyd:  
 D' eiriau Di yw'r unig arfau  
 Fwrw'r cestyll mawrion lawr;  
 Crefydd wrth dy eiriau'n unig  
 Dal o flaen y frawdle fawr.

79.

8. 7. 4.

[58.]

Yn dy ras yr ymddiriedaf;  
 Gras yw ngobaith am gael byw;  
 Gras yn gweled, gras yn wrthddrych,  
 Gras yn rhodio gyda Duw;  
 Bendigedig, gras sy'n achub, gras i gyd.  
 Gras deyrnaso yn ein calon ;  
 Llawn o ras yw calon Duw ;  
 Gras sy'n galw, gras sy'n cynnal,  
 Gras sy'n codi'r marw'n fyw ;  
 Gras ei hunan, yw y ffordd i nef y nef.

80.

6. 4.

[60.]

Fy Iesu yw fy Nuw,  
 Fy Mrawd a'm Priod yw, ffyddlonaf gwir ;  
 Fy enaid arwain wnaeth,  
 O'r gwledydd tywyll caeth,  
 I wlad o fêl a llaeth, Paradwys bur.

Efe aeth o fy mla'n,  
 Trwy ddyfnder dwr a thân, i'r hyfryd wlad ;  
 Mae'n eiriol yno 'nawr  
 O flaen yr orsedd fawr,  
 Yn maddeu i fach a mawr o'm beiau'n rhad.

Mae lluoedd maith y nef-  
 Yn cwympo iddo Ef, anfeidrol Dduw ;  
 Yn canu t'lynau clir  
 Mewn gwyl dragwyddol bur,  
 A'n waredigaeth wir, i ddynol ryw  
 Pan delo'r saint yng nghyd,  
 O derfyn eitha'r byd, i deyrnas uaf ;  
 Cânt dreulio oesoedd fry,  
 Heb fesur ac heb ri',  
 I ganu am angeu du, oddefodd Ef.

### Y Chwarched Sul gwedi'r Ystwyll.

COLECT.—Crist yn dattod gweithredoedd diafol—A'n gwneyd ni yn feibion i Dduw, ac yn etifeddion bywyd tragwyddol.  
 Gweddî—Am nerth i buro ein hunain ar ei ddelw, fel y'n gwnelir yn gyffelyb iddo yn y gogoniant.

#### BOREUOL WEDDI.

81.

2. 8.

[63.]

DAL fi, er fy ngelynion aml eu rhi,  
 A'm golwg tua Chalfari,  
 A gwrando cri fy enaid gwan,  
 Mewn gorthrymderau o bob rhyw:  
 Trwy allu Duw y dof i'r lan.

Nef, nef, yw llewyrch gras ei wyneb Ef,  
 A chymhoorth ei ddeheulaw gref;  
 O flaen ei lef rhyfeddol yw,  
 Ffy holl fyddinoedd uffern fawr:  
 Trwy ras wyf 'nawr hyd yma'n fyw.

Ef, Ef, yw f' unig noddfa dan y nef,  
 Yng ngwyneb gallu uffern gref,  
 Ac onid e, fy enaid gwiw  
 Soddasai yn y ffos i lawr:  
 Ond d'wedaf 'nawr, wyf eto'n fyw.

82.

8AU.

[61.]

Pwy welaf o Edom yn d'od, -  
 Mil harddach na thoriad y wawr,  
 Yn sathru dan wadn ei droed,  
 Elynion yn lluoedd i'r llawr:  
 Ei wisg wedi ei lliwio gan waed,  
 Ei saethau a'i gleddyf yn llym,  
 Ei harddwch yn llenwi'r holl wlad,  
 Yn ymdaith yn amllder ei rym?

Myfi, 'r Hwn wyf Alpha cyn byd,  
 Wyf gadarn i ladd ac iachäu,  
 Fy ngeiriau a safant i gyd,  
 Pan ballo ffyddlondeb pob rhai.  
 Ond pam mae dy wisgoedd yn waed,  
 A'th gleddyf cyn goched ei fin,  
 Fel un a fu'n sathru dan draed  
 Y gwinwryf yng ngwiallan y gwin?

Wrth weled y fyddin mor fawr,  
 Dan arfau yn llawnion o lid,  
 Yn llanw holl wyneb y llawr,  
 Y bobl a giliodd i gyd;  
 A'm gadael Fi'n unig heb ail,  
 I sefyll yn wyneb fy nghas,  
 Gelynyon cyn amled a'r dail,  
 Yn llanw holl gyrau y maes.

83.

AIL RAN.

[61.]

Mi godais i fyny fy llaw,  
 Ymleddais, ennillais y dydd;  
 Fy holl waredigion a ddaw,  
 A'm caethion a roddir yn rhydd:  
 Ennillais fath gonwest trwy waed,  
 Mae genyf lywodraeth mor fawr,  
 Hyd eithaf trigfanau fy Nhad,  
 Mae'n cyrhaedd o'r nefoedd i'r llawr.

Pa feddwl, pa 'madrodd, pa ddawn,  
 Pa dafod all osod i maes,  
 Mor felus, mor helaeth, mor llawn,  
 Mor gryfed ei gariad a'i ras?  
 Afonydd sy'n rhedeg mor gryf,  
 Nas dichon i bechod na bai,  
 Wrthsefyll yn erbyn ei llif  
 A'u llanw ardderchog ddidrai.

Fel ffamiau angerddol o dân  
 Yw cariad fy Arglwydd o hyd;  
 Fe losgodd bob rhwystrau o'i flaen,  
 Fe yfodd o'r afon i gyd:  
 Fe 'maflodd mewn dyn ar y llawr,  
 Fe'i dygodd â'r Duwdod yu un,  
 Y pellder oedd rhyugddynt oedd fawr  
 Fe'i llanwodd â'i haeddiant ei hun.

84.

M. H.

[62.]

NEWYDDION braf a ddaeth i'n bro,  
 Hwy haeddent gael eu dwyn ar go';  
 Mae'r Iesu wedi cario'r dydd,  
 Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.  
 Mae Iesu Grist o'n hochr ni,  
 Fe gollodd Ef ei waed yn lli;  
 Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach  
 I'r ochr draw, 'mhen gronyn bach.  
 Wel, fenaid, weithian cod dy ben,  
 Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen;  
 Mae'n glynion oll i gyd yn awr,  
 Mewn cadwyn gan y Brenin mawr.

85.

PRYDNAWNOL WEDDI.

8. 7.

Mewn anialwch 'rwyf yn trigo,  
 Temtasiynau ar bob llaw,  
 Heddyw tanllyd saethau yma,  
 Fory tanllyd saethau draw:

Minnau'n gorfod aros yno,  
 Yn y canol rhwng y tân,  
 Tyr'd fy Nuw, a gwel f'amgylchiad,  
 Yn dy allu dere 'mlaen.

Marchog Iesu yn llwyddiannus,  
 Gwisg dy gleddyf ar dy glun,  
 Ni all daiar dy wrth'nebu,  
 'Chwaith nac uffern fawr ei hun;  
 Mae dy enw mor ardderohog,  
 Pob rhyw elyn gilia draw,  
 Mae rhyw arswyd trwy'r greadigaeth,  
 Pan y byddych Di ger llaw.

Tyn fy enaid o'i gaethiwed,  
 Gwawried bellach foreu ddydd,  
 Rhwyga'n chwilfriw ddorau Babel,  
 Tyn y barau heiyrn yn rhydd;  
 Gwthied caethion yn finteioedd,  
 Allan megys tdnau llif,  
 Torf a thorf, dan orfoleddu,  
 Heb na diwedd fyth na rhif.

86.

8. 8. 6.

[65.]

YN Eden, cofiaf hyny byth,  
 Bendithion gollais rif y gwllith;  
 Syrthiodd fy nghoron wiw;  
 Ond buddugoliaeth Calfari  
 Emillodd hon yn ol i mi,  
 Mi ganaf tra h'wyf byw.

82 Y CHWECHED SUL GWEDI'R YSTWYLL.

Ar Galfari yng ngwres y dydd  
Y cawd y Gwystl mawr yn rhydd,  
Trwy golli gwaed yn lli;  
'Does dim heb dalu, rhoddwyd Iawn,  
Nes clirio llyfrau'r nef yn llawn,  
Heb ofyn dim i mi.

87.

M. H.

CAERSALEM newydd, dinas Ner,  
Bar'tow'd i'r saint tu draw i'r ser;  
Adeilad pur o aur digoll,  
Fel gwydr gloew'n ddysglaer oll.

Ei theg rodfeydd a'i ph'lasau fry,  
A'i thyllau cryf yn hyfryd sy;  
Pob rhan o honi cyflawn yw  
O sanctaidd bresennoldeb Duw.

Ei huchel furiau wnawd i gyd  
O feini iaspis hardd a drud;  
Ei phyrth o berl, O ryfedd waith!  
Aur yn palmento ei h'olydd maith.

'Does iddi deml o un rhyw,  
Can's Duw a'r Oen ei theml yw;  
O'i mewn y saint yn eglur sydd  
Yn gwel'd ei wyneb nos a dydd.

Na haul, na lloer, na ser, nis cawn,  
Gogoniant Duw sydd ynddi'n llawn;  
Yr Oen fu â'i waed yn lli i'r llawr,  
Sydd yn dysgleirio'r ddinas fawr.

## Septuagesima.

COLLECT.—Duw yn ein coepi am ein camweddau. *Gweddi—*  
Am ymwared trwy ddaioni Duw.

## 88. BOREUOL WEDDI. M. H. D.

YR eang faith ffurfafen fry,  
Yr wybren las uwch ben y sy,  
A'r nef serenog ddysglaer wiw,  
Sy'n dadgan mawr ogoniant Duw.  
Yr haul diffino, o ddydd i ddydd,  
Yn dangos gallu'i Grëwr sydd,  
Ac yn cyhoeddi trwy bob gwlad  
Weithredoedd hollalluog Dad.

Pan ddél cysgodau'r hwyr ar led,  
Y lloer ei hanes ryfedd dd'wed,  
O'i chreadigaeth i'r pryd hyn,  
Tra gwrendy'r ddaiar arni'n syn.  
Y tanllyd ser o'i chwmpas hi  
A'r holl blanedau mawrion sy  
Yn gwirio'r hanes yn eu taith,  
Trwy gonglau pell y ddaiar faith.

Tra mewn dystawrwydd pur digoll,  
Y troant yn eu cylchoedd oll;  
Ac er nad oes na llais na sain  
I'w glywed yng nghylchdeithiau'r rhai'n,  
Yng nghlustiau rheswm llawenhânt,  
A seinio'n ogoneddus wnânt,  
Mewn unol lef, gyssonlef syw,  
“Y llaw a'n gwnaeth un Ddwyfol yw.”



89.

8. 7.

[68.]

O mor dirion ac mor dadol,  
 Mae fy Arglwydd yn fy nhrin,  
 Rhoi cysuron angenrheidiol  
 Imi yn fy nghystudd blin;  
 Arbed wnaeth roi garwach ergyd,  
 Gwybod oedd nad o'wn ond gwan;  
 Ac yng nghanol grym fy nghystudd,  
 Daliodd f'ysbryd llesg i'r lan.

Bugail yw, nid ofnaf rodio  
 Yn ei law 'rhyd llwybrau glyn  
 Cysgod angeu, can's palmentodd  
 Ef &i gnawd y dyffryn hyn:  
 Beth i mi yw cystudd mwyach,  
 Angeu, 'r bedd, a'r farn a ddaw?  
 Beth, ond bywyd corff ac enaid,  
 Bywyd dedwydd yn ei law?

90.

8. 7. 4.

[69.]

Mi foddlonaf, doed a ddelo,  
 Os ca'i wel'd yr hapus awr,  
 Trwy ryw foddion crai neu chwerw,  
 I fy mhechod fyn'd i lawr; [groes.  
 Digon boddlon, concro bai trwy ddwyn y  
 Fe gawd croesau lle ni phechwyd,  
 Pa'm gwrth'nefaf finnau'r groes?  
 Fe gadd Crëwr nef ei Hunan  
 Ar Galfaria angeu loes;  
 Yr un llwybrau, rhaid im' gerdded ag Efe.

91.

6. 8.

DEWCH, hen ac ieuainc, dewch  
 At Iesu, mae'n llawn bryd;  
 Rhyfedd amynedd Duw,  
 Ddysgwylodd wrthym c'ŷd!  
 Aeth yn brydnawn, mae yn hwyrhau  
 Mae drws trugaredd heb ei gau.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

92.

8. 7. 3.

[70.]

WRTH dy ystlys wyf am aros,  
 Wrth dy ystlys mae fy lle;  
 Yn dy fynwes mae fy lletty  
 Diogelaf is y ne';  
 Noddfa yw, byddaf byw,  
 Tan gystuddiau o bob rhyw.  
 Caled yw dyoddef cystudd  
 Mewn anialwch maith yn hir,  
 Methu teimlo pur ddyddanwch,  
 Addewidion Canaan dir:  
 Ond fe ddaw, maes o law,  
 Sypiau peraidd oddi draw.  
 Ffarwel oll o dan yr wybren,  
 Mi wnes ddewis hyfryd wiw,  
 O drysorau uwch pob meddwl,  
 Sy'n guddiedig yn fy Nuw;  
 Fe rhydd lawr, gafod fawr,  
 Pan y delo'r gyfyng awr.

93.

M. H.

Duw mawr! i'th benllywodraeth mae  
 Y bydoedd oll yn ufuddhau;  
 Y deyrnas dod i'th Fab yn awr,  
 Mewn nerth sefydla'i orsedd fawr.

Ei ras ar lesg eneidiau ddaw  
 Fel gwllith ar fryniau sychion draw,  
 A phery ei addoliad Ef  
 Tra pery dyddiau dan y nef.

Y gwledydd digred oll y sydd  
 Dan dywyll gysgod angeu prudd,  
 Pan wawrio arnynt, adfywhânt;  
 A'r lleoedd anial lawenhânt.

Hedd o'i orseddfainc hed fel lli  
 I bobloedd nad adwaenom ni;  
 A'i saint flodeuant yn ei ddydd;  
 Mawl a llawenydd iddynt fydd.

94.

M. C.

[72.]

Y MAE trysorau Dwyfol ras  
 O lawer uwch eu rhyw,  
 Na dim, o'r nefoedd faith i'r byd,  
 Erioed a greodd Duw.

Tra caffwyf yfed ar fy nhaith  
 O'r ffynnon loew glir,  
 Nid ofnaf ronyn, er eu grym,  
 O ddrygau'r anial dir.

Er fod picellau tanllyd iawn .  
 Yn hedeg yn eu grym,  
 Yn erbyn cariad Dwyfol pur,  
 Nis gallant ddrygu dim.

Anfeidrol Ddwyfol gariad rhad,  
 Yn unig yw fy ngrym,  
 Ac nid oes arall fyth a'm dal,  
 I deithio'r bywyd ddim.

### Seisagesima.

COLLECT.—Nad yw y duwiolion yn ymddried dim yn eu gweithredoedd. *Gweddî*—Ar fod i nerth Duw ein ham-ddiffyn rhag pob gwrthwyneb.

### BOREUOL WEDDI.

95.

M. C.

Nis gall angylion pur y nef,  
 Er maint eu doniau hwy,  
 Fyth osod allan haeddiant llawn,  
 Sydd yn ei farwol glwy'.

Mae yn ei heddwch bethau mwy  
 Na fedd y byd ei hun;  
 A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint  
 Oruchaf gafodd dyn.

Mae ei ffyddlondeb fel y môr,  
 Heb fesur ac heb drai,  
 A'i drugareddau hyfryd sy'n  
 Dragwyddol i barhau.

96.

7. 6.

[74.]

DAETH ini iachawdwriaeth,  
 Trwy eithaf chwys a gwaed;  
 Mae'n codi pechaduriaid,  
 O'r dyfnder ar eu traed;  
 N'awn byth i 'mofyn haeddiant,  
 Trwy'r nef na'r ddaiar lawr,  
 Ond haeddiant pen Calfaria,  
 Rhinweddau'r Aberth mawr.

Fe'n siomir gan y ddaiar,  
 Fe'n siomir gan y byd,  
 Fe'n siomir gan ein calon,  
 Fwy na chan rhai'n i gyd:  
 Mewn myrdd o demtasiynau,  
 A mil o groesau'r llawr,  
 Ni saf neb byth yn ffyddlon,  
 Ond yr Eiriolwr mawr.

97.

M. H.

[75.]

O ARGLWYDD, cofia'th angeu drud,  
 A'th boenau mawrion yu y byd;  
 A dadleu rhai'n ag uchel lef,  
 Tros f'enaid tlawd yng nghanol nef.

O cofia'th wae, a'th waed, a'th gur,  
 Ac ol yr hoelion llymion dur;  
 Dy chwys i'r llawr yn ddafnau gwaed,  
 A'th glwyfau mawr o'th ben i'th draed.

'Rwy'n ceisio ymdreiglo at dy waed,  
 Gan gwympo'n llaw trugaredd rad.  
 'Does gweithred dda yn eiddo fi,  
 All honi hawl i'r nefoedd fry.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

98.

M. H.

RHYFEDDOL ac aneirif yw  
 Dy drugareddau Di, O Dduw!  
 Fel tywod ynt o ran eu rhif,  
 O ran eu llawnder megys llif.

Dy hael ddaioni dirfawr Di,  
 O Dduw y nef, a ddaw i ni:  
 Rhown ninnau glod i'th enw glân,  
 A'th ddoniau cu a fydd ein cân.

Ym mhob rhyw gyflwr, claf neu iach,  
 Tra byddom byw dros amser bach,  
 Gwas'naethwn Di, ein nefol Dad,  
 Gan iawn ddefnyddio'th roddion rhad.

Deffröwn yn nhragwyddoldeb draw  
 Ar foreu llon,—mae'r wawr ger llaw!—  
 I wel'd dy wyneb, nefol Ion,  
 A'th foli Di ar felus dôn.

Dyrchafwn trwy'r uchelder maith  
 Dy foliant fyth mewn nefol iaith,  
 Gan seinio, gyda'r seintiau fry,  
 Ar dannau aur, i'th enw cu.

99.

M. S.

[77.]

DARFU'm nerth, 'rwy'n llwfrhau;  
 Yn d'allu mae f'ymddiried,  
 Nerth mawr, difesur fel y môr,  
 Genyt sy'n 'stôr i'r gweiniaid.

Ti'm tynaist i o ganol tân,  
 A mi o'r blaen yn ofni;  
 Gwna hyny eto'r fynyd hon,  
 Mae f'enaid bron a threngu.

Bydd coffa 'm danat ym mhob man  
 I godi'r gwan i fyny;  
 Eu c'lonau'n demlau i Ti cair  
 Sy wrth dy air yn crynu.

100.

8. 7.

[78.]

IESU, llawnder mawr y nefoedd,  
 Gwranddo lef un eiddil gwan,  
 Sydd yn gorwedd wrth dy orsedd,  
 Ac yn codi'i lef i'r lan;  
 Mae 'ngelynion heb rifedi,  
 Yn fy nghuro o bob tu;  
 Ac nid oes a all fy achub  
 Is y nefoedd ond Tydi.

Yn dy haeddiant wyf yn gyflawn,  
 Yn d'oleuni gwelai'n glir;  
 Yn dy wisgoedd dwyfol dyaglaer  
 Byddai'n ogoneddus bur;

Yn dy iachawdwriaeth gyflawn,  
 Er mor waned wyf yn awr,  
 Ceir fy ngweled rhyw ddiwrnod  
 Yn dysgleirio fel y wawr.

### Quinquagesima.

COLLECT.—Pob peth a wnelom yn ddiwerth heb wir gariad.  
*Gweddî*—Am ddawn cariad a thangnefedd perffaith yn eu holl berthynasau.

### BOREUOL WEDDI.

101.

M. H.

Pe meddwn ar dafodau doeth  
 Angylion ac areithwyr coeth,  
 Os na fydd cariad gyda rhai'n,  
 Wyf megys efydd gwag ei sain.

Pe meddwn ddawn i draethu'n hy  
 Ddirgelion nef ac uffern ddu,  
 Neu feddu ffydd i symmud byd,  
 Heb gariad, dim wyf fi o hyd.

Pe bawn yn rhoddi, megys brawd,  
 Fy nghyfoeth oll i borthi'r tlawd,  
 A'm corff i losgi yn y tân,  
 Am enw merthyr clodfawr glân.

I Dduw a dyn, os cariad sydd  
 Yn bryn, fy ngobaith ofer fydd:  
 Nid tafod tanlyd, sel, na dawn,  
 All wneyd gwaith cariad fyth yn llawn.



102.

M. S.

[79.]

GWYN fyd y galon bur lle mae  
 Grususau yn teyrnasu;  
 Cariad yw'r penaf o'r rhai hyn,  
 A chariad sy'n eu nerthu.  
 Gwybodaeth, och, ni thâl hi ddim,  
 Nac ofnau llym na doniau;  
 Er ymladd, pechod bia'r dydd,  
 Os cariad fydd yn eisieu.  
 Hwn ydyw'r gras yn fyw a fydd  
 Pan ddarfo ffydd a gobaith;  
 A hwn a dery'r peraid dant,  
 Yng ngwlad gogoniant eilwaith.

103.

8. 7.

[80.]

ANWELEDIG, 'rwy'n dy garu,  
 Rhyfedd ydyw nerth dy ras,  
 Dynu f'enaid i mor hyfryd,  
 O'i bleserau penaf maes;  
 Ti wnest fwy mewn un mynydyn,  
 Nag a wnaethai'r byd o'r bron,  
 Ennill it' eisteddfod dawel,  
 Yn y galon gareg hon.  
 Uchder nefoedd yw dy drigfan,  
 Llawer uwch na meddwl dyn,  
 Minnau mewn iselder daiar  
 Bechadurus waelaf un;

Eto agosach wyt i'm henaid,  
 A'th gyfeillach bur yn fwy,  
 A chan' gwell pan byddost bellaf,  
 Na'u cyfeillach benaf hwy.

'Rwyf yn dyfod at dy orsedd,  
 O ryw hyder cryf yn llawn,  
 Ac yn edrych ar dy hanfod,  
 Fy hapusrwydd foreu a nawn,  
 Ac mae'r olwg hyny'n gweithio  
 Yn fy ysbryd ryw gryfhau,  
 Gan roi clwyf ar fy mhechodau,  
 Yn dy wyddfod sy'n gwanhau.

PRYDNAWNOL WEDDI.

104.

6. 8.

[82.]

ANFEIDROL wyt, fy Nuw,  
 Anfeidrol yw dy ras,  
 A thyma'r man y mae  
 'M dedwyddwch mwyaf maes:  
 Anghyfnewidiol yw Efe,  
 Am hyn fe'm dwg i deyrnas ne'.

Mae genyf oll yn oll  
 Wrth 'n unig dy fwynhau,  
 Y fan b'ost Di dy Hun  
 'Does eisieu dyn na dau;  
 Dy hyfryd ras a'm lleinw i gyd  
 Heb ran yn wag o'm henaid drud.

Fy nymuniadau i gyd  
 Sy'n cael atebiad llawn,  
 A'm holl serchiadau i 'nghyd,  
 Hyfrydwch nefol iawn:  
 Pan byddwy'n gwel'd wrth oleu'r wawr,  
 Mai eiddo im' yw f'Arglwydd mawr.

105. 8. 7. 4. [83.]

'CHEISIAIS, Arglwydd, ddim ond hyny,  
 Dim ond treulio'm dyddiau maes,  
 I dy garu a'th ryfeddu,  
 Ac ymborthi ar dy ras;  
 Dyna ddigon, 'cheisiaf 'nabod dim ond hyn.

O darfydded i mi garu  
 Unrhyw bleser is y ne',  
 A darfydded im' fyfyrio  
 Ar un gwrthddrych yn dy le;  
 Aed fy ysbryd, oll o'r bron yn eiddot Ti.  
 Rho'r tymmerau, rho'r grasusau,  
 Yn fy enaid bach yng nghyd,  
 Roddaist Ti i'th rai anwylaf,  
 Oll yn rhad o ddechreu'r byd; [bod.  
 Dedwydd, dedwydd, fyddaf byth tra nef yn

106. M. H. [84.]

'RWYF yn dy garu, f'anwyl Dduw,  
 Yn well na phleser o bob rhyw,  
 'Rwyf yn dy garu, dyna i gyd,  
 Fy holl ddyddanwch yn y byd.

Pan ddysgwyf 'nabod iaith y wlad;  
 A pher ganiadau ty fy Nhad,  
 Dechreuaf gân, am farwol glwy',  
 Na chlywir diwedd arni mwy.

Can's mae dy harddwch, Iesu mawr,  
 Yn fwy na harddwch nef a llawr;  
 A harddach, harddach fyth o hyd,  
 Yw hyfryd wedd dy wyneb pryd.

Ym mhen rhyw oesoedd rif y gwllith,  
 Fe wel y saint Di'n harddach fyth;  
 A blas o newydd iddynt hwy,  
 Fydd canu am dy farwol glwy'.

### Mercher y Lludw.

COLLECT.—Duw yn caru ei waith, a maddeu i'r edifeiriol.  
*Gweddî*—Am galon newydd, i ddolurio am ein pechodau,  
 ac addef ein trueni.

### BOREUOL WEDDI.

107.

M. S.

[110.]

Na thro dy wyneb, Arglwydd Glân,  
 Oddi wrth un truan agwedd,  
 Y sydd o flaen dy borth yn awr,  
 Mewn cystudd mawr yn gorwedd.

Na alw mo 'nof ger dy fron  
 I roddi union gyfrif:  
 Yr wy'n cydnabod, fy Nuw hael,  
 Y bywyd gwael oedd genyf.

Trugaredd, Arglwydd, heb ddim mwy,  
 Yw'r oll wyf yn ei geisio;  
 Trugaredd yw fy newis lwydd,  
 Trugaredd, Arglwydd, dyro.

108.

7. 6.

[85.]

WEL dyma'r Un sy'n maddeu  
 Pechodau rif y gwllith;  
 'Does mesur ar ei gariad,  
 Na therfyn iddo byth;  
 Mae'n 'mofyn lle i dosturio,  
 Mae'n hoffi trugarhau;  
 Trugaredd i'r amddifad  
 Sydd ynddo yn parhau.

Agorodd ddrws i'r caethion,  
 I dd'od o'r cystudd mawr;  
 A'i werthfawr waed fe dalodd  
 Ein dyled oll i lawr;  
 Nid oes dim damnedigaeth  
 I neb o'r duwiol had;  
 Y gwardigion canant  
 Am riuwedd mawr ei waed.

109.

8. 7.

[87.]

PECHADUR aflan yw fy enw,  
 O ba rai y pena'n fyw,  
 Rhyfedd byth fe drefnwyd pabell,  
 I'm gael yn dawel gwrdd â Duw:

Yno mae yn llon'd ei gyfraith,  
 I'r troseddwr i gael gwledd;  
 Duw a dyn yn gwaeddi, Digon,  
 Yn yr Iesu, Aberth hedd.

Anturiaf ato yn hyderus,  
 Teyrnwialen aur sydd yn ei law,  
 Estyniad hon sydd at bechadur,  
 Ni wrthodir neb a ddaw: '  
 Af ym mlaen dan waeddi, Pechais;  
 Af a chwympaf wrth ei draéd,  
 Am faddeuant, am fy ngolchi,  
 Am fy nghànu yn y gwaed.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

110.

M. S.

[86.]

PA ham y digalonaf mwy?  
 Caiff pechod glwy' yn ebrwydd;  
 Er maint ei lid, er dued lliw;  
 Fy Iesu yw'm sancteiddrwydd.

Bedyddier fi â'r Ysbryd Glân,  
 Fel tân galluog nerthol;  
 Caiff ysbryd barn a llosgfa fod,  
 Ar bechod yn wastadol.

Teyrnasa, O Dduw, a bwrw maes,  
 D' elynion cas gwrthwyneb;  
 Ar f'enaid llesg rho'th ddelw'n llawn,  
 Nes d'od i gyflawn burdeb.

111.

6. 8.

[89.]

Fy meiau sydd heb rif,  
 Ac mae fy maich yn drwm,  
 Oll yn fy ngwasgu lawr,  
 Fel mynydd mawr o blwm:  
 Ar Ddwyfol lawn mae 'mhwys a'm ffydd,  
 Y caf fi dd'od ryw awr yn rhydd.

Cyfiawnder addfwyn Oen,  
 Diferion marwol glwy',  
 Sydd yng nghlorianau'r nef,  
 Yn pwyso mwy na mwy:  
 Mae'r fainc yn rhydd, os pleidia f' hedd,  
 Caf weled cariad yn ei wedd.

Ac os ei gariad ddaw  
 I'm cwrdd i, ffaidd ddyn:  
 Wel, dyma'r unig awr  
 Fffieiddiaf fi fy hun;  
 Gwel'd gras y nef yn afon waed,  
 Yn golchi'r arian brwnta' gaed.

Pan ddelo'r hyfryd ddydd  
 I mi gael gwel'd ei wedd,  
 Ac yfed ffrydiau pur  
 O'i annherfynol hedd,  
 'Mhlith lluoedd maith cwmpeini'r nen,  
 Mi gana i'r cariad fu ar y pren.

112.

M. E.

[90.]

PECHADUR wyf, da gŵyr fy Nuw,  
Llawn o archollion o bob rhyw,  
Yn byw mewn eisieu o waed y groes,  
Bob mynyd awr o'r dydd a'r nos.

O cofia fi ger bron y Tad,  
A dangos iddo werth dy waed;  
O pleidia'n awr yng nghanol ne',  
I Ti roi'th fywyd yn fy lle.

O cadw fi'n dy gof bob awr,  
Wrth bleidio 'nghanol nef, yn awr  
Dwg f'enw mewn llyth'renau llawn,  
O flaen y faine yn eon iawn.

Gad imi dreulio'm dyddiau i gyd  
I edrych ar dy wyneb pryd:  
Difyru'm hoes o awr i awr  
I garu fy Eiriolwr mawr.

Ŷ Sul Cyntaf yn y Garawys.

COLLECT.—Ympryd Crist. *Goeddi*—Am i ni ymprydia, ac  
ufuddhau i annogaethau Crist, mewn cyflawnder a gwir  
sancteiddrwydd.

BOREUOL WEDDI.

113.

M. C.

AWN, bechaduriaid, at y dwr,  
A darddodd ar y bryn,  
Ac ni gawn ddrachtio fyth heb drai  
O'r afon loew hyn.



Mae yma drugareddau rhad  
 I'r tlawd a'r llariaidd rai;  
 A rhyw fendithion maith yn 'stôr,  
 Sy fythol yn parhau.

Does yma eisieu fyth yn bod,  
 Trysorau gras sy'n llawn,  
 Er maint yr yfed a'r glanhau  
 Sy o fore hyd brydnawn.

Nis blinwn ganu tra fôm byw,  
 Am 'r oruchafiaeth hyn,  
 Weithiodd ein Harglwydd un prydawn  
 Ar ben Calfaria fryn.

Fe welir myrdd 'mhen gronyn bach,  
 O'r dwyrain, ac o'r de,  
 Yn cydadseinio'n hyfryd am  
 Ei ryfedd gariad E'.

114.

8. 7.

MÆ fy nghalon am ehedeg  
 Unwaith eto fyny fry,  
 I gael profi'r hen gymdeithas  
 Gynt fu rhyngof â Thydi;  
 Mi a grwydrais anial garw,  
 Heb un gradd o oleu'r dydd:  
 Un wreichionen o dy gariad  
 Wna fy rhwymau oll yn rhydd.

Pe bai'r holl gystuddiau mwyaf,  
 Yn gwasgu ar fy enaid gwan,  
 A'r gelynyion oll yn rhwystro  
 'R nefol dân i godi i'r lan;  
 Pan ddechreuo nid oes terfyn,  
 Cadarn natur cariad yw,  
 Sydd yn ddystaw fyn'd â'r enaid,  
 O hono ei hun i fynwes Duw.

115.

7. 6.

O IESU, pwy all beidio  
 Dy ganmol ddydd a nos!  
 A phwy all beidio cofio  
 Dy farwol ddwyfol loes!  
 A phwy all beidio canu  
 Am iachawdwriaeth rad,  
 Ag sydd yn teimlo gronyn  
 O rinwedd pur dy waed!

116.

8AU.

[93.]

NID yw hardd wrthddrychau daiar,  
 Oll ond dim wrth Iesu hawddgar;  
 Nid yw'r nefoedd i'w chydbrysio,  
 Pe bai nefoedd i'w chael hebdo.  
 Iesu ei Hunan yw fy nefoedd,  
 Tros fy oes ac yn oes oesoedd;  
 Nef fy nefoedd fydd ei garu,  
 Ei fwynhau a'i bur foliannu,

O na allwn garu'r Iesu,  
 Yn fwy ffyddlon a'i was'naethu;  
 D'weyd yn dda mewn gair am dano,  
 Rhoi fy hun yn gwbl iddo.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

117.

8. 7. 4.

[94.]

MAITH yw'r nos, a mawr yw'r t'wyllwch,  
 P'odd y galla'i threulio maes?  
 Heb gael, Arglwydd, dy gwmpeni,  
 Nerth dy anorchfygol ras:  
 Gormod gofid, hebot allu yma i fyw.

Mae fy mhechod yn fy erbyn,  
 Fel y moroedd mawr eu grym;  
 Diluw cryf heb fesur arno,  
 Nid oes a'i gwrth'neba ddim;  
 Tad tosturi, rho gyfiawnder im' a nerth.

Os dangosi'n eglur imi,  
 Dyna'r pryd i lawenhau,  
 Fod dy lyfr wedi ei groesi,  
 Ao nad oes yn aros fai;  
 Cymmer feddiant, yna o honof oll yn lân.

Os agori im' dy fynwes,  
 I gael gwel'd y cariad llawn,  
 Lifodd allan fel y moroedd,  
 Ar Galfaria un prydawn;  
 Di gai'r cwbl, rhoddaist iini yn fy rhan.

118.

8. 7.

[95.]

IESU, Cyfaill pechaduriaid  
 Dyro im' i'th fynwes ffoi,  
 Tra fo'r dyfroedd chwyrn yn llifo  
 A'r tymmestloedd yn crynoi,  
 Cuddia fi, O Geidwad, cuddia,  
 Nes el heibio'r 'stormydd blin;  
 Tywys f'enaid tlawd i'r porthladd,  
 Er mwyn d'enw mawr dy hun.

Noddfa arall nid oes genyf,  
 Pwysa'm henaid arnat Ti;  
 Paid â'm gadael i'm fy hunan,  
 Cymhorth a chysura fi:  
 Cyfiawn ydwyf Ti a sanctaidd,  
 Minnau 'dwyf ond llwyr ammhur:  
 Drwg, a llawn o bechod ydwyf,  
 Tithau'n llawn o ras a gwir.

Gras digonol a geir ynot,  
 Gras i faddeu fy holl fai;  
 Boed i'r ffrydiau pur iachusol,  
 Oddi wrth bechod fy nglanhau:  
 Profi maith rinweddau'th aberth  
 Gaffwy'r ochr hyn i'r bedd;  
 Gwedi hyny dwg fi'n dawel  
 I Gaersalem lawn o hedd.

119.

M. C.

Am Iesu Grist a'i farwol glwy'  
 Boed miloedd mwy o son;  
 A d'weded pob creadur byw  
 Mai teilwng ydyw'r Oen.

Aed son am waed yr Oen ar led  
 Y ddaiar faith i gyd:  
 Gwybodaeth pur a chywir gred  
 Ymdaened dros y byd.

'Nol treulio oesoedd maith diri'  
 Yn canu 'i glodydd glân,  
 O hyd ei fawl ar gynnydd fydd,  
 A newydd fydd y gân.

### Yr Ail Sul yn y Garauys.

COLLECT.—Nad oes ynom nerth i gymhorth ein hunain.  
*Gweddî*—Am gael ein gwared oddi wrth bob peth a all  
 niweidio ein corff a'n meddwl.

### BOREUOL WEDDI.

120.

M. C.

[97.]

Mewn cyfyngderau bydd yn Dduw,  
 Nid wyf ond gwyw a gwan;  
 Nid oes ond gallu mawr y nen  
 A ddeil fy mhen i'r lan.  
 Mae'r byd a'i degwch oll a'i fri,  
 A'i swynion o bob rhyw,  
 Yn ceisio'm denu bant yn glir  
 O lwybrau pur fy Nuw.

Cysurwch fi, afonydd pur,  
 Rhedegog ddyfroedd byw,  
 Sy'n tarddu o dan riniog eu  
 Sancteiddiaf dy fy Nuw.

Rho brawf im' o'r wynwydden rydd  
 O fywyd sydd yn llawn;  
 Y ffynnon fawr agorwyd fry  
 Ar Galfari brydnawn.

121.

7AU.

[98.]

DACW'R ffynnon heddyw gaed,  
 Dwfr gloew pur a gwaed;  
 Dacw hi'n tarddu ar y bryn,  
 Ylch fy enaid bach yn wyn;  
 Dyma'm nerth i fyn'd ym mlaen,  
 Dyma sylfaen bur fy nghân.

Iesu, gorphwys yn dy glwy'  
 Wna fy enaid bellach mwy;  
 Dyma'm noddfa werthfawr lawn,  
 Fyth o foreu hyd brydnawn;  
 Dyma 'nghysur oll i gyd,  
 Dyma'm nerth i'r nefol fyd.

122.

M. H.

Duw ydyw noddfa'r saint a'u grym,  
 Pan ddêl tymmestloedd adfyd llym;  
 Cyn gallont draethu wrtho 'u cwyn,  
 Bydd Ef ger llaw â'i gymhorth mwyn.

Pe treiglai bryniau'r byd o'r bron  
 I lawr i ddyfnder du y don,  
 Pe siglai seiliau dyfna'r byd,  
 Yn Nuw hyderwn yn ddigryd.

Mae afon bur, a'i ffrydiau byw  
 Ddiwalla ddeiliaid dinas Duw:  
 Llawenydd, cariad, bywyd llon,  
 A lifant drwy anneddau hon.

PRYDNAWNOL WEDDI.

123.

M. H.

[100]

RHYW Wr—rhyfeddol Wr yw Ef,  
 Sydd imi'n lloches gadarn gref;  
 Fel uchel graig, fy nghysgod fydd,  
 Rhag marwol wres y poethlyd ddydd.

Yr hynod Graig, ein Iesu cu,  
 Sy'n llawer uwch na'r nefoedd fry;  
 O dano Ef y llecha'i'n glyd,  
 Ym mhob rhyw 'stormydd yn y byd.

Fe d'raw'd y Graig—mae ffrydiau hon  
 Yn oeri'r llogfa dan fy mron;  
 Fe d'raw'd y Graig—a'i dyfroedd pur  
 Yw'm cysur yn yr anial dir.

Yn holltau'r Graig fy nhrigfa fydd,  
 Trwy ryfedd faith dragwyddol ddydd;  
 Caf yma hyfryd wedd fy Nuw,  
 Dysgleiriad ei berffeithiau gwiw.

124. 8. 7. 4. [101.]

Ti'm gwaredaist rhag fy meiau,  
 Beiau oedd yn tynu 'mlaen,  
 Ac fel 'stormydd yn addfedu  
 F'enaid gwan i uffern dân;  
 Fe'm hachubwyd, dim ond gallu'r nef ei hun.

Draw mi wela'r tân yn ennyn,  
 Draw mi wela'r ffwrn a'r fflam,  
 Ac yn rhodio yn eu hymyl  
 Gwela'i rai o blant fy mam.  
 Iesu, Iesu, caua rhwng dy wŷn a'r tân.

Rhed i'r canol, dangos d'allu,  
 Cofia'th chwerw angeu loes,  
 N'ad i'th ddefaid fyn'd yn 'sglyfaith,  
 Achub, achub cyn dêl nos;  
 Ti gai'r canu, Ti gai'r mawl, a Thi gai'r clod.

125. 8. 7. [102.]

Atat, Arglwydd, 'rwy'n troi 'ngwyneb,  
 Ti yw'm hunig noddfa lawn,  
 Pan fo cyfyngderau'n gwasgu,  
 Cyfyngderau trymion iawn;  
 Dal fi fyny 'ngrym y tdnau,  
 'Does ond dychryn ar bob llaw;  
 Rho dy help, Tywysog bywyd,  
 I gael glanio'r ochr draw.



Neb is y nef ond Ti dy Hunan,  
 Ddeil i fyny f'enaïd gwan,  
 'Rwy'n diystyru'r holl greadigaeth,  
 Fel peth diddim tlawd a gwan;  
 Ac os rhoddi Di'th fendithion  
 Imi, 'r annheilyngaf ddyn;  
 Ti gai'n ol y cwbl roddaist  
 I dy fynwes lân dy Hun.

Y Trydydd Sul yn y Gweddys.

COLLECT.—Gweddï daer am waredigaeth oddi wrth ein gelynyon.

BOREUOL WEDDI.

126.

8. 7. 4.

[104.]

WRTH dy orsedd 'rwyf yn gorwedd,  
 Dysgwyl am y ddedwydd awr,  
 Pan caf glywed llais gorfoledd,  
 Pan caf wel'd fy meiau lawr,  
 Ti gai enw, 'r fuddugoliaeth it' dy Hun.  
 Doed dy heddwch bryd y delo,  
 Mi ddysgwyliaf ddydd a nos,  
 Annherfynol ydyw hæddiant,  
 Hæddiant pur dy angeu loes,  
 Dere'n fuan, mae dy hedd yn fwy na'r byd.  
 Bywyd perffaith yw'th gymdeithas,  
 Diliau mêl yw'th heddwch drud;  
 Gwerthfawrocach yw dy gariad,  
 Na oll berlau'r India i gyd;  
 Gwlad o gyfoeth, yw yn unig dy fwynhau.

127.

M. C.

[103.]

MÆ pyrth y nef o led y pen,  
 Mi welaf fôr o Waed,  
 Lle gallaf fi, 'r ffeiddiaf ddyn.  
 Yn hollol gael iachâd.

Mae'r orsedd fawr yn awr yn rhydd,  
 Gwrandewir llais y gwan;  
 Wel cyfod bellach, f'enaid prudd,  
 Anadla tua'r lan.

Wel anfon eirchion aml ri'  
 I mewn i byrth y nef,  
 Gwrandewir pob ymddifad gri  
 Yn union ganddo Ef.

Myfi anturiaf 'nawr ym mlaen,  
 Heb alwad is y ne',  
 Ond bod perffeithrwydd mawr y Groes  
 Yn ateb yn fy lle.

128.

M. B. D.

[105.]

FY ngweddi, dos i'r nef,  
 Yn union at fy Nuw,  
 A dywed wrtho Ef yn daer,  
 "Atolwg, Arglwydd, clyw,  
 Cyflawna'th 'ddewid wych,  
 I'm dwyn i'r nefoedd wen:  
 Yn Salem fry par'to fy lle,  
 Mewn llys o fewn i'r llen."

Pererin llesg a llaith,  
 Dechreuais daith oedd bell,  
 Trwy lu o elynion mawr eu brad,  
 Gan geisio gwlad sydd well;  
 Am ffoi mae f'enaid tlawd,  
 At f'anwyl Frawd a'm Pen:  
 Yn Salem fry par'to fy lle,  
 Mewn llys o fewn i'r llen.

Rwy'n gwel'd yr oriau'n hir,  
 I fod o dir fy ngwlad;  
 Bryd deuaif at fy mrodyr fry,  
 Sy'n canu'n uhy fy Nhad:  
 Gael gorphen ar fy nhaith,  
 A'm siwrnau faith is nen,  
 Yn Salem fry par'to fy lle,  
 Mewn llys o fewn i'r llen.

PRYDNAWNOL WEDDI.

129.

M. H.

[106.]

DAL fi, fy Nuw, dal fi i'r lan,  
 'N enwedig dal fi lle 'rwy'n wan;  
 Dal fi yn gryf nes myn'd i maes,  
 O'r byd sy'n llawn o bechod cas.

Gwna fi'n gyfoethog ym mhob dawn,  
 Gwna fi fel halen peraidd iawn;  
 Gwna fi fel seren oleu wiw  
 Ddysgleirio yn y byd 'rwy'n byw.

Dysg fi, fy Nuw, dysg fi pa fodd  
 I ddyweyd a gwneuthur wrth dy fodd,  
 Dysg fi ryfela'r ddraig heb goll,  
 A dysg fi goncro 'mhechod oll.

Tra caffwyf rodio'r ddaiar hon,  
 Rho'th hedd fel afon dan fy mron;  
 Ac yn y diwedd moes dy law  
 I'm tywys mewn i'r nefoedd draw.

130.

6. 8.

[107.]

I FFINY at fy Nuw,

Fy enaid, cwyd dy lef,

Heibio i'r euraidd lu,

I eithaf nef y nef;

Gostwng dy glust o'r bryniau fry,

O Arglwydd grasol, cofia fi.

Wyf yma'n wael fy ngwedd,

Yn euog ac yn wan,

Gelynion creulon sy'n

F'amgylchu ym mhob man;

Bydd imi'n blaid i goncro'r llu,

O Arglwydd grasol, cofia fi.

Yng ngwyneb uffern ddu,

Ac angen mawr ei rym,

Rho imi nerth wrth raid,

Bydd Di yn nodded im':

Yn ymchwydd yr Iorddonen ddu,

O Arglwydd grasol, cofia fi.

131.

8. 7.

[108.]

O AM nerth i dreulio'm dyddiau,  
 Yng nghynteddoedd ty fy Nhad:  
 Byw yng nghanol y goleuni,  
 Tywyllwch obry dan fy nhraed:  
 Byw heb fachlud haul un amser,  
 Byw heb gwmwl, byw heb boen,  
 Byw ar gariad anorchfygol,  
 Pur y croeshoeliedig Oen.

Dyro olwg ar dy haeddiant,  
 Golwg ar dy deyrnas rad;  
 Brynwyd imi, ac a seliwyd,  
 Seliwyd imi â dy waed:  
 Rho im' gyrchu tuag ati,  
 Peidio fyth â llwfrhau,  
 Ar fy nhaith ni cheisiaf genyt,  
 Ond yn unig dy fwynhau.

Gyda Thi mi af trwy'r fyddin,  
 Gyda Thi mi af trwy'r tân;  
 Nid ofnaf ymchwydd yr Iorddonen,  
 Ond i Ti fyn'd o fy mlaen:  
 Ti yw'm hamddiffynfa gadarn,  
 Ti yw 'Mrenin a fy Nhad:  
 Ti dy Hunan oll yn unig,  
 Yw fy iachawdwriaeth rad.

Y Pedwerydd Sul yn y Garamys. 113

COLLECT.—*Gwedd*—Am esmwythâd trwy ddyddanwch gras  
Duw, er haeddu o honom gael ein poeni am ein drwg  
weithredoedd.

BOREUOL WEDDI.

132. 8. 7. 4. [111.]

Duw anfeidrol yw dy enw,  
Llanw'r nefoedd, llanw'r llawr,  
Mae dy lwybrau'n anweledig  
Yn nyfnderoedd moroedd mawr:  
Dy feddyliau, is nag uffern, uwch na'r nef.

D'wed a ellir nesu atat,  
D'wed a ellir dy fwynhau,  
Heb un gorchudd ar dy wyneb,  
Nag un gwg i'm llwfrhau;  
Dyna'r nefoedd, wyf am gael tu yma'r bedd.

Dyben nefoedd sydd yn gywir,  
Bynag beth yw dyben dyn;  
Ac mi anturiaf fy holl fywyd,  
Ar ei eiriau Ef ei Hun;  
Doed pob cystudd, ddygwydd dim ond da i mi.

133. m. c.

PAN sycho'r moroedd dyfnion maith,  
Pan syrthio ser y nen,  
Yr Hwn fu farw, ac sydd fyw,  
Ar Sion fydd yn Ben.

Ei enw bery tra bo haul,  
 Yn glodfawr byth y bydd ;  
 Ac ni bydd diwedd ar ei glod  
 I dragwyddoldeb ddydd.

Bendithion rif y tywod mân  
 A gw lith y ddaiar lawr,  
 Yng nghadw i'r ffyddloniaid sydd  
 Byth yn eu Harglwydd mawr.

Aed enwau'r byd i gyd yn ddim,  
 Dyrchafer Brenin nef:  
 Mae pob cyflawnder, gras, a nerth,  
 Yn trigo ynddo Ef.

134.

8. 7. 3.

[112.]

ANGLWYDD, anfon dy leferydd,  
 Heddyw yn ei rwysg a'i rym:  
 Dangos fod dy lais yn gryfach,  
 Nas gall dyn wrthsefyll dim:  
 Cerdd ym mlaen, nefol dân,  
 Cymmer yma feddiant glân.

Tyred allan yn dy arfau  
 O balasau teg y ne',  
 Achub bwrcas dy ddyoddefaint,  
 Fe'n distrywir onid e;  
 Mawr yw'r llid, sy'n y byd,  
 I gonowero'n henaid drud.

## 135. PRYDNAWNOL WEDDI. m. c.

'Rwy'n sefyll ar dymmestlog lan  
Yr hen Iorddonen ddu,  
Gan syllu'n ddwys mewn hiraeth clau  
Ar fryniau'r Ganaan fry.

'Rwy'n tybio gwelaf eiliw gwan  
O'i glanau bythol wyrdd,  
Lle'r hongia sypiau grawnwin pur  
Ar goed anfarwol fyrdd.

Ni theimlir yno chwerw loes,  
A marw ni bydd mwy;  
Awelon peraidd balmaidd, byw,  
Sy'n treiddio'r ardal trwy.

Ac yno y mwynhëir heb nos  
Un anfachludol ddydd,  
Heb haul na lloer; ond Duw ei hun  
Ei ddysglaer Haul a fydd.

O ardal hyfryd! lle ni ddaw  
Na gofid byth nac aeth;  
Lle ffrydia perffaith wynfyd pur,  
Fel llif o fêl a llaeth.

## 136. m. b.

PALMENTIR llwybr in'  
Trwy ganol moroedd maith,  
Ac er gelynion, fawr a mân  
Cawn fyn'd ym mlaen i'n taith.



Ar drostan heddyw'n nes  
 Mae'r sarff o bres yn glir,  
 Os clwyfir un pererin gwan  
 Sy'n myn'd i'r Ganaan dir.

'Does le ini gollir ffordd,  
 Mae niwl y dydd o'n blaen;  
 Fe'n t'wysir trwy'r anialwch hir  
 Gan golofn bur o dân.

Arweinia Dwyfol ras  
 Ni'n gywir maes o law,  
 Trwy ganol maith sychedig dir,  
 I'r Ganaan bur sydd draw.

137.

7. 6.

DUWIOLEB ydyw'r elw,  
 A phobpeth ganddi sy,  
 Sy'n eisieu ar y ddaiar,  
 Ac yn y nefoedd fry;  
 Mae'n meddu ar addewid  
 O'r bywyd sydd yn awr,  
 A'r hwn sy'n para hefyd  
 I dragwyddoldeb mawr.

Gwir grefydd sydd yn elw  
 A'm deil wrth fyn'd ym mlaen:  
 Ni threulir ac ni thoddir,  
 Ni losgir gan y tân:

Gwirionedd saif yn gywir,  
 Yn gadarn iawn bob darn:  
 Yn gadarn ar y ddaiar,  
 Yn gadarn yn y farn.

### Y Pumed Sul yn y Garawys.

COLLECT.—*Gweddî*—Ar i Dduw lywodraethu a chadw ein  
 henaid a'n corff yn sanctaidd.

#### BOREUOL WEDDI.

138.

9. 8.

YMSYMMUD mewn llwybrau dirgelaidd,  
 I wneuthur ei wyrthiau mae Duw;  
 Ei draed yn yr eigion a esyd,  
 A'r gyrwynt ei gerbyd Ef yw:  
 Ym mhell mewn dyfnderoedd annhraethol  
 O ryfedd fedrusrwydd diflin,  
 Trysora 'i amcanion ardderchog,  
 A gwna ei ewyllys ei hun.

Chwi seintiau, cymmerwch galonidd,  
 Cynylau a ofnwch yn awr  
 Ynt lawn trugareddau, a thorant  
 Yn helaeth fendithion i lawr:  
 Na fernwch yr Ion wrth eich synwyr,  
 Hyderwch o hyd am ei hedd,  
 Tu cefn i bob gwngus ragluniaeth,  
 Mae gwenau i'w gwel'd ar ei wedd.

Yn fuan addfeda'i ddybenion,  
 Gan agor yn gysson bob dydd,  
 Yn chwerw gall fod y blaguryn,  
 Ond peraidd y blodyn a fydd:  
 Un gibddall yw ffol anghrediniaeth,  
 Ei waith nis amgyffred yn wir;  
 Deonglydd ein Duw yw ei Hunan,  
 Gwna'n eglur bob gweithred cyn hir.

139.

M. C.

Fy Mhrynwr wyt, O Iesu mawr,  
 'Rwy'n glynu wrth dy groes;  
 Ac nis gollynga'i ngafael mwy  
 Oddi wrthyt ddydd na nos.  
 O boed i'th ras feddiannu'n glau  
 Gynneddfau f'enaïd byw,  
 Nes it' fy nghalon lwyr lanhau  
 Rhag pechod o bob rhyw.  
 O tyred, bur sancteiddiol dân  
 O gariad, oddi fry;  
 Cymmer o honof feddiant glân,  
 Sancteiddia 'nghalon i.

140.

11AU.

Ni allai'r holl foroedd byth olchi fy mriw,  
 Na gwaed y cre'duriaid, er amled eu rhyw;  
 Ond gwaed y Messia'h a'm gwella'n ddiboen!  
 Rhyfeddol yw rhinwedd marwolaeth yr Oen!

O gariad, O gariad anfeidrol ei faint,  
 Fod llwch mor annheilwng yn cael y fath  
 fraint,  
 Cael heddwch cydwybod, a'i chànu trwy'r  
 gwaed,  
 A chorff y farwolaeth, sef llygredd, dan  
 draed.

Cydganed y ddaiar a'r nefoedd yng nghyd  
 Ogoniant tragwyddol i Brynwr y byd;  
 Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân,  
 Am achub anhydyn bentewyn o'r tân.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

141.

6. 8.

TOSTURIA, nefol Dad,  
 Wrth lais pechadur—clyw!  
 O'th fawr drugaredd gad  
 I wrthryfelwr fyw:  
 Yr un yw maddeu gyda Thi  
 Bechodau mawr, a'r lleia'u rhi'.

Am hyn ymddiried 'rwyf  
 Yng ngallu Iesu Grist,  
 Ac yn ei farwol glwyf,  
 I achub f'enaid trist;  
 Ac hefyd dysgwyl wnaif bob dydd  
 Fwynhau effeithiau bywiol ffydd.

142. 8. 7. [121.]

TYRED, Iesu, i'r anialwch,  
 At bechadur gwael ei lun,  
 Ganwaith dd'rysodd mewn rhyw rwydau,  
 Rhwydau weithiodd ef ei hun;  
 Llosg fieri sydd o'm cwmpas,  
 Rho fi sefyll ar fy nhraed,  
 Moes dy law ac arwain drosodd  
 F'enaid gwan i dir ei wlad.

Wrth ei orsedd yr ymdrechaf,  
 A fy ngolwg tua'r nef;  
 A dysgwyliaf hyd y wawrddydd  
 Am ei bresennoldeb Ef:  
 Rhad faddeuant, gwawria bellach,  
 Rho garcharor caeth yn rhydd,  
 Fu'n ymdreiglo mewn tywyllwch,  
 'Nawr i weled goleu'r dydd.

143. M. H. [120.]

DYMA gyfarfod hyfryd iawn,  
 Nyni yn llwm a Iesu'n llawn;  
 Nyni yn dlawd heb feddu dim,  
 Ac Yntau'n rhoddi pob peth im'.

Y bywyd ŷm yn awr yn fyw,  
 Sy'n meddu hapusrwydd o bob rhyw;  
 Hapusrwydd yw, O d'wedwch pwy  
 A wela ddiwedd arno mwy?

Mae'n brysio at bryd i ganu'r gân,  
 Concwest gelynion, fawr a mân;  
 Cànir ni'n wyn, ni fyddwn iach  
 O'n pechod oll 'mhen gronyn bach.

*Y Sul nesaf o flaen y Pasc.*

CÓLECT.—Crist yn cymmeryd arno ein enawd—Yn dyoddef  
 angen ar y groes. *Gweddi*—Am fodd i ganlyn esampl ei  
 fawr oestyngeiddrwydd—a bod yn gyfranogion o'i adgyfod-  
 iad.

BOREUOL WEDDI.

144. 9. 8. [122.]

MAWR ydyw ein henwog Waredwr,  
 Mae'r Ion ini'n Brynwr a Brawd;  
 Iehofah â'n natur ymunodd,  
 Y Gair wnaed o'i wirfodd yn gnawd;  
 Nid ydyw i'r gwan yn rhy uchel,  
 Ac nid yw'n rhy isel i'r nef,  
 Mae'n addas Gyfryngwr i'r ddwyblaid,  
 Ein Dyddiwr bendigaid yw Ef.

Rhaid ydoedd cael Duwdod i'n cadw,  
 A Dyndod i farw'n ein lle;  
 Caed Iesu i'r gwagle i'w lanw:  
 Gwir Dduw a gwir Ddyn yw Efe;  
 Ein natur ddyrchafwyd i'r orsedd,  
 Daeth rhyfedd anrhydedd i'n rhan,  
 Ffordd rydd sydd rhwng daiar a nefoedd,  
 Dyrchefir rhyw luoedd i'r lan.

145. M. S. [123.]

O AM dafodau fil mewn hwyl,  
 I foli'n hanwyl Brynwr;  
 Gogoniant mawr ein Harglwydd Dduw,  
 Yr Iesu gwiw 'n Gwardedwr.

Ein grasol Ior a'n Prynwr cu,  
 Rho gymhorth i gyhoeddi,  
 Cân mawl i'th enw mawr digoll,  
 Trwy'r ddaiar oll heb dewi.

146. 8. 7. [124.]

IESU ei Hunan yw fy mywyd,  
 Iesu yn ei farwol loes;  
 Y trysorau mwyaf feddaf,  
 Yw ei angeu ar y groes;  
 Gwagder annherfynol ydyw  
 Meddu daiar, da, na dyn,  
 Colled, ennill pob peth arall,  
 Os na 'nillir Di dy Hun.

Mi orphwysa'm henaid bellach,  
 Ar yr annherfynol 'stôr,  
 Ac mi ganaf yn y dymmestl,  
 Ar y Graig sydd yn y môr;  
 Dyma'r fan na feiddia Satan,  
 Uffern ddofon, fawr, a'r bedd,  
 Er eu dyfais fawr a'u rhuad  
 I derfyagu dim o'm hedd.

147.

6. 8.

O CAN, fy enaid gwan,  
 Dy Briod mwyn, cyn hyn,  
 A lyncodd angeu du  
 Ar groes Calfaria fryn,  
 A hyn fydd syndod nef y nef  
 Diangfa yn ei glwyfau Ef.

PRYDNAWNOL WEDDI.

148.

6. 8.

[127.]

MÆ lluoedd maith ym mlaen,  
 'Nawr o'u carcharau'n rhydd,  
 A gorfoleddu maent  
 Oll wedi cario'r dydd;  
 I'r lan, i'r lan diang'sant hwy,  
 Yn ol eu traed y sengwn mwy.  
 Gadäwn y byd ar ol,  
 Y byd y cawsom wae,  
 Y byd ag sydd bob dydd  
 Yn ceisio'n llwfrhau;  
 Ni welwn wlad rhwng ser y ne'  
 Sydd fil o weithiau'n well nag e'.  
 Cawn wel'd yr addfwyn Oen,  
 Fu farw ar y bryn,  
 Yn medi ffrwyth ei boen,  
 Yn hyfryd y pryd hyn;  
 Myrddiynau heb rif yn canu 'nghyd,  
 I'r Hwn fu farw dros y byd.



149.

7. 6.

[126.]

YMADO wnaſ â'r babell,  
 'Rwy'n trigo ynddi'n awr;  
 Colofnau'r ty ddattodir,  
 Fe'u cwympir oll i lawr;  
 Aiff pob gwahanglwyf ymaith,  
 Glân fuddugoliaeth mwy,  
 'Rwy'n canu wrth gofio'r bore,  
 Na welir arna'i glwy'.

Os gwelir fi bechadur,  
 Rhyw ddydd ar ben fy nhaith,  
 Rhyfeddol fydd y canu,  
 A newydd fydd y iaith;  
 Yn seinio buddugoliaeth,  
 Am iachawdwriaeth lawn;  
 Heb ofni colli'r frwydr,  
 Y bore na'r prydawn.

150.

8AU.

'Rwy'n tynu tuag ochr y dwr,  
 Bron gadael yr anial yu lân;  
 Mi glywais am goncwest y Gwr  
 A rydiodd yr afon o'm blaen;  
 Fe dreiglodd y maen oedd dan sel,  
 Fe gododd, y Cadarn, i'r lan;  
 Mi a'i caraf, a deued a ddél,  
 Mae gobaith i'r truan a'r gwan.

COLLECT.—Crist yn marw dros bob dyn. *Gweddî*—Dros holl gorff yr Eglwys—Dros y rhai sydd ar gyfeiliorn ar iddynt gael eu dychwelyd i'r iawn ffydd, fel y byddo un gorlan ac un Bugail.

151. [128.] BOREUOL WEDDI. 8. 8. 6.

Ai Iesu, Cyfaill dynol ryw,  
A welaf fry â'i gnawd yn friw,  
A'i waed yn lliwio'r lle,  
Fel gwr dibris, yn rhwym ar bren,  
A'i waed yn dolohau ar ei ben?  
Ië, f'enaïd, dacw Fe!

Ai 'm hanwyl Briod welaf draw  
A hoelion llymion trwy bob llaw,  
A'u curo'n drwm i dre',  
Ac wedi 'i adael gan y Tad,  
Ac yno'n marw yn ei waed?  
Ië, f'enaïd, dacw Fe!

Ai Fe fu'n maddeu'n rhad i'w gas,  
A'i waed fel llif o'i glwyfau maes,  
Nes agor drws y ne',  
Dan bwys ei gur yn gwyro 'i ben,  
Gan dd'weyd, Gorphenwyd, ar y pren?  
Ië, f'enaïd, dacw Fe!

152.

M. C.

O DE'WCH gan wylo gyda mi  
I ganfod Iesu a'i loes;  
O de'wch ac wylwn bawb yng nghyd,  
Mae'n Ceidwad ar y groes.

Tywalltwn ddagrau'n lli wrth wel'd  
 Y milwyr drwg eu moes,  
 A'r Iuddew'n ddall yn gwatwar Crist  
 Yn hongian ar y groes.

Saith waith llefarodd eiriau dwys,  
 Yn oriau trist ei loes,  
 O gariad pur at enaid dyn  
 Wrth drengu ar y groes.

O deuwch, sefwch wrth ei groes;  
 Mae rhinwedd yn y gwaed:  
 Cewch weled grym dyferion hwn  
 I olchi'r brynta' gaed.

Tyr'd, enaid prudd; tyr'd, galon drist;  
 Mae Meddyg it' i'w gael:  
 Mewn calon ddrylliog cariad drig,  
 Mae'r Iesu'n Geidwad hael.

O gariad Duw! O bechod dyn!  
 Mawr ymdrech rhyngoch fu;  
 Ond cariad lwyddodd ar y groes  
 Trwy rinwedd Iesu cu.

153.                              8. 7. 4.                              [129.]

DAOW gariad, daow bechod,  
 Heddyw'll dau ar ben y bryn,  
 Hwn sy'n gryf, hwn acw'n gadarn,  
 Pwy ennilla'r ymgyroh hyn? [dydd.  
 Cariad, cariad, wela'i'n berffaith gario'r

Pechod greodd ynddo'r poenau,  
 Pechod roddodd arno'r pwn,  
 Pechodd barodd iddo ochain,  
 F'unig haeddiant i oedd hwn;  
 O na welwn foreu fyth na phechwn mwy!

Profed hwnw nad yw'n medru  
 Caru Prynwr mawr y byd,  
 Beth o'r dwr a'r gwaed a lifodd  
 Gyda'r bicell fawr ei hyd;  
 Hwn sy'n magu fflam o gariad heb ddim  
 trai.

Cariad oll i mi oedd yno,  
 Chwer'der ydoedd i fy Nuw,  
 Lle dyoddefodd un diwrnod,  
 Boenau o aneirif ryw:  
 O'r Winwydden, gwasgwyd pechod imi'n  
 win.

154.

8. 7.

DACW'R ddaiar heddyw'n crynu  
 Yng Nghalfaria ym mhob man,  
 Cynhwrf rhyfedd yn y beddau,  
 Plant y llwch yn d'od i'r lan;  
 Teulu'r bedd â'u traed yn rhyddion,  
 Angeu a'r bedd yn plygu lawr,  
 Haul yn codi ar y seintiau,  
 Uffern dan y cwmwl mawr.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

155.

M. S.

EDRYCHWN draw ar Frenin hedd  
 Yng ngwaelod bedd yn gorwedd;  
 Rhyfeddod bellach yn y byd  
 Na welir hyd y diwedd.

Nad rhyfedd iddo grymu ei ben  
 Fry ar y pren dyodde'?  
 Rhyfeddol pan rodd lef, "Fy Nhad,  
 O maddeu'n rhad eu beiau."

Yn cynnal y greadigaeth faith,  
 A threfnu gwaith ei fysedd,  
 Yn rhwym tan hoelion ar y groes,  
 Yn dyodde' tros ein camwedd.

Crynöwch y doethion oll yng nghyd  
 Sy fewn y byd yn trigo,  
 Beth mwy rhyfeddol glywsoch chwi  
 Na'm Duw gael ei groeshoelio?

156.

8. 7. 3.

[131.]

DAOW'R ffynnon wedi'i hagog,  
 A ddysgwylwyd amryw oes,  
 'Nawr yn llifo fel y grisial  
 Maes o'i ystlys ar y groes;  
 Dwr a gwaed rydd iachâd  
 I'r pechadur mwyaf gaed.

Dacw'r hoelion geirwon llymion  
 Wedi eu curo 'nawr i dref,  
 Dacw'r bicell yn trywanu  
 Mewn o dan ei ystlys Ef;  
 Dacw boen addfwyn Oen  
 Yn rhoi'r nefoedd dewi sou.

Wele'r creigydd serth yn rhwygo,  
 Wele'r meirw 'n codi yn fyw;  
 Pa greadur ag all ddyoddef,  
 Griddfan chwerw'n Harglwydd Dduw!  
 Ochain mae, Fe gadd wae,  
 Fel caem ninnau ein rhyddhau.

157.

8. 7. 4.

GWAED dy groes sy'n codi i fyny  
 Yr eiddil yn orchfygwr mawr,  
 Gwaed dy groes sydd yn daros<sup>t</sup>wng  
 Cewri cedyrn fyrdd i lawr;  
 Gad in' deimlo,  
 Awel o Galfaria fryn.

Mwy yw d'eiriau ar y croesbren,  
 Geiriau gwerthfawr, geiriau drud,  
 Mwy yw'r lleiaf sill o honynt,  
 Na'n holl ddyledswyddau i gyd;  
 'Drychwn yno,  
 Yno mae ein nerth a'n gryn.

158.                              8. 7.                              [133.]

DEUED pechaduriaid truain,  
 Yn finteioedd mawr yng nghyd,  
 Doed ynnysoedd pell y moroedd  
 I gael gwel'd dy wyneb pryd;  
 Cloffion, deillion, gwiwedigion,  
 O bob enw, o bob gradd,  
 I Galfaria un prydnewngwaith,  
 Wel'd yr Oen sydd wedi'i ladd.

Dacw'r nefoedd fawr ei Hunan  
 'Nawr yn dyoddef angeu loes,  
 Dacw obaith yr holl ddaiar  
 Heddyw'n hongian ar y groes;  
 Dacw Noddfa pechaduriaid,  
 Dacw'r Meddyg, dacw'r fan  
 Cawn ni wella'n holl archollion  
 Dyfnion sy ar ein enaid gwan.

Dacw'r unig Feddyginiaeth  
 Gadarn i druenus ddyn,  
 Mae pob gobaith wedi darfod  
 Maes o hono ef ei hun;  
 Trwm a llwythog yw ein beichiau,  
 Poen euogrwydd sydd yn fawr,  
 Nid oes fan ond pen Calfaria  
 Gallwn ddodi'n pen i lawr.

COLLECT.—Duw trwy ei Fab yn gorchfygu anghau, ac yn agoryd i ni borth y bywyd tragwyddol. Yn rhoddi deisyfiadau da i'n meddyliau. *Gweddî*—Ar allu o honom ddwyn y meddyliau hyn y berffeithrwydd cyflawn.

BOREUOL WEDDI.

159.

M. H.

BENDIGAID fore, teg ei wawr,  
Y darfu i'n Duw a'n Prynwr mawr  
Gyfodi fyny'n wych ei wedd,  
A gorfoleddu ar y bedd.

Yng ngharchar, oer y beddrod du  
Y Prynwr gwiw yn gorwedd bu,  
Nes daeth oddi amgylch yn ddiludd  
Y trydydd appwyntiedig ddydd.

Nis gallai'r bedd nac uffern ddu  
Mo gadw yn gaeth ein Ceidwad cu;  
Cyfodi wnaeth o'r bedd i'r lan,  
Gan dori'n rhydd eu cadwyn wan.

O Arglwydd Ior, i'th enw Di  
Yr oriau hyn gyflwynwn ni,  
A seiniwn gân Hosanna i gyd  
O ddiolch am y sanctaidd ddydd.

160.

M. H.

MAE'N marw! Crist, ein cyfaill cul  
Gwryfon Sion wylwch awr:  
Yr awyr wisg ei mantell ddu,  
A chrŷn, gan syndod, daiar lawr



Chwi seintiau, hidlwch ddagrau rif  
 Dros un, a drengodd yn eich lle:  
 Tywalltodd Ef ei waed yn llif,  
 A dyoddefodd ddigder ne'.

Wel dyma gariad, dyma boen,  
 Bu farw'r Ion dros ddynol ryw;  
 Ond syn orfoledd, ebrwydd hoen!  
 Mae ein Gwaredwr eto'n fyw.

O'r bedd dyrchafa Iesu cu,  
 Esgyna fry i lys y nef:  
 Angylion Duw, yn osgordd lu,  
 A melus dant, roesawant Ef.

Eich dagrau sychwch, seintiau, 'n glau,  
 A seiniwch glod Iachawdwr byd:  
 Gorchfygodd nerth y gethern gau;  
 Mae angeu'n rhwym mewn durfing did.

Bydd fyw, bydd fyw, ryfeddol Ri!  
 Wyt gryf i achub, Frenin hedd!  
 O Angeu, p'le mae'th golyn di?  
 Pa le dy fuddugoliaeth, Fedd?

161.

7AU.

Iesu Grist sydd heddyw'n fyw,	Haleliwia
Gwyl ein buddugoliaeth yw:	Hal.
Dyoddefodd ar y groes,	Hal.
Prynodd euog ddyn rhag loea.	Hal.

Seiniwn ninnau'r anthem gref,	Haleliwia
Mawl i Grist sydd Frenin nef:	Hal.
Trech na'r bedd ac angeu prudd,	Hal.
Daeth i'r lan, mae'r caeth yn rhydd.	Hal.
Iechyd yn ei glwyfau gaed,	Hal.
Prynedigaeth trwy ei waed,	Hal.
Uwch y ser teyrnasa byth,	Hal.
Lle cân engyl yn ddilyth.	Hal.

162.

6. 8.

[135.]

'NOL marw Breniu hedd

A'r eiddo i gyd yn brudd,

Fe'i rhoed mewn newydd fedd,

Ond codai'r trydydd dydd:

Boed hyn mewn cof gan Israel Duw,

Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.

Y Meichiau aeth yn rhydd,

'Nol rhoddi taliad llawn;

A Duw'n cyhoeddi sydd,

"Yn Hwn mi gefais Iawn:"

Gwnaeth ffordd yn rhydd i fyn'd at Dduw

Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.

Galarwyr Sion sydd

A'ch taith trwy ddwr a than,

Pam byddwch mwy yn brudd?

Eich galar troer yn gân:

O cenwch, etholedig ryw,

Mae'r Oen a laddwyd eto'n fyw.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

163.	7AU.	[138.]
HEDDYW cododd Crist o'r bedd,		Haleliwia.
Awdwr ein tragwyddol hedd,		Hal.
Wedi'n prynu ar y pren,		Hal.
I feddiannu'r nefoedd wen.		Hal.
Talodd Ef ein dyled mawr,		Hal.
Rhyddion ydym ninnau 'nawr,		Hal.
Do, Fe 'sigodd Had y Wraig		Hal.
Uffern ddu a phen y ddraig.		Hal.
Fe bwrcasodd Iesu'n rhad,		Hal.
A'i rinweddol werthfawr Waed,	-	Hal.
Deyrnas nefoedd deg i ni,		Hal.
O mor ddrud ein braint a'n bri.		Hal.
Cawn ar fyr gyfarfod fry,		Hal.
Gyda'r glân angylaidd lu,		Hal.
Lle mae holl drigolion nef		Hal.
Byth yn ei glodfori Ef.		Hal.

164.

8. 7.

HOELIODD ddeddf yr ordinhadau,  
 Oedd i'n herbyn, wrth y groes,  
 Gan ysbeilio'r awdurdodau,  
 Pan yn goddef angeu loes;  
 Cododd faner wen trugaredd,  
 Drylliodd gedyrn byrth y bedd,  
 Seiniodd Iubil lawn i'r caethion,  
 Ac arlwyodd radlawn wledd.

Agoriadau y llywodraeth  
 Wisgwyd wrth ei wregys Ef,  
 Rhoddwyd iddo bob awdurdod  
 Yn y ddai'r ac yn y nef;  
 Marchog mae yng ngherbyd cariad,  
 Ei osgordd lu yw engyl nef,  
 Sigla cedyrn byrth y fagddu  
 Hyd eu sail, wrth rym ei lef.

165.

7. 6.

ER gwaetha'r maen a'r milwyr,  
 Fe gododd Iesu'n fyw;  
 Daeth yn ei law alluog  
 A phardwn dynol ryw:  
 Gwnaeth etifeddion uffern  
 Yn etifeddion nef;  
 Fy enaid byth na thawed  
 A chanu iddo Ef.

166.

M. H.

NID brenin braw yw angeu'n awr,  
 Er pan gyfododd Iesu mawr:  
 Fe dynodd Ef ei golyn llym,  
 Ysbeiliodd uffern fawr ei grym.

Blant dynion, codwch fry eich llef,  
 A'ch holl eneidiau ato Ef,  
 Mewn pur ganiadau yn gytûn,  
 I foli'n Prynwr, Duw a dyn.

136 Y SUL CYNTAF GWEDI'R PASC.

Angylion, â'ch telynau de'wch,  
Y peraidd dannau uchaf t'rewch;  
A holl drigolion nef a llawr,  
Cydseiniwch glod yr Iesu mawr.

Y Sul Cyntaf gwedi'r Pâsc.

COLECT.—Duw yn rhoddi ei Un Mab i farw dros ein pechodau, ac i gyfodi er ein cyflawnhâd. *Gweddî*—Am nerth i ymwrthod â phob drwg, a gwasanaethu Duw mewn purdeb a gwirionedd.

BOREUOL WEDDI.

167.

M. C.

[140.]

IESU, difyrwch fy enaid drud  
Yw edrych ar dy wedd,  
Mae holl lyth'renau d'enw pur  
Yn fywyd ac yn hedd.  
A than dy aden dawel bur,  
'Rwyf yn dymuno byw,  
Heb ymbleseru byth mewn dim,  
Ond cariad at fy Nuw.  
O cau fy llygaid rhag im' wel'd  
Pleserau gwag y byd,  
Ac imi wyro byth oddi ar  
Dy lwybrau gwerthfawr drud.  
'Does genyf ond dy allu mawr,  
I'm nerthu fyn'd ym mlaen;  
Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,  
Fy nghoncwest, a fy nghân.

168. 7. 6. [142.]

O ARGLWYDD, rho im' deimlo  
 Fy llygredd yn gwanhau,  
 A theimlo'r anian newydd,  
 Bob dydd yn gwir gryfhau ;  
 A theimlo fod fy nghalon,  
 Yn dy i'r Ysbryd Glân,  
 Yn nerth, yn ddawn achubol,  
 A gwres y nefol dân.

Rho imi Ysbryd Iesu,  
 Ei sel dros dy ei Dad ;  
 Ei daerni mawr mewn gweddi,  
 A dilyn ol ei draed :  
 A gwna fi'n wir addolwr,  
 Rho grefydd yn ei grym,  
 Mewn ysbryd, barn, a bywyd,  
 Rho burdeb didwyll im'.

169. M. B.

Ai am ein beiau ni  
 Dyoddefodd Iesu mawr,  
 Pan ddaeth yng ngrym ei gariad cu  
 O entrych nef i lawr ?

Pan grymodd Ef ei ben,  
 Wrth farw yn ein lle,  
 Agorodd ffordd, gan rwygo'r llen,  
 I bur drigfanau'r ne'.

Cyflawnai'r gyfraith bur  
 Cyfiawnder gafodd Iawn;  
 A'r ddyled fawr, er cymmaint oedd,  
 A dalodd Ef yn llawn.

Gorchfygodd uffern ddu,  
 Gwnaeth ben y sarff yn friw;  
 O'r carchar caeth y dygir llu  
 Trwy ras i deulu Duw.

PRYDNAWNOL WEDDI.

170.

M. C.

AGORWYD ffynnon i'n glanhau,  
 Gan Iesu, Brenin nef;  
 A'i ffrydiau oloha ffwrdd ein bai,  
 Trwy rym ei gariad Ef.

Bu'r lleidr euog un prydawn  
 Yn edrych arni'n llon;  
 A ninnau olchir, sydd yn llawn  
 Mor frwnt ag ef, yn hon.

Anwylaf Oen, dy werthfawr waed  
 Ni chyll ei rinwedd mwy,  
 Nes bo prynedig deulu Duw  
 Yn iach heb bla na chlwy'.

Yna, mewn uwch, pereiddiach gân,  
 Dy foli gawn mewn hedd,  
 Pan bo'r tafodau bloesgaidd hyn  
 Yn ddystaw yn y bedd.

171. . . . . 8. 7. 4.

DYMA Geidwad i'r colledig,  
 Meddyg i'r gwywedig rai;  
 Dyma un sy'n caru maddeu  
 I droseddwyr mawr eu bai:  
 Diolch iddo  
 Byth am gofio llwch y llawr.

Os trwy filoedd o gystuddiau  
 Rhaid im' eto fyn'd ym mlaen,  
 Yn dy allu awn trwy'r dyfroedd,  
 Yn dy allu awn trwy'r tân;  
 Noddfa ini,  
 Bydd dy Hunan, Arglwydd mawr.

172. . . . . 8. 7. [145.]

DYNA'R dyddiau wyf yn ddysgwyl,  
 Dyddiau'r addewidion rhad,  
 D'wedwyd cawn fy meiau cryfa',  
 Dua'u lliwiau, dan fy nhraed;  
 Ei enw hyfryd ydyw Iesu,  
 Ac Fe ddyry wared llawn;  
 O am wel'd y boreu'n dyfod!  
 Rhyfedd hyd y maith brydnawn!

Tan ei aden bydda'i 'n ddedwydd,  
 Tan ei aden ca'i gasân,  
 A galaru yn ddrylliedig,  
 Am bob pechod, am bob bai;



Tan ei aden ar bob chwantau  
 Caf fi fuddugoliaeth lawn;  
 Ac y caf ddifyrwch cysson,  
 O foreuddydd hyd brydnawn.

Yr Ail Sul gwedi'r Pasc.

COLLECT.—Crist yn Aberth dros bechod, ac yn esampl o fuchedd dduwiol. *Gweddî*—Am nerth i dderbyn ei an-nhraethol lesâd hyny yn wir ddiolchgar, a chanlyn ei lwybrau.

BOREUOL WEDDI.

173.

M. C.

Os edrych wnafl i'r dwyrain draw,  
 Os edrych wnafl i'r de,  
 Ym mhlith a fu, neu ynte ddaw,  
 'Does debyg iddo Fe.  
 Fe rodd ei ddwylaw pur ar led,  
 Fe wisgodd goron ddrain,  
 Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn,  
 Fel hyfryd liain main.  
 Esgynodd fry i entrych nef  
 I eiriol dros y gwan,  
 Ac yno gwrendy'n rhyfedd fwyn,  
 Pan elo'n owyn i'r lan.  
 Drachefn Fe ddaw or nef ryw bryd,  
 Pan elo'r byd ar dân,  
 A gweled gawn ei hyfryd wedd,  
 Mil harddach nag o'r blaen.

174.

8. 8. 8.

[146.]

Nis gall angylion nef y nef,  
 Fynegu fraint ei gariad Ef,  
 Mae angeu'r groes yn drech na'u dawn;  
 Bydd canu uwch am Galfari,  
 Na chlywodd yr angylion fry,  
 Pan ddelo Salem bur yn llawn.

Y trysor penaf goreu 'i ryw,  
 O fewn y nef, yw gwaed fy Nuw,  
 Holl sylwedd y caniaidau i gyd;  
 A thyna'r gwaed a roddodd iawn,  
 I Ddwyfol ddigder perffaith lawn,  
 Fy hedd a'm cysur yn y byd.

175.

m. c.

RHYFEDDOL fawredd cariad Duw,  
 Yng Nghrist tuag at y byd!  
 Rhyfeddol oedd, rhyfeddol yw,  
 Rhyfeddol fydd o hyd!  
 Pan oeddym ni yn weiniaid gwael,  
 Dan bechod cas i gyd,  
 Dros yr annuwiol llawn o fai,  
 Bu farw Crist mewn pryd.  
 Rhy fychain doniau peraidd, llon,  
 Y nef a'r ddaiar lawr;  
 Rhy fyrion oesoedd bythol fyd,  
 I draethu gras mor fawr.

142 YR AIL SUL GWEDI'R PASC.

PRYDNAWNOL WEDDI.

176. 8. 7. 4. [150.]

DISGYN, Iesu, o'th gynteddoedd,  
Lle mae moroedd mawr o hedd;  
Gwel bechadur sydd yn griddfan  
Ar ymyloedd oer y bedd;  
Rho i mi brofi pethau nad adnabu'r byd.  
Rho oleuni, rho ddoethineb,  
Rho dangnefedd fo'n parhau,  
Rho lawenydd heb ddim diwedd,  
Rho faddeuant am bob bai;  
Triged d' Ysbryd yn ei deml dan fy mron.

Ynot mae fy iachawdwriaeth,  
Ynte'n wir mi lwfrhäwn,  
Ac mae'r poenau a ddyoddefaist  
Ar Galfaria'n berffaith Iawn  
Tros bechodau 'r pechaduriaid dua'u lliw.

Yn y ffynnon hon agorwyd  
Yn dy ystlys ar y pren,  
'Rwyf fi'n d'od â'm gwisg yn aflan,  
Fel y câner hi yn wen;  
Mi ddof allan fel yr eira ar y bryn.

177. M. C. [149.]

MAE'N golwg acw tua'r wlad,  
Lle mae ein heddwch llawn;  
Ac 'r fym am deimlo'i heddwch pur  
O fore hyd brydnawn.

'Does dim difyrwch yma i'w gael,  
 A leinw'n henaid cu;  
 Ond ni ymborthwn ar y wledd  
 Sydd gan angylion fry.

'Ddiffygiwn ddim er cyd ein taith,  
 Tra paro gras y ne';  
 Ac er mor lleied yw ein grym,  
 Mae digon ynddo Fe.

Mae'r iachawdwriaeth fel y môr,  
 Yn chwyddo byth i'r lan;  
 Mae ynddi ddigon, digon byth  
 I'r truan ac i'r gwan.

178.

8. 7.

[151.]

GRAS fel moroedd all fy achub,  
 Perffaith cyflawn ym mhob rhan;  
 Gras a roddo nerth a bywyd,  
 Ac a wnelo'n gryf y gwan:  
 Rhaid cyfiawnder, rhaid doethineb,  
 A phob grasau fawr a mân;  
 Cyn yr elo f'enaidd eiddil,  
 Sy mewn cadwyn, gam ym mlaen.

Rhaid cael llygaid, fel y gwelwyf  
 Hyfryd beraidd lwybrau'r dydd;  
 A chael holl allweddau'r nefoedd,  
 I ddadgloi cadwynau'n rhydd:

A chael llusern fawr y bywyd,  
 Fyth i gerdded o fy mlaen,  
 Ganol dydd yn gwmwl goleu,  
 Ganol nos yn golofn dân.

Y Trydydd Sul gwedi'r Pasg.

COLLECT.—Duw yn dangos goleuni ei air i'r rhai sydd ar gyfeillorn, er eu dwyn i ffordd cyflawnder. *Gweddî*—Am i bawb ag sydd yn profesu Crist i ochelyd y pethau sydd groes i'w profes, a chanlyn y pethau sydd yn unol â hi.

BOREUOL WEDDI.

179.

8. 7. 4.

[152.]

DROS y bryniau tywyll niwlog,  
 Yn dawel, f'enaïd, edrych draw,  
 Ar addewidion sydd i esgor  
 Ar ryw ddyddiau braf ger llaw;  
 Nefol Iubil, gad im' wel'd y bore wawr.

Doed yr Indiaid, doed Barbariaid,  
 Doed y Negroes du yn llu,  
 I ryfeddu'r ddwyfol goncwest  
 Unwaith gawd ar Galfari;  
 Sw'n y frwydr dreiddio i eitha' conglau'r byd.  
 Ar ardaloedd maith o d'wyllwch,  
 T'wynu wnelo'r haulwen lân,  
 Ac ymlidied i'r gorllewin,  
 Y nos o'r dwyrain draw o'i flaen;  
 Iachawdwriaeth, ti yn unig gario'r dydd.

Gwawria, gwawria, hyfryd foreu,  
 Ar ddiderfyn fagddu fawr,  
 Nes bo bloedd yr euraidd udgorn,  
 Yn dadseinio nen a llawr  
 Holl derfynau tir Immanuel i gyd.

Hed fel mellten, bur Efengyl,  
 A gorchfyga oll yn lân;  
 Bydded i'th gyffiniau eang  
 Ymhelaethu fyth ym mlaen;  
 A'th lywodraeth dros y moroedd mawr i gyd.

180.

M. C.

DYRCHAFER enw Iesu cu,  
 Gan seintiau is y nen,  
 A holl aneirif luoedd nef,  
 Coronwch Ef yn Ben.

Hardd lu'r merthyri, sydd uwch law  
 Elyniaeth, braw, a sen,  
 A llafar glod, ac uchel lef,  
 Coronwch Ef yn Ben.

Yr holl brophwydi, 'nawr sy'n gwel'd  
 Y Meichiai mawr heb len,  
 A'r apostolion yn gyd lef  
 Coronwch Ef yn Ben.

Pob perchen anadl, ym mhob man  
 Dan gwmpas haul y nen,  
 Trwy'r ddaiar faith, ac yn y nef,  
 Coronwch Ef yn Ben.

181.

8. 7. 3.

[154.]

AED i'r dwyrain a'r gorllewin,  
 Aed i eitha'r India draw,  
 I fod hoelion dur cadarnaf  
 Yn ei draed ac yn ei law,  
 Doed yng nghyd eitha'r byd,  
 I wel'd tegwch ei wyneb pryd.  
 Doed paganiaid yn eu t'wyllwch,  
 Doed y Negroes dua'u lliw,  
 Doed addolwyr yr eilunod,  
 Weled tegwch Iesu'n Dduw;  
 Doed pob un, yn gytân,  
 Mewn i wleddoedd wedi'u trin.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

182.

m. c.

[156.]

AR fôr tymmestlog teithio'r wyf  
 I fyd sydd well i fyw,  
 Gan wenu ar ei 'stormydd oll—  
 Fy Nhad sydd wrth y llyw.  
 Er cael fy nhafu o don i don,  
 Nes ofni bron cael byw;  
 Diangol ydwyf hyd yn hyn—  
 Fy Nhad sydd wrth y llyw.  
 Ac os oes 'stormydd mwy yn ol  
 Yng nghadw gan fy Nuw,  
 Wynebaf arnynt oll yn hyf—  
 Fy Nhad sydd wrth y llyw.

A phan fo'u hymchwydd yn cryfhau,  
 Fy angor sicr yw,  
 Y dof yn ddiogel trwyddynt oll—  
 Fy Nhad sydd wrth y llyw.

I mewn i'r porthladd tawel clyd  
 O swn y 'storm a'i chlyw,  
 Y caf fynediad llon ryw ddydd—  
 Fy Nhad sydd wrth y llyw.

183.

7. 6.

ANGYLION nef yn gysson,  
 Rifedi gwllith y wawr,  
 Ro'nt eu coronau euraidd  
 O flaen y fainc i lawr;  
 Chwareuant eu telynau  
 Yng nghyd â'r saint yn un:  
 Byth, byth ni chanant ddigon  
 Am Dduwdod yn y dyn.

O gariad heb ei gymhar!  
 Hwn yw y testyn sy  
 Yn llanw holl ganiadau  
 Y sanctaidd nefol lu:  
 Anfeidrol ras, rhyfeddol!  
 Pe mud y byddai dyn,  
 Dadseiniai'r holl greadigaeth,  
 Yn ddiau trwyddi'n un.



184.

8. 7.

[157.]

NID yw 'ngweddi, nid yw 'nagrau,  
 Nid yw f'addunedau ddim,  
 Ni wna mil o ddyledswyddau  
 Unrhyw bechod lai ei rym;  
 Cofia'r Hwn fu ar Galfaria  
 Tan yr hoelion llymion main,  
 Gwel y waewffon a'r gorsen,  
 Mantell goch a'r goron ddrain.

Ac er mwyn y gwaed a gollwyd,  
 Cymmysg ddwr o'i ystlys E',  
 Tyn bob cwmwl dudew tywyll  
 Ag sydd rhyngof 'nawr a'r ne',  
 Maddeu imi feiau mawrion,  
 Beiau lawer fwy na rhi',  
 Dim ond edrych ar Galfaria,  
 Nid wrth edrych arnaf fi.

Golch fy enaid yn yr afon,  
 Gwna yr euog brwnt yn lân,  
 Llanw 'nghalon oer ddigariad  
 O dy nefol hyfryd dân,  
 A chael rhan o bob rhinweddau,  
 Ag sydd ynot Ti dy Hun,  
 Ddoe yn aflan, wedi'm dychwel,  
 Heddyw'n berffaith ar dy lun.

**Y Pedwerydd Sul gwedi'r Pasg.** 149

COLLECT.—*Gweddî*—Am nerth i garu yr hyn y mae Duw yn orchymmyn, a deisyfu yr hyn mae yn addaw; fel y gallu ein calonau aros lle mae gwir lawenydd.

BOREUOL WEDDI.

185. M. G. [158.]

Mi af ym mlaen, yn nerth y nef,  
Tua'r baradwysaidd dir,  
Ac ni orphwysaf nes cael gwel'd  
Fy etifeddiaeth bur.

Mae llais yn galw i maes o'r byd  
A'i bleser o bob rhyw,  
Mianau wrandawa'r hyfryd swm,  
Llais fy Anwylyd yw.

Iesu yw tegwch mawr y byd,  
A thegwch pena'r nef;  
Ac y mae'r cwbl sydd o werth  
Yn trigo ynddo Ef.

A boed fy mhleser bellach byth,  
O dan ei aden wiw;  
Na foed difyrwch genyf mwy  
Mewn dim, ond yn fy Nuw.

186. 8. 7. 4. [159.]

ANWELLEDIG, 'rwy'n dy garu,  
Ac ni fedda'i yn y byd  
Wrthddrych alla'i bwyso arno,  
Wrthddrych dal roi iddo 'mryd;  
'Does fy lleinw o bob pleser ond dy Hun.

Ti'm harweiniaist o'r creadur,  
 Ar hyd llwybrau geirwon iawn;  
 Ni ches lonydd gyda 'mhleser,  
 Fyth na boreu na phrydnawn;  
 Yn yr anial, d'wedaist eiriau wrth fy modd.  
 'Chlywodd clust, ni welodd llygad,  
 Ac ni ddaeth i galon dyn  
 Erioed feddwl na dychymmyg  
 Y fath ydwyt Ti dy Hun;  
 Rhagor decach wyt nag welodd nef na llawr.

187.

7. 6.

MAE golwg ar byrth anget  
 Yn erchyll iawn i mi,  
 A dyfroedd yr Iorddonen  
 Yn dywyll ac yn ddu;  
 Bydd rhodio'r dyffryn tywyll  
 Yn drwm i'm henaid trist,  
 A'r ffordd yn dra dyeithr  
 Heb gwmni Iesu Grist.  
 Nid oes ond gweled Iesu  
 Fu'n gwaedu ar y bryn,  
 A ffydd i 'maflyd ynddo,  
 A'm cynnal i bryd hyn;  
 Fe wared rhag enogrwydd  
 Ac ofnau angen du,  
 Fe wna y ffordd yn hyfryd  
 Oddi yma i Salem fry.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

188.

8AU.

[162.]

DADGUDDIWIYD dirgelion i maes,  
 Dirgelion cuddiedig i'r byd,  
 Meddyliau trugaredd a gras  
 I'r penaf bechadur i gyd,  
 A glow'd mewn addewid sydd gref,  
 Na welir fyth fythoedd ei hail,  
 O ddyfnder y ddaiar i'r nef,  
 Mor gywir, mor sicr ei sail.  
 Fe'm boddwyd mewn syndod yn lân,  
 Wrth chwilio eu natur hwy maes;  
 'Does angel na seraph a gân  
 Am ddyfnder anorphen ei ras;  
 Pwy bwysa 'i ddyoddfaint ar bren?  
 Pwy bwysa lawn haeddiant ei loes?  
 Tra tafod yn chwareu'n fy mhen,  
 Mi ganaf am goncwest ei groes.

189.

8. 7.

[163.]

MÆ addewid nef o'm hochor,  
 Fod fy Iesu'n ffrynd i'r gwan;  
 O'r pydewau dwg ei Hunan  
 Garcharorion lleag i'r lan;  
 Tor y bolltau pres yn ganddryll,  
 Tyn y barau heiyrn yn ol;  
 Gad fy enaid o'r dyfnderoedd,  
 Hedeg yna i dy gol.

152 Y PEDWERYDD SUL GWEDI'R PASG.

T'wyned haulwen ar fy enaid,  
 Blinaiſ ganwaith ar y nos;  
 Nid yw 'mhleser na'm teganau,  
 Na'm heilunod, ond fy nghroes;  
 Mynwes Iesu yw'm hapusrwydd,  
 O na chawn i yno fod!  
 Fe roi cariad Dwyfol perffaith  
 Fy mhleserau tan fy nhroed.

190.

6. 8.

[161.]

AR ei addewid Ef,  
 Sydd fwy na geiriau dyn,  
 Er holl gymylau'r nef,  
 Gorphwysaf fi fy hun;  
 Fe'm deil i'r lan, a doed a ddél,  
 A ddaeth o'i eneu sydd dan sel.  
 Mi bwysaf ar ei air,  
 A deued oll yn groes,  
 Fy Noddfa unig yw,  
 Dan eithaf tywyll nos;  
 Fe wawria'r dydd, pob tro is nen,  
 Ddaw ag addewid nef i ben.  
 Cyfnwid y mae dyn,  
 Tröedig yw erioed;  
 Ond digyfnwid Duw,  
 Fel haul neu ser y rhod;  
 Ac ar ei faith ffyddlondeb Ef  
 Y try gogoniant nef y nef.

*P* *Hummed* *Sul* *gwedi'r* *Pasc.*

153

COLLECT.—Pob daioni o Dduw. *Gweddî*—Am gymhorth yr  
Ysbryd Glân i feddwl ac i gyflawnu yr hyn sydd union.

BOREUOL WEDDI.

191.

M. S.

[164.]

LLAWN yw, o Dad, y nefoedd wen  
A'r ddaiaren o'th foliant;  
Mil o arwyddion bob yr awr  
Sy'n canu'th fawr ogoniant.

D'weyd mae y ser a'u troion serth,  
Dy fedr a'th nerth yn rhyfedd;  
Yn 'sgrifenedig ar bob awr  
Y ceir dy fawr amynedd.

Ond gwel'd dy ddyfais pan y cawn,  
At rai sydd lawn o bechod,  
Cyfiawnder llym a gras yng nghyd,  
Yn taro i gydgyfarfod,

Sydd yn ein rhoi i foddi'n wir  
Mewn cariad pur a syndod;  
'R angylion fry o'r blaen ni ddaeth  
I wel'd y fath ryfeddod.

192.

M. C.

[165.]

TYDI wyt deilwng o fy nghân,  
Fy Nghrëwr a fy Nuw;  
Dy ddoniau o fy amgylch maent,  
Bob mynyd 'rwyf yn byw.

154 Y PUMMED SUL GWEDI'R PASC.

O na foed tafod dan y rhod,  
 Yn ddystaw am dy waith;  
 Minnau fynegaf hyd fy medd  
 Dy holl ddaioni maith.

Diolchaf am dy gariad cu,  
 Yn estyn hyd fy oes;  
 Diolchaf fwy am Un a fu  
 Yn gwaedu ar y groes.

Diolchaf am gysuron gwiw,  
 Wyf beunydd yn fwynhau;  
 Diolchaf fwy am Brynwr trist,  
 I mi gael llawenhau.

193.

7. 6.

[166.]

O ARGLWYDD Dduw rhagluniaeth,  
 Ac iachawdwriaeth dyn,  
 Tydi sy'n llywodraethu  
 Y byd a'r nef dy Hun:  
 Yng ngwyneb pob caledi  
 Y sy neu eto ddaw,  
 Dod gadarn gymhorth imi  
 I lechu ym dy law.

Er cryfed ydyw'r gwyntoedd,  
 A chedyrn ddau'r môr,  
 Doethineb ydyw'r Llywydd,  
 A'i enw'n gadarn Ior;

Er gwaethaf dylif pechod,  
 A llygredd o bob rhyw,  
 Diangol yn y diwedd,  
 Am fod yr Arch yn Dduw.

PRYDNAWNOL WEDDI.

194. 8. 7. 3. [169.]

Iesu, nid oes ond dy allu,  
 Iesu, nid oes ond dy rym,  
 Attal f'enaïd dros fynydyn  
 Bechu yn dy erbyn ddim;  
 Rhoddion rhad, gwerthfawr waed,  
 Wna im' sefyll ar fy nhraed.  
 Weithiau fe ddyd ei ragluniaeth,  
 Weithiau dyd ei hyfryd ras,  
 I fy ngwarchod a fy nghadw,  
 Rhag fy chwantau fflaidd cas;  
 Boed fy nghân iddo'n lân,  
 Pan el daiar fawr yn dân.

195. M. H. [167.]

CLODFORWCH Frenin nefoedd fry,  
 Fe'n Arglwydd yr arglwyddi sy,  
 Creawdwr bywyd pawb a'u bod,  
 Fe sydd, Fe fydd, Fe oedd erioed.  
 Gwnaeth trwy ei air y ddaiar gron,  
 A'r llydan fôr sy'n rhuo ei don,  
 Dyffrynoedd a mynyddoedd maith,  
 Plant Adda o bob llwyth ac iaith.



Fe sy'n Berchenog ar y 'stôr,  
Mewn awyr, daiar, tân, a môr;  
'R holl greaduriaid mân a'u hil  
Sy'n eiddo Ef ar fryniau fil.

Dal sylw craff mae ar bob un,  
Gan chwilio dyfnder calon dyn;  
'Does greadur o'r greadigaeth fawr,  
Nas gŵyr ei feddwl ef bob awr.

Mae'r moroedd a'r mynyddoedd maith  
Yn seinio maes mewn eglur iaith;  
A'r holl greaduriaid o bob rhyw  
Sy'n d'weyd, mai rhyfedd iawn yw Duw.

196.

10AU.

[168.]

GWNA fi fel pren planedig, O fy Nuw,  
Yn ir ar lan afonydd dyfroedd byw,  
Yn gwreiddio ar led, a'i ddail heb wywo mwy  
Yn ffrwytho dan gawodydd Dwyfol glwy'.

Fel byddwyf byw, yng nghanol pob rhyw bla,  
Dan gysgod clyd adenydd Iesu da;  
A'm tegwch gwir, fel olewyydden wiw,  
O blaniad teg daionus Ysbryd Duw.

Ac yno caf, mewn haf dragwyddol ddydd,  
Y palmwydd teg, a'r goron brydferth sydd  
Yng nghadw gan yr Iesu pur i'w saint,  
—own dysglaer fyd o nefol freiniol fraint.

# Dydd Ion y Dyrchafael.

157

COLLECT.—Dyrchafael Crist. *Gweddi*—Am nerth i ymddyrchafael i'r nef o ran meddylfryd ein calon, a thrigo yn wastad gydag Ef.

## BOREUOL WEDDI.

197.

7AU.

[170.]

WELE angeu llym ei gledd,	Haleliwia.
Wele agoriadau'r bedd,	Hal.
Wele nef a daiar lawr,	Hal.
Tan awdurdod Iesu mawr.	Hal.
Fry esgynodd Mab y Dyn,	Hal.
Trwy ei werthfawr waed ei Hun;	Hal.
Dwyn tystiolaeth wnaeth y nef	Hal.
I fawr werth ei aberth Ef.	Hal.
Eistedd mae'n Cyfryngwr mawr	Hal.
Ar orseddfa'r nef yn awr;	Hal.
Cynnrychioli mae'r Mab rhad	Hal.
Bawb o'r holl grediniol had.	Hal.
Gwaith gorphenol Iesu yw	Hal.
Prynedigaeth dynol ryw;	Hal.
Pob ymadrodd yn un iaith	Hal.
Canent mwy ei foliant maith.	Hal.

198.

M. C.

ESGYNODD Crist, ein Ceidwad mawr,  
Goruwch y nef mae'n Ben;  
Heddychodd Ef y nef a'r llawr,  
Trwy farw ar y pren.

Mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,  
 Ar orsedd fawr y nef;  
 Ac y mae'r cyfan sydd mewn bod  
 Dan ei awdurdod Ef.

Mae yno'n eiriol drosem ni,  
 Ar sail ei aberth drud;  
 Boed iddo gael y mawl a'r bri,  
 Gan holl dylwythau'r byd.

199. M. H.

I'r lan o'r bedd ein Harglwydd ddaeth,  
 Esgynodd fry tu fewn i'r llen;  
 Galluoedd uffern ddug yn gaeth,  
 Trwy'r awyr las hyd entrych nen.

O flaen ei gerbyd dysglaer Ef,  
 Bloeddiar angylion ar bob llaw,  
 Eich penau codwch, byrth y nef!  
 Chwi ddrysau oesawl, ciliwch draw!

Yn llydan gwnewch y ffordd yn rhydd,  
 A throwch yn ol, chwi folltau'r gwawl:  
 Gwir Frenin y gogoniant sydd  
 Yn d'od i mewn; mae ganddo hawl.

Pwy ydyw'r Ior gogonawl? pwy!  
 Yr Arglwydd nerthol cryf mewn cad:  
 Ei holl elynion, maeddodd hwy;  
 Yn awr mae'n esgyn at ei Dad.

Crist Iesu yw, derbyniwch Ef,  
 Mae'n Frenin mawr, i mewn Fe ddaw:  
 Eich penau codwch, byrth y nef!  
 Chwi ddrysau oesol, ciliwch draw!

Pwy ydyw'r Brenin enwog? pwy?  
 Arglwydd y lluoedd, Ef yw'r Pen:  
 Hwn gaiff y mawl a'r enw mwy,  
 Bendigaid fydd byth, byth. Amen.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

200.

8. 7.

[175.]

Nid fy nef yw ar y ddaiar,  
 Pe goreu man dan gwmpas haul:  
 Fy nef yw tawel bresennoldeb  
 Wyneb siriol Adda'r ail;  
 Gwena arna'i, Arglwydd grasol,  
 Gwaeddaf allan, digon yw;  
 Yna 'nghanol cyfyngderau  
 Fyth yn llawen bydda'i byw.

Yn dy glwyfau y mae bywyd,  
 Tyllau'r hoelion yw fy nyth;  
 Ofna'i fyd, na chnawd na phechod,  
 Nac euogrwydd yno byth;  
 Gwaed fy Mhriod wedi golli,  
 Archoll fawr y waewffon,  
 Yw fy nghraig a'm dinas noddfa  
 Sier ar y ddaiar hon.

Yna boed fy mwyd a'm diod,  
 Dan gangenau gwych y pren,  
 Sydd â'i wreiddyn ar y ddaiar,  
 Ei frigau yn y nefoedd wen;  
 Dyn a'r Duwdod ynddo'n trigo,  
 Ffrwythau arno'n tyfu'n llawn,  
 Cysgod tano i'r ffyddloniaid  
 O foreuddydd hyd brydnawn.

201.

M. H.

[172.]

CHWI fydoedd dysglaer, llawenhëwch,  
 Gwel'd Brenin y gogoniant cewch:  
 Brenin gogoniant—pwy yw ef?  
 Ior cadarn yw, Mab Duw o'r nef.

Chwi nefol byrth, yn glau dadglowch,  
 Ffordd rydd i'n cadarn Geidwad rhowch:  
 Gorchfygu wnaeth, a llwythog yw  
 O ysbail fawr ei goncwest wiw.

Esgynodd Iesu ym mlaen llaw  
 I agor drws y nefoedd draw,  
 Er dwyn ei saint i'r drigfan wiw,  
 Yn agos ato'i Hun i fyw.

202.

M. C.

O BYRTH tragwyddol! rhoddwch le,  
 Eneiniog ne' sy'n d'od  
 I'w orsedd drefnwyd iddo—do,  
 Cyn seilio trefn y rhod.

Y SUL AR OL DYDD Y DYRCHAFÆL. 161

O feusydd Edom, dyma'r dydd  
Aeth Crist yn rhydd i fry,  
Er marw, gan ogwyddo 'i ben  
Ar groesbren Calfari.

O! caned archangylion nef  
Holl glychau Salem lân;  
Byth, "Nid i ni, ond iddo Ef,"  
Fydd ein tragwyddol gân.

Y Sul ar ol Dydd y Dyrchafael.

COLLECT.—*Gweddi*—Am anfoniad yr Ysbryd Glân i'n dydd-  
anu, a chael ein dyrchafu i'r un man a Christ.

BOREUOL WEDDI.

203.

M. C.

[176.]

PERERIN wyf mewn anial dir,  
Yn crwydro yma thraw;  
Ac yn rhyw ddysgwyl bob yr awr,  
Fod ty fy Nhad ger llaw.

Tyr'd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,  
Bydd imi'n niwl a thân;  
Ni cherdda'i'n gywir hanner cam,  
Nes elot o fy mlaen.

Mi wyraf weithiau ar y dde,  
Ac ar yr aswy law;  
Am hyny arwain gam a cham  
Fi i'r Baradwys draw.

Mae hiraeth arna'i am y wlad,  
 Lle mae torfëydd di ri'  
 Yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes  
 Am angeu Calfari.

204.

M. H.

BYWHA dy waith, O Arglwydd mawr!  
 Dros holl derfynau daiar lawr,  
 Trwy roi tywalltiad nerthol iawn  
 O'r Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn.

Bywhâ dy waith o fewn ein tir,  
 Arddeliad mawr fo ar y gwir;  
 Mewn nerth y bo'r efengyl lawn,  
 Er iachawdwriaeth llawer iawn.

Bywhâ dy waith o fewn dy dŷ,  
 A gwna dy weision oll yn hy;  
 Gwisg hwynt â nerth yr Ysbryd Glân,  
 A'th air o'u mewn fo megys tân.

Bywhâ dy waith, O Arglwydd mawr!  
 O fewn ein calon ninnau 'nawr,  
 Er cynnydd pob rhyw nefol ras,  
 A marwhâd pob pechod cas.

205.

M. S.

[177.]

TYR'D, Ysbryd Glân, i'n c'lonau ni,  
 A dod d' oleuni nefol;  
 Tydi wyt Ysbryd Crist: dy ddawn  
 Sy fawr iawn a rhagorol.

Llawenydd, bywyd, cariad pur,  
Ydynt dy eglur ddoniau;  
Dod eli i'n llygaid fel i'th saint,  
Ac enaint i'n gwynebau.

Dysg in' adnabod y Duw Tad,  
Y gwir Fab rhad, a Thithau,  
Yn un tragwyddol Dduw i fod,  
Yr hynod Dri Phersonau ;

Fel y molianner ym mhob oes,  
Y Duw a roes drugaredd;  
Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân;  
Da dadgan ei anrhydedd.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

206.

M. H.

[179.]

Tyr'd, nefol G'lomen, oddi fry,  
A chod ni ar d'adenydd cu;  
Esgyn a dwg ni fyny'n grwn,  
Uwch law holl bethau'r bywyd hwn.

Tu hwnt i'r wybren isaf hon,  
Lle try tragwyddol oesau llon,  
Y mae pleserau pur dilyth,  
A ffrwythau i wledda'r enaid byth.

O am gael golwg hoff o'r wlad,  
A gorsedd ein tragwyddol Dad,  
Lle'r eiste'n Prynwr mawr ei fri,  
Yn Llywydd yn ein natur ni.



164 Y SUL AR OL DYDD Y DYRCHFAEL.

Y saint o'i gylch addoli maen',  
 A holl lu'r nef yn plygu o'i flaen;  
 Duw sy'n llewyrchu maes trwy'r Dyn  
 Ei bur ogoniant ar bob un.

207. m. c. [180.]

MAE'N hyfryd meddwl ambell dro,  
 Wrth deithio anial le,  
 Ar ol ein holl flinderau dwys,  
 Cawn orphwys yn y ne'.

Pan ar ddiffygio gan y daith,  
 A lludded maith y lle,  
 Mor hoff yw gwybod—wedi hyn,  
 Cawn orphwys yn y ne'.

Er colli ein cyfeillion hoff,  
 Yn yr Iorddonen gref,  
 Mae'n felus meddwl—eto 'nghyd,  
 Cawn gwrddyd yn y nef.

Cymhwyser ni trwy'r Ysbryd Glân,  
 A'i rasol ddoniau Ef,  
 Nes delom fel t'wysenau llawn,  
 Yn addfed iawn i'r nef.

208. 8. 7. [181.]

DYN dyeithr ydwyf yma,  
 Draw mae'm genedigol wlad,  
 Draw i'r moroedd mawr tymmestlog,  
 Ac o fewn i'r Ganaan wlad;

'Stormydd hir o demtasiynau,  
 'N curodd i yn llyn mor bell,  
 Tyred, Ddeheu wynt pereiddiaf,  
 Chwyth fi i'r Baradwys well.

'Rwyf yn dechreu teimlo eisoes,  
 Beraroglau'r gwledydd draw,  
 Gyda'r awel ber yn hedeg,  
 Dian fod y wlad ger llaw;  
 Dere'r tir dymunol hyfryd,  
 Dere'r ardal sydd heb drai,  
 Dy bleserau o bob rhywiaü,  
 Gad im' bellach eu mwynhau.

### Y Sulgwyn.

COLLECT.—Duw yn dysgu ei ffyddlonion, gan ddanfôn iddynt  
 lewyrch ei Ysbryd Glân. *Gweddi*—Am gael meddiannu  
 barn gywir ym mhob peth trwy oleuni yr Ysbryd, a llawen-  
 ychu yn ei wynfydedig ddyddanwech Ef dros byth.

#### BOREUOL WEDDI.

209.

M. C.

[182.]

O ANFON Di yr Ysbryd Glân,  
 Yn enw Iesu mawr;  
 A'i weithrediadau megys tân,  
 O deued Ef i lawr.

Yn ol dy addewid fawr ei gwerth,  
 O tywallt oddi fry  
 Dy Ysbryd Sanctaidd gyda nerth,  
 I weithio ynom ni.

O'i wir ewylllys, deued Ef  
 I argyhoeddi'r byd,  
 Ac arwain etifeddion nef,  
 Trwy'r anial maith i gyd.

Yn ol dy addewid Iesu mawr,  
 Yr awrhon anfon Di,  
 Y gwir Ddyddanydd doeth i lawr,  
 I aros gyda ni.

210.

M. H.

BYWYD y meirw, tyr'd i'n plith,  
 A thrwy dy Ysbryd arnom chwyth!  
 Anadla yn rymus ar y glyn,  
 Fel byddo byw yr esgyrn hyn.

O tyred, anadl gref, fel gynt,  
 Yn awr oddi wrth y pedwar gwynt!  
 Tyr'd, Ysbryd Glân, anadla Di  
 Ar esgyrn sychion megys ni.

211.

M. S.

[183.]

TYR'D, Ysbryd Glân, tragwyddol Dduw,  
 Yr unrhyw a'r Tad nefol;  
 Yr unrhyw hefyd a'r Mab rhad,  
 Duw cariad tangnefeddol.

Rheola'n o'lonau ni â'th ras,  
 Fel byddo gas in' bechu,  
 Ac ini mewn sancteiddrwydd rhydd,  
 Bob dydd dy wasanaethu.

Tydi addewaist ddysgu, Ion,  
 Dy weision i lefaru; ♦  
 Fel ym mhob man y caffo'n rhwydd,  
 Yr Arglwydd ei foliannu.

O Ysbryd Glân, i'n c'lonau ni  
 Y gwir oleuni danfon,  
 A'o hefyd sel, tra b'om ni byw,  
 I garu Duw yn ffyddlon.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

212.

8. 7.

[187.]

TYRED, Ysbryd yr addewid,  
 O'r uchelder pur i lawr,  
 Yn dy ddoniau cadwedigol,  
 Er aileni tyrfa fawr:  
 Rhwyga'r nef yn awr, a disgyn  
 Ar bob oedran, heb wahân;  
 Llanw'r byd a'r Eglwys hefyd  
 Ag effeithiau'r dwyfol dân.

Gweithia'n rymus ar eneidiau,  
 Galw filoedd i dy dŷ;  
 Gwawried, bellach, ar y ddaiar,  
 Hyfryd ddyddiau Iubili:  
 Chwythed y Deheuwynt nefol,  
 Nes adfywio pawb i gyd,  
 Fel bo rhinwedd a sancteiddrwydd  
 Yn teyrnasu dros y byd.

213.

7AU.

[185.]

YSBRYD Glân, Golomen nef,  
Gwrando'n rasol ar ein llef;  
Aethom yn wywedig iawn,  
Disgyn yn dy fywiol ddawn.

Oer ein serch, a gwan ein ffydd,  
Ein hosanna'n ddystaw sydd;  
Tyred, tyred, Ysbryd Glân,  
Chwyth o'n mewn y nefol dân.

Ysbryd Glân, Golomen nef,  
Cwyd ni ar dy aden gref,  
Nes yr elom uwch y byd,  
Mewn sancteiddiol nefol fryd.

214.

M. H.

[186.]

O TYRED, y Gogleddwynt clir,  
Anadla ar dy lysiau pur;  
Ac oni ddeui mewn iawn bryd,  
Fe wywa'r grasau oll i gyd.

Tyr'd â'r awelon hyny lawr,  
Sy'n deffro'r arg'oeddiadau mawr;  
Tyr'd, dithau, y Deheuwynt clyd,  
Sy'n codi'n henaid uwch y byd.

O tyr'd i'th ardd, f'Anwylyd pur,  
Mae'r amser hebot yma'n hir,  
Bwyta dy ffrwyth o nefol rin,  
Pereiddiaf blenaist Ti dy hun.

COLLECT.—Daw yn rhoddi gras i'w weision i addef a phroffesu y wir ffydd, i adnabod gogoniant y Drindod. ac yn nerth y Dwyfol Fawredd i addoli'r Undod. *Gweddî*—Am nerth i gadw ac amddiffyn y ffydd hon yn ddiysgog, er pob gwrthwynebiad. .

## BOREUOL WEDDI.

215.

8AU.

[190.]

'DOES mesur amseroedd byth fry,  
 Dim oriau cyffelyb i'r byd:  
 Myn'd heibio rhyw oesoedd y sy,  
 Wrth ganu i'r Drindod yng nghyd;  
 Y nerth, yr anrhydedd, a'r clod,  
 Y parch, y gogoniant, a'r bri,  
 Yr awrhon, ac felly bu erioed,  
 I'n Harglwydd yn Un ac yn Dri.

Mae'n ddiau Dri Pherson yn bod,  
 Ac eto mewn sylwedd ond Un,  
 Gogyfuch mewn gallu a chlod,  
 Wrth wared plant Adda'n gytûn:  
 Yn hyn rhyw ddyfnderoedd y sydd,  
 Diwaelod, anfeidrol eu maint,  
 Er hyny eu credu trwy ffydd,  
 Yw sylfaen holl gysur y saint.

216.

M. H.

I'r Tad a'i gariad rhoddwn glod;  
 O'r Ffynnon nefol hon mae'n d'od  
 Afonydd o lawenydd fry,  
 A'r ffrydiau cysur yma sy.

Gogoniant i Fab Duw o'r nef,  
 O'i fynwes hoff friwedig Ef  
 Daeth gwerthfawr ffrwd o fywiol waed  
 Rydd ini fywyd a iachâd.

Rhown glod i'r Ysbryd Glân bob pryd,  
 Hwn yn ein calon ddrwg a ddyd  
 Ei ras, fel ffynnon fywiol hardd  
 Ag i ogoniant fyth a dardd.

I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,  
 Un Duw gogyfuwch diwahân,  
 Boed moliant ac addoliad cu  
 Gan bawb trwy'r byd a'r nefoedd fry.

217.

M. C.

CYDUNWN â'r angylion glân  
 O gylch yr orsedd fry;  
 Tafodau fyrdd sy'n seinio'r gân,  
 Ond un eu testyn sy.

Teilwng yw'r Oen, medd teulu'r nef,  
 O'r clod, a'r parch, a'r bri;  
 Teilwng yw'r Oen, byth fydd ein llef,  
 Bu farw drosom ni.

Iesu sy deilwng byth i gael  
 Pob urddas, nerth, a chlod;  
 Bendithion fyrdd i'n Harglwydd hael  
 Byth, byth, a fyddo'n bod.

Doed pawb goruwch ffurfafen faith,  
 A'r ddaiar laith yn un,  
 I foli Duw a'i ryfedd waith  
 Yn iachawdwriaeth dyn.

Doed y gre'digaeth yn ei rhyw,  
 A phobpeth byw mewn hoen,  
 Am iachawdwriaeth dynol ryw  
 I ganmol Duw a'r Oen.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

218.

M. C.

Duw Dad, Creawdwr nef a llawr,  
 Dadganwn 'nawr dy glod;  
 Yr unig ddoeth, Iehofah mawr,  
 Anfeidrol, fythol Fod.

Gorseddi mewn goleuni pur,  
 Rhy glir i'r engyl glân:  
 Y penaf wyt, a Ffynnon fawr  
 Y Drindod ddiwahân.

Nis gall angylion nefoedd fawr  
 Dy ddirnad byth yn llawn;  
 Er hyn fe'th welir ar y llawr,  
 Yng ngwawr dy nefol ddawn.

Dy Hanfod Di, oruchaf Ior,  
 Rhyw fôr anfeidrol yw;  
 Cyduned lluoedd nef a llawr  
 I foli d'enw gwiw.



219.

8. 7.

[193.]

BENDIGEDIG yn barchedig,  
 Fyddo enw Tri yn Un,  
 Drefnodd draw mewn arfaeth foreu,  
 Ffordd yn gyfiawn gadw dyn;  
 Cyfraith sanctaidd mewn anrhydedd,  
 A chyfiawnder ar ei draed;  
 Euog ddyn a pherffaith Dduwdod  
 'Nawr mewn cymmod yn y gwaed.

Boed i'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd,  
 Un Duw hyfryd diwahân,  
 Mewn gorfoledd, bob gwir foliant  
 A gogoniant fyth ar gân;  
 Fel yr oedd o dragwyddoldeb,  
 Mae mewn undeb hyd yn awr;  
 Bod heb ddim cyfnewidioldeb  
 Fydd i dragwyddoldeb mawr.

220.

M. S.

Y TAD, y Mab, a'r Ysbryd Glân,  
 Duw hunanymddibynol,  
 Creawdwr nefoedd, tir, a môr;  
 Hwn yw fy Ior anfarwol!

Mae'n hollbresennol ym mhob man,  
 Mae'n llenwi anfeidroldeb;  
 Fel uchder nef, mae dyfnder ton  
 Yn noeth ger bron ei wyneb.

Duw Hollalluog ar bob llaw,  
 I'w filwr daw gorfoledd:  
 Caed hollwybodol berffaith Fod,  
 Is, uwch y rhod, anrhydedd.

Y Sul Cyntaf gwedi'r Drindod.

COLLECT.—Duw yn nerth pawb oll ag sy'n ymddiried ynddo.  
 Addefiad o wendid ein marwol anian i wneuthur dim da heb  
 Dduw. *Gweddî*—Am gymhorth gras i gadw gorchymmyn-  
 ion Duw, fel y rhyngom fodd iddo ar ewyllys a gweithred.

BOREUOL WEDDI.

221.

7. 6.

[196.]

Fy enaid, gwel fath noddfa  
 Ddiysgog gadarn yw,  
 Ym mhob rhyw gyfyngderau,  
 Tragwyddol ras fy Nuw;  
 Ac yma boed fy nhrigfan,  
 A fy nhawelaf nyth,  
 Yn nyfnder fy nhrallodau,  
 Sef tan ei aden byth.

Fe all i'r lan fy nghodi,  
 O ddyfnder llwch y byd,  
 A gwneyd pob drwg a gwrddwyf  
 Droï er daioni i gyd,  
 Rhoi olew o lawenydd  
 Yn wastod ar fy mhen,  
 A'm dwyn trwy foroedd dyfnion,  
 I ganol nefoedd wen.

222.

M. H.

[195.]

O IOR! Preswyllydd mawr y berth,  
 Y Ffynnon fawr o ras a nerth,  
 Rho ynom lef, a chlyw ein cwyn,  
 Dy iau a'th groes dysg in' eu dwyn.

Os rhaid in' beunydd ddwyn y groes,  
 Tra pery gyrfa fer ein hoes,  
 O Arglwydd! dyro help dy fraich,  
 I gynnal gweinion dan eu baich.

Mewn cyfyngderau, saif o'n plaid  
 Yn gadarn Dŵr, a nerth wrth raid,  
 Yn Dad, yn Frawd, yn Briod bydd,  
 Hyd angeu a thrwy fythol ddydd.

223.

M. C. RHAN I.

GWIR noddfa gref a nerth i ni  
 Yw Duw o'i gariad hael;  
 Ym mhob cyfyngder clyw ein cri,  
 Mae'n gymhorth hawdd ei gael.

Pe siglai seiliau'r ddaiar fawr,  
 A'i holl fynyddoedd hi,  
 I ganol môr pe treiglent lawr,  
 Er hyn, nid ofnwn ni.

Mae Ior y lluoedd gyda ni  
 Yn ymddiffynfa gref;  
 Duw Iago yw, pob mawl a bri  
 Boed byth i'w enw Ef.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

224.

M. C. RHAN II.

MAE afon bur o ddyfroedd byw,  
 A'i gloew ffrydiau hi  
 A lawenhânt hardd ddinas Duw,  
 Mor uchel yw ei bri.

Preswylfa y Goruchaf Un  
 Yw Salem, enwog dre';  
 Hon yw ei gyssegr Ef ei Hun,  
 Ei hoff ddewisol le.

Ac yn ei chanol mae Duw nef,  
 Nid ysgog Sion lawn;  
 Ei chynnorthwyo a wna Ef,  
 A hyny'n foreu iawn.

225.

M. H.

YR iachawdwriaeth fawr yng Nghrist!  
 Swn melus hyfryd yw i'n clust;  
 Balm cryf i'n clwyfau o bob rhyw,  
 A chordial i'n rhag ofnau yw.

Mewn bedd o bechod gorwedd bu  
 Ein henaid, wrth ddrws uffern ddu;  
 Ond codi 'r fym, trwy ras ein Duw,  
 I weled nefol ddydd a byw.

Aed swm yr iachawdwriaeth fawr  
 O ddeutu'r ddaiar faith yn awr;  
 A boed i'r nef a'i llucedd llon  
 Gyfodi'u llef i seinio hon.

O! PA ryw gariad rhad  
 A roes y Tad ar ddyn:  
 Ein codi o'r llwch a'n galw'n llon  
 Yn feibion iddo ei Hun.  
 Cyfodi mae i'w hedd  
 Etifedd uffern ddu,  
 Gan osod hwn ym mhlith ei blant;  
 O! pa ogoniant ou.

Gwna fi, O Arglwydd cun,  
 Yn un o'th gywir blant;  
 Dod nerth i ddyfod ar dy ol,  
 Gan ado bydol chwant:  
 Byw'n wastad yn dy wedd,  
 A'th hedd yn wir fwynhâd,  
 A dysg fi, mewn hyfrydol sain,  
 I lefain, Abba, Dad.

### Yr Ail Sul guedi'r Brindod.

COLLECT.—Parodrwydd Duw i gynnorthwyo a llywodraethu ei blant. *Gweddi*—Am gael ein cadw dan ei ddarbodus nodded, ac ofni a charu ei Enw bendigedig.

#### BOREUOL WEDDI.

TYRED, Arglwydd, i'r anialwch,  
 Yma buost Ti o'r blaen,  
 Arwain bererin llesg difedr  
 A dy golofn niwl a than;

Dal fy ysbryd sy'n llewygu  
 Gan ryw ofnau o bob man;  
 Yn dy allu 'rwyf yn gadarn,  
 Hebot Ti nid wyf ond gwan.

O drugaredd pen Calfaria,  
 Sydd yn llawer lled na'r byd !  
 Yma'n unig mae fy ngobaith  
 Sefyll mewn anfeidrol lid;  
 'Rwy'n ymwadu'r oll a feddaf,  
 Ac yn addef fedda'i ddim;  
 Iesu ei Hunan yw fy haeddiant,  
 Iesu ei Hunan yw fy ngrym.

228.

10AU.

[201.]

CYFAMMOD hedd, cyfammod cadarn Duw,  
 Ni syfl o'i le, nid ie a nag e yw;  
 Cyfammod gwir, ni chyfnewidir chwaith;  
 Er maint eu pla, daw tyrfa i ben eu taith.

Cyfammod rhad, o drefniad Un yn Dri,  
 Hen air y llw, a droes yn elw i ni;  
 Mae'n ddigon cryf i'n codi fyny'n fyw,  
 Ei rym o hyd yw holl gadernid Duw.

229.

7. 6.

[202.]

O ARGLWYDD, dysg im' chwilio  
 I wirioneddau'r gair,  
 Nes d'od o hyd i'r Ceidwad,  
 Fu gynt ar liniau Mair:

Mae Ef yn Dduw galluog,  
 Yn gadarn i iachâu,  
 Er cymmaint yw fy llygredd,  
 Mae'n Ffynnon i'm glanhau.  
 Pa Dduw ym mhlith y duwiau,  
 Sydd debyg i'n Duw ni?  
 Mae'n hoffi maddeu'n beiau,  
 Mae'n hoffi gwrando'n eri:  
 Nid byth y deil eiddigedd,  
 Gwell ganddo drugarhau,  
 Er maint ein hannheilyngdod,  
 Mae'i gariad yn parhau.  
 PRYDNAWNOL WEDDI.

230.

M. H.

Fy Nuw! Ti'm chwiliaist ym mhob rhan,  
 Mae'th lygad arnaf ym mhob man,  
 A'th dadol nawdd o'm cylch y sydd  
 Yng nghwsg y nos, yn effro'r dydd.

Cyn deffry'r amcan yn fy mryd,  
 Gwyddost ei ymgyrch yn y byd;  
 Pob sill o'm llafar gwyddost Ti  
 Cyn llunir yn fy meddwl i.

Buandra mellt pe'i meddwn i,  
 B'le ciliwn rhag d'olygon Di?  
 Pa fan o'r holl fydysawd maith,  
 Na'th gawn i'm canlyn ar fy nhaith?

Pe 'mhell y dringwn uwch law'r ser,  
 Yno mi'th gawn, fy nefol Ner;  
 Yn eitha'r dyfnder tywyll draw,  
 Cawn Di'n fy nghynnal yn dy law.

Boed hyn i'm cof, ac arno'n ddwys,  
 Dy fod yn ddibaid wrth fy mhwys;  
 Ac i'm cylchynu mae bob awr  
 Dy gariad maith, a'th allu mawr.

231.

6. 8.

UDGENWCH, weision Duw,  
 Yr udgorn arian mawr,  
 A chlywed dynol ryw  
 Dros barthau daiar lawr:  
 Blwyddyn y Iubili a ddaeth,  
 A rhyddid cu i'r enaid caeth.

Trowch, bechaduriaid trist,  
 Wrth lais efengyl fwyn,  
 O'ch cyflwr caeth at Grist—  
 Efe a wrendy'ch cwyn:  
 Blwyddyn y Iubili a ddaeth,  
 A rhyddid cu i'r enaid caeth.

Dadseinied gras ein Duw  
 Trwy holl derfynau'r byd,  
 A doed ei deyrnas wiw  
 Dros gyrau hwn i gyd:  
 Blwyddyn y Iubili a ddaeth,  
 A rhyddid cu i'r enaid caeth.



232.

8. 7.

TRANO i'r bedd ac angeu i angeu  
 Ydyw Iesu Grist a'i groes;  
 Anllygredig wlad i'r goleu  
 Ddygodd trwy ei farwol loes:  
 Deffry'r meirwon oll sy'n cysgu,  
 Daw'r arehangel i roi llef;  
 Rhai hunasant yn yr Iesu  
 Ddwg Duw hefyd gydag Ef.

Y Crëdndd Sul gwedi'r Brindod.

COLLECT.—Duw yn rhoddi meddylfryd calon i weddio i'w bobl. *Gweddî*—Am iddo trwy ei fawr nerth ein ham-ddiffyn a'n dyddanu ym mhob perygl.

## BOREUOL WEDDI.

233.

M. H.

[206]

BENDIGAID fyth fo enw Duw,  
 'R hwn wnaeth fy enaid marw'n fyw:  
 Ac a'm cyfododd fel o'm bedd,  
 I gael mwynhau ei ras a'i hedd.  
 Pan 'ro'wn yn gorwedd yn fy ngwaed,  
 Edrychodd Duw o'r nef yn rhad;  
 A d'wedodd, "Yn dy waed bydd fyw,"  
 Rhof iddo glod, fy nyled yw.  
 Pan oedd euogrwydd heb ddim hedd,  
 Ym mron â'm gwasgu'n is na'r bedd;  
 A'm holl bechodau'n codi'n llu,  
 Dadguddiodd Duw ei Fab i mi.

234.

M. B.

NIS gallai gwaed yr holl  
 Aberthau i gyd o'r bron  
 Roi heddwch i'r gydwybod ddu,  
 Na golchi bryntni hon

Ond Crist, y nefol Oen,  
 A ddug bechodau'r byd;  
 Ei aberth Ef a'i waed sydd fwy  
 Na phwysau'r rha'n i gyd.

Af ato fel yr wyf,  
 I 'mofyn am iachâd;  
 A'm holl bechodau addef wnaf,  
 Yn isel wrth ei draed.

Gwnaeth Iesu gymmod llawn,  
 Dyoddefodd angeu loes:  
 Y clod didrai, y mawl dilyth,  
 Fo byth am waed y groes.

235.

M. C.

[208.]

Ti yw fy Arglwydd i a'm Duw,  
 Fy noddfa gadarn gref,  
 Fy unig gysur, f'unig ffrynd,  
 Fy nghwbl is y nef.

Mi rof fy ngofal arno'i Hun,  
 Doed y blinderau ddêl;  
 A'i addewidion gaiff fod im'  
 Megys y diliau mêl.

Ac nid oes onid gallu'm Duw,  
 A'm dal i'r lan yn lân,  
 Ac mi rown arno 'mhwys a 'mryd  
 Pe elai'r byd ar dân.

## PRYDFAWNOL WEDDI.

236.

8. 7. 4.

[209.]

DAOW uffern yn ei harfau,  
 Dyma bechod yn ei rym,  
 Dyma'm hofnau innau'n bygwth  
 N'allaf eu concwero ddim;  
 Gallu'r nefoedd, tyr'd i waered, dyma'r awr.  
 Dysg y galon drist i chwerthin,  
 Dysg y mudan seinio cân,  
 Dysg yr ofnus gwan i gludo,  
 Uffern fawr i lawr o'i flaen;  
 Dod wylofain yn ganiadau Calfari.

237.

M. N.

Ffordd Duw sydd yn y dyfroedd,  
 A'i lwybrau oll yn gudd,  
 Er hyny dônt yn amlwg,  
 Pan ddelo'r hynod ddydd:  
 Holl droion maith rhagluniaeth,  
 Bydd pelyderau Duw  
 Yn dangos eu cymhwysder  
 I bob creadur byw.

Gan hyny ymdawelwn  
 Mewn gostyngeddwrwydd gwiw,  
 A gwir fwyneidd-dra duwiol,  
 Mewn 'stormydd o bob rhyw:  
 Pob awel lem anhyfryd  
 Sy'n ol yr arfaeth gynt,  
 Ac arni yn marchogaeth  
 Mae Arglwydd mawr y gwynt.

238.

8. 7.

[211.]

MAE rhyw foroedd o drugaredd,  
 Arglwydd, ynot Ti dy Hun,  
 Annherfynol a thragwyddol,  
 Yw dy gariad at y dyn;  
 Mewn cyfyngder buost ffyddlon;  
 Yno rhoist dy nerth i maes,  
 Yn y dyfnder mawr 'rwyf finnau,  
 'Nawr yn llefain am dy ras.

Derfydd imi garu ac ofni  
 Dim o'r nefoedd fawr i'r byd,  
 Pan y caffwy'r olwg gyntaf,  
 Deced yw dy wyneb pryd;  
 Gwedd dy wyneb sy'n dwyn bywyd,  
 Gwedd dy wyneb sy'n dwyn hedd,  
 Gwedd dy wyneb ydyw'r cwbl  
 Yma a thu draw i'r bedd.

## Y Pedwerydd Sul gwedi'r Brindod.

COLLECT.—Duw! yn Noddwr, Llywiawdwr, a Thywysog ei bobl; heb yr Hwn nid oes dim nerthog a sanctaidd.  
*Gweddî*—Am nerth i dreiddio trwy bethau, y byd hwn, fel na cholom y nef pan yn ei adael ef.

239.

BOREUOL WEDDI.

M. H.

GWAITH hyfryd iawn a melus yw  
 Moliannu'th enw Di, O Dduw!  
 Son am dy gariad foreu glas,  
 A'r nos am wirioneddau'th ras.

Dy sanctaidd hyfryd wyl yw hon,  
 Na flined gofal byd mo'm bron;  
 O boed fy nghalon i mewn hwy!,  
 Fel telyn Dafydd ar yr wyl!

Yn Nuw fy nghalon lawenhâ,  
 Bendithio ei waith a'i air a wna,  
 Mor hardd yw gwaith dy ras, O Dduw!  
 A'th gyngor Di mor ddyfned yw!

Mae gwir lawenydd ger dy fron  
 Yn ffrydiau pur i loni'm mron;  
 A mi gaf lawn ogoniant fry,  
 Pan buro gras fy nghalon i.

Caf wel'd a chlywed yno 'nghyd,  
 Oll a ddymunais yn y byd;  
 A'm henaid oll gaiff felus waith,  
 Yn y tragwyddol wynfyd maith.

240.

8. 7.

TRAGWYDDOLDEB, mawr yw'th enw,  
 Ti yn fuan fydd fy lle;  
 Teithiwr un diwrnod ydwyf,  
 O am gartref yn y ne!  
 Mae'm diwrnod bron a gorphen,  
 Mae fy haul bron myn'd i lawr,  
 Mae pob awel yn fy chwythu  
 Tua'r tragwyddoldeb mawr.

Tragwyddoldeb, mawr yw'th enw,  
 Byd o sylwedd wyt yn wir,  
 Bydd dy wae neu ynte'th wynfyd,  
 Imi'n gyfran cyn bo hir;  
 Am gan miloedd o filiynau  
 Mae dy ddorau yn ymgau;  
 Beunydd, beunydd, pob mynydyn,  
 I'th eangder 'rwy'n nesáu.

241.

8. 7. 3.

[213.]

N'AD fi adeiladu'n ysgafn  
 Ar un sylfaen is y ne',  
 Na chymmeryd craig i orphwys  
 Tu yma i angeu yn dy le;  
 Ti fy Nuw, tra bwy'i byw,  
 Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw.

Dyma'r maen sydd yn y gongl,  
 Dyma'r gareg werthfawr bur,  
 Gloddiwyd allan yn y bryniau,  
 Bryniau tragwyddoldeb dir;  
 Nid oes le, is y ne.  
 I adeiladu ond Efe.

Minnau'r gwaelaf o bechaduriaid,  
 Yn y diwedd rof fy nhroed,  
 Ar y graig sydd yn y moroedd,  
 Craig gadarnaf fu erioed;  
 Ceidw hon, rhag pob ton,  
 Ofnau ffwrdd o dan fy mron.

PRYDNAWNOL WEDDI.

242.

M. H.

BETH dâl im' roi fy serch a'm bryd,  
 Ar ddim a welais yn y byd?  
 Da, daiar, dyn, pa gysur yw,  
 Y dydd y dêl digofaint Duw?

Pe cawn y byd i gyd yn grwn,  
 A byw flynyddoedd fil yn hwn,  
 Ni byddai ond gofidiau blin,  
 Heb feddu heddwch Duw ei Hun.

Pan bwy'n gwynebu angeu du,  
 Heb gael ond cefn pob cyfaill cu,  
 Pryd hyn, pwy helpia'm henaid gwan,  
 I ddringo o'r anial fyd i'r lan.

Pam carai'r byd a'i wagedd mwy?  
 Hyd angeu'n brin y deuant hwy;  
 Gwell imi garu'r Gwr a ddaw  
 Yn angeu i 'maflyd yn fy llaw.

243. 8. 7. [217.]

FFARWEL i chwi gynt a gerais,  
 Ni ddaw'ch cwmni, ni ddaw'ch gwedd,  
 Nid yw'r cariad sy'n eich calon  
 Ragor na d'od hyd y bedd;  
 Pan ddél angeu chwi ffowch ymaith,  
 Da i mi fod genyf Dduw,  
 Ffrynd fo gyda'f wedi marw,  
 Hwnw garaf tra bwyf byw.

Mae 'nghyfeillion wedi myned  
 Draw yn lluoedd o fy mlaen,  
 Rhai fu'n teithio ddyffryn Baca,  
 Gyda mi i Salem lân;  
 Yn y dyffryn tywyll, garw,  
 Ffydd i'r lan a'u daliodd hwy,  
 Mae'r addewid lawn i minnau,  
 Pam yr ofna'm henaid mwy?

244. 8. 7. 4. [215.]

CHWILIO am danat, addfwyn Arglwydd,  
 Mae fy enaid yma a thraw;  
 Teimlo 'mod i'n berffaith ddedwydd  
 Pan y byddi Di ger llaw;  
 Gwedd dy wyneb, yw fy mywyd yn y byd.



Ti wy'n 'mofyn; Arglwydd, tyred;  
 Ym mhob trallod bydd ger llaw;  
 Dilyn fi, 'rwy'n ofni yma,  
 Dilyn fi, 'rwy'n ofni draw;  
 Dan dy aden, mi edrycha 'ngwyneb llu.

Y Pŷmmed Sul gwedi'r Brindod.

COLLECT.—*Gweddi*.—Am i helynt y byd hwn, trwy reolaeth Duw, gael ei drefnu mor heddyhol, fel gall yr Eglwys ei wasanaethu yn llawen ym mhob duwiol heddwch.

BOREUOL WEDDI.

245. 8. 7. 4. [218.]

Duw, teyrnasa ar y ddaiar,  
 O'r gorllewin bell i'r de,  
 Cymmer feddiant o'r ardaloedd  
 Pellaf, t'wyllaf, is y ne';  
 Haul Cyfiawnder, llanw'r ddaiar fawr â'th ras.  
 Taened gweinidogion bywyd  
 Iachawdwriaeth Crist ar led,  
 Cluded moroedd addewidion  
 Drosodd draw i'r rhai digred;  
 Aed efengyl, ar adenydd Dwyfol wynt.  
 Doed preswylwyr yr anialwch,  
 Doed trigolion bro a bryn,  
 Doed y rhai sydd ar y cefnfor  
 I ganu'r iachawdwriaeth hyn;  
 Nes bo adsain moliant yn amgylchu'r byd.

246.

8. 7.

[220.]

Y MAE'R dyddiau wedi gwawrio,  
 Clywir swn yr udgorn mawr,  
 Llais efengyl fwyn yn seinio  
 Drwy holl barthau'r ddaiar lawr;  
 Y mae'r swper heddyw'n barod,  
 Allan aed cenadon hedd,  
 A chymheller pawb i ddyfod  
 Mae pob llawnder yn y wledd.

Daw y dydd i'r had breninol  
 Gael mordwyo tua'u gwlad,  
 O gaethiwed y priddfeini,  
 I deyrnasu gyda'u Tad:  
 Eu ffydd yno dry yn olwg,  
 Gobaith eiddil dry'n fwynhâd;  
 Annherfynol fydd yr anthem,  
 Moli'r Oen a'i werthfawr waed.

247.

M. H.

DYRCHAFED pawb sydd is y rhod  
 I'w Crëwr glân ddyledus glod,  
 Bendithier enw'r Prynwr mad  
 Gan bob rhyw iaith, ym mhob rhyw wlad.

Anfeidrol dy drugaredd, Dduw;  
 Dy berffaith air tragwyddol yw;  
 Seinir dy glod trwy'r bydoedd maith,  
 Pan dderfydd haul a lloer eu taith.

## 248. PRYDNAWNOL WEDDI. M. C.

YR ŷm yn dysgwyl gweled gwawr  
 Boreuddydd Iubili,  
 Pan ddelo holl derfynau'r llawr  
 I garu'n Harglwydd ni.

Ac, O na ddeuai'r ddaiar faith  
 I gredu yn y gwaed!  
 O doed ar frys bob llwyth ac iaith  
 At Grist i gael iachâd.

Fe gân y Negroes tywyll, du,  
 Yn hyfryd maes o law,  
 Pan d'wyno gwawr efengyl gras  
 Dros dir yr India draw.

I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,  
 Rhown fawl ar gân i gyd;  
 Sain Haleliwia fo'm mhob man,  
 Trwy bedwar ban y byd.

## 249. 9. 8. [221.]

YN Sion, perffeithrwydd pob tegwch,  
 Llewyrcha Duw'r heddwch o hyd,  
 Ac yno addawodd breswyllo  
 Hyd nes y dybeno F'e'r byd:  
 Bydd hon yn dra llon mewn llawenydd,  
 Gan fyned ar gynnydd tra gwiw;  
 A mawrfri roir iddi'n wir addas,  
 Fel palas a dinas ein Duw.

250.

M. S.

[223.]

O CYFOD, Arglwydd, i dy lys,  
A'th arch o rymus fawredd;  
Gwisged d'offeiriaid gyfiawn fraint,  
Gwisged dy saint wirionedd.

Cadw dy bobl, Arglwydd da,  
Bendithia d'etifeddiaeth:  
Dyrcha hwynt byth, gwna iddynt fod  
Dan gysgod dy lywodraeth.

Ein holl gynnorthwy ni a'n llwydd  
Sy'n nerth yr Arglwydd hawddgar,  
Yr Hwn trwy waith ei ddwylaw Ef  
A greodd nef a daiar.

### Ŷ Chwarched Sul gwedi'r Drindod.

COLLECT.—Cyfraniadau daionus Duw i'w bobl. *Gwedd*—  
Am dywalltiad e'r fath serch i'n calonau, fel gan garu  
Duw uwch law pob dim, allu o honom fwynhau ei  
addewidion.

251.

BOREUOL WEDDI.

8AU.

Ŷ. YR Arglwydd Dduw im' gymhorth rydd,  
Fe a'm bugeilia nos a dydd:  
Ei wedd ddiwalla'm rheidiau oll,  
A gwylia fi rhag myn'd ar goll,  
Canlyna'm llwybrau hyd y dydd,  
Yn oriau'r nos ymgeledd rydd.

Pan y sychedaf ar y maes  
 Pan wywaf ar fynyddoedd cras,  
 I'r borfa fras, a'r wllithawg ddôl,  
 Arweinia'm llwybrau gau yn ol,  
 Lle rhed afonydd dyfroedd pur,  
 Yn araf drwy'r Baradwys dir.

Er teithio llwybrau angeu du,  
 Yn llawn o ddychryn ar bob tu;  
 Nid ofnaf fraw, na drygau ddim:  
 Can's Ti, O Dduw, wyt noddfa im';  
 Gwna'th dirion ffon fy nghynnal i,  
 A'm tywys drwy y caddug du.

Er garwed yma yw fy nhaith,  
 Yng nghanol blin anialwch maith;  
 Yn amllder dy ddaioni Di  
 Fe wena'r crasdir arnaf fi:  
 Coronir ef a gwyrddlas liw,  
 A thardd afonydd dyfroedd byw.

252.

8. 7.

Iesu, Ti wyt ffynnon bywyd, !  
 Bywyd dedwydd i barhau,  
 Pob cysuron is y nefoedd,  
 Ynot Ti dy Hun y mae;  
 Nis gall croes, na gwae, na chystudd,  
 Wneuthur niwed iddynt hwy  
 Gafodd nerth i wneyd eu noddfa  
 Yn dy ddwyfol farwol glwy'.

Dyna'r man na ddaw euogrwydd,  
 Dyfais satan fyth, na chwant;  
 Awel nef, sydd yno'n cadw  
 Pob rhyw ddrygau oll i bant;  
 Nid oes rhuad môr na'i ddnau,  
 Na thymmestloedd o un rhyw,  
 Ond rhyw bur dangnefedd hyfryd  
 Yn archollion f'anwyl Dduw.

253.

6. 8.

[226.]

RHOWCH glod i'r uchel Dduw,  
 Ior nef a daiar las;  
 Brenin breninoedd yw,  
 Rhyfedded pawb ei ras :  
 Trugaredd Duw a bery byth,  
 A'i air dilyth safadwy yw.

Pan oeddym ni ar goll  
 Trwy bechod oll i gyd,  
 O'i ras tosturio wnaeth  
 Wrth gyflwr caeth y byd :  
 Trugaredd Duw, &c.

Clodforwch bawb yn awr  
 Greawdwr mawr y nef,  
 A chaned daiar faith  
 Am waith ei gariad Ef :  
 Trugaredd Duw, &c.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

254.

8. 8. 8.

[227.]

CHWI weision Duw, molwch yr Ion,  
Molwch ei enw â llafar dôn;

Bendigaid fyddo'i Enw Ef;  
O godiad haul hyd fachlud dydd,  
Mawr enw'r Ion moliannus fydd,  
Yn y byd hwn ac yn y nef.

Dyrchafodd Duw uwch yr holl fyd,  
A'i foliant aeth uwch nef i gyd;

Pwy sydd gyffelyb i'n Duw ni?  
Yr hwn a breswyl yn y nef,  
I'r ddaiar hon ymostwng Ef,  
Gwel Ef ein cam, clyw Ef ein cri.

255.

M. C.

MOR ogoneddus yw ein Duw,  
Sy'n byw yn uwch na'r nef!  
Pa fodd y cân plant gwael y llawr  
Ei fawr ogoniant Ef?

Pwy dd'wed mor fawr ei ddwyfol nerth,  
Neu werth ei ras ychwaith?  
Nid meibion llwch, na nefol saint,  
Er maint eu doniau maith.

'R angylaid lu o'i flaen ni ŵyr  
Yn llwyr ei feddwl cudd;  
Ond hwy, tra'i gyfiawn air a wnânt,  
A'i molant nos a dydd.

Gan hyny, gad in' uno yng nghyd  
 A'r byd sancteiddiol fry;  
 Fe dderbyn y tragwyddol Fod  
 Y clod o'n geneu ni.

Ein calon a ddarpara glod,  
 Ein tafod parod yw;  
 A llawenycha teulu'r nef  
 Pan cwyd ein llef at Dduw.

256.

M. H.

Duw, er mor eang yw dy waith,  
 Yn llanw'r holl greadigaeth faith,  
 'Does dim trwy waith dy ddwylaw oll,  
 At gadw dyn fu gynt ar goll.

Dyma lle mae dy anfeidrol ras,  
 Hyd eitha'n cael ei daenu maes;  
 A holl lyth'renau d'enw gawn,  
 Yn cael eu dangos yma'n llawn.

Ar Galfari rhwng dai'r a nef,  
 Llewyrchodd ei ogoniant Ef:  
 Un haul ymguddiodd y prydawn,  
 A'r llall a wnaed yn eglur iawn.

Nid oedd ond gwaed 'sgrifenai i gyd  
 Ddyfnderoedd mawr anfeidrol lid;  
 Nid oedd ond gwaed osodai maes  
 Derfynau'r gwaredigol ras.



## Y Seithfed Sul gwedi'r Brindod.

COLLECT.—Yr Arglwydd yn nerth ei bobl, ac yn awdwr a rhoddwr pob daioni. *Gweddi*—Am blanu ynom gariad at ei enw; ychwanegu ynom wir grefydd; a'n maethu a phob daioni.

### BOREUOL WEDDI.

257.

M. C.

O Dduw! ein nawdd amseroedd gynt,  
 Ein gobaith oesau i dd'od;  
 Ein noddfa rhag rhyferthwy'r gwynt,  
 Ein trigfa uwch y rhod!

Dy blant, dan gygod d'orsedd Di,  
 Drigasant yn ddifraw:  
 Digonol yw dy gymhorth gry',  
 Diogel yw dy law.

Cyn llunio nef, a thir, a môr;  
 Cyn gosod sail y hyd;  
 O dragwyddoldeb wyt yn Ior,  
 Didranc, yr un o hyd.

Mil o flynyddau ger dy fron  
 Fel un diwrnod sydd,  
 Neu wyliaedwriaeth nos, yr hon  
 A ffy rhag haulwen dydd.

Amser a glud, fel llif didrai,  
 Ei meibion oll i bant;  
 Ac fel breuddwydion, ar ol hun,  
 I dir yr anghof ânt.

O Dduw! ein nawdd amseroedd gynt,  
 Ein gobaith oesau i dd'od;  
 Bydd Di ein cymhorth ar ein hynt,  
 A'n trigfa uwch y rhod.

258.

M. S.

[230.]

CLODFORWCH bawb ein Harglwydd Dduw,  
 Doed dynol ryw i'w ganmol;  
 Ei hedd fel afon fawr ddidrai  
 Gaiff ddwfrhau ei bobl.

Ei air a'i ammod cadw wna,  
 Byth y parhá'i ffyddlondeb;  
 Nes dwyn ei braidd o'u poen a'u pla,  
 I hyfryd dragwyddoldeb.

Pan ballo ffafr pawb a'u hedd,  
 Duw o'i drugaredd odiaeth;  
 Yn Dad, yn Frawd, yn Ffrynd a fydd,  
 Ar gyfyng ddydd marwolaeth.

259.

8. 7.

MAE cymylau a thywyllwch  
 Yn amgylchu'r Arglwydd Ior;  
 Uniawn yw ei lân lywodraeth  
 Dros derfynau tir a môr;  
 Mae ei sail ar bur gyfiawnder,  
 Gwir uniondeb ynddi sydd;  
 A chawn weled fod ei throion  
 Oll yn gysson iawn ryw ddydd.

Dyrys droion wrth y miloedd  
 Sy'n cyfarfod Sion Duw,  
 Ar ei gyrfa trwy'r anialwch  
 Tua'i hetifeddiaeth wiw:  
 Gan fod agoriadau'r nefoedd,  
 A dyfnderoedd uffern fawr,  
 Oll yng nghadw gan ei Phriod,  
 Daw o'i thrallod fel y wawr.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

260.

M. H.

TEYRNASU mae ein Harglwydd mawr,  
 Aed ffwrdd ein holl ofidiau'n awr;  
 Llawenydd lanwo'r ddaiar gron,  
 A'i holl ynnysoedd bras o'r bron.

Cymylau a thywyllwch du,  
 Yn fynych iawn o'i amgylch sy,  
 Ond cyfiawn farn yw sylfaen gref,  
 A thrigfa ei orseddfaine Ef.

O chwi sy'n caru Duw, casewch  
 Y drwg, a'i lân ewyllys gwnewch:  
 Eneidiau'i saint a geidw'n gu  
 Oddi wrth holl faglau uffern ddu.

I'w seintiau hoff yr hauwyd had  
 Goleuni pur y nefol wlad;  
 Llawenydd yn addfedu sy  
 O'u cylch fel cnwd i'r nefoedd fry.

261.

M. C.

[233]

O CYMMER fy serchiadau'n glau,  
Fy Iesu, bob yr un;

A gwna hwy yn eisteddfod bur,  
Sancteiddiaf it' dy Hun.

A gwna bob meddwl a phob chwant  
I dynu fyny fry;

Nas gwthio holl derfysgau'r byd  
Fi maes o'th gariad cu.

Gorchymmyn imi yno fyn'd,  
Yno mi af yn hy;

Heb fino ar un gair a ddél  
O'th eneu sanctaidd cu.

262.

8. 7. 4.

BETH yw'r ofn sydd yn fy nghalon  
Am drallodion eto i dd'od;

'Run yw'r Arglwydd cadarn ffyddlon,  
Fe a'm cynnal er ei glod:

Ym mhob 'stormydd,  
Deil i fyuy f'enaid gwan.

Pe hai arna'i'r byd yn gwgu,  
Heb le genyf ar y llawr;

Uffern greulon arna'i'n chwythu  
Dyfnder llid y fagddu fawr,

Ym mhob 'stormydd,  
Gelli wneyd im' lawenhau.

## Yr Wythfed Sul gwedi'r Brindod.

COLLECT.—Helaethrwydd a manylrwydd Rhagluniaeth Duw.  
*Gweddî*—Am gadw oddi wrthym bob peth niweidiol a  
 rhoddi i ni bob peth a fyddo da er ein lles.

### BOREUOL WEDDI.

263.

8. 7.

ARGLWYDD grasol, gwna gyfranau  
 Dy dangnefedd i bob un,  
 Trwy dy air boed in' gynnyddu  
 Ar dy ddelw Di dy Hun;  
 Tyn ein bryd oddi wrth deganau,  
 Gwael eu sylwedd, dilesâd,  
 Ac ennyna'n ein calonau,  
 Serch i'th ddeddfau, Nefol Dad.  
 Rhoddaist ini'r Iesu'n batrwn,  
 Aeth o'n blaen trwy'r byd a'i gur,  
 Nododd ini'r lle y sangwn,  
 Yn ei hardd nodweddiad pur;  
 Beunydd boed ein llygaid arno,  
 Gan graff ddilyn ol ei draed;  
 O'n pechodau cawn ein puro,  
 A'n glân olchi yn ei waed.

264.

M. H.

[236]

DY faith lywodraeth, Arglwydd Ior,  
 Sydd dros y tir a'r eang fôr;  
 Cymylau'r nen, y gwynt a'r gwlaw,  
 Mellt a tharanau sy'n dy law.

Ser a pblanedau, wrth dy aroh,  
 A ufuddhânt i'th air mewn parch;  
 A'r môr, pan godo'i dônau draw,  
 Ostega'n union yn dy law.

Mae pob llywodraeth yn y nef  
 Ac ar y ddaiar ganddo Ef:  
 'Nol ei ewyllys, mae bob awr  
 Yn gwneyd â lluoedd nef a lawr,

265.

M. C.

TRWY ddirgel ffyrdd mae'r uchel Ior  
 Yn dwyn ei waith i ben;  
 Ei ystafelloedd sy'n y môr  
 Mae'n marchog gwynt y nen.

Yng nghudd mewn dwfn fwn-gloddion pur  
 Doethineb wir ddiwall,  
 Trysori mae'i fwriadau clir;  
 Cyflawnir hwy'n ddiball.

Y saint un niwed fyth ni chânt;  
 Cymylau dua'r nen  
 Sy'n llawn trugaredd; gwlawio wnânt  
 Fendithion ar eu pen.

Na farna Dduw â'th reswm noeth,  
 Ond cred ei addewid rad;  
 Tu cefn i len rhagluniaeth ddoeth  
 Mae'n cuddio gwyneb Tad.

Bwriadau dyfnion arfaeth gras  
 Ar fyr addfeda'n llawn;  
 Gall fod y blodau'n chwerw eu blas,  
 Ond melus fydd y grawn.

Ond gwyro mae dychymmyg dyn,  
 Heb gymhorth dwyfol ffydd;  
 Gadëwn i Dduw esbonio ei Hun,  
 Efe dry'r nos yn ddydd.

PRYDNAWNOL WEDDI.

266.

7AU.

WELB'r dydd yn gwawrio draw,  
 Amser hyfryd sy ger llaw;  
 Daw'r Cenedloedd yn gytûn  
 I ddyrchafu Mab y dyn.

Gwelir teyrnas Iesu mawr  
 Yn ben moliant ar y llawr,  
 Gwelir ty ein Harglwydd cu  
 Goruwch y mynyddoedd fry.

Gwelir pobloedd lawer iawn  
 Yn dylifo ato'n llawn;  
 Cyfraith Iesu gadwant hwy,  
 Ac ni ddysgant ryfel mwy.

Fe geir gweled Babel fawr  
 Gwedi syrthio oll i llawr,  
 A'r teyrnasoedd mawr eu bri,  
 Oll yn eiddo'n Harglwydd ni.

267.

6. 8.

[239.]

A HEIBIO'R dywyll nos,  
 Fe ffy cymylau'r nen;  
 Fe ddaw'r addewid wir,  
 A'i geiriau pur i ben;  
 Ceir gwel'd, ceir gwel'd yr hyfryd dir,  
 Ar fyr o dro yn oleu olir.

Mae'r oriau maith eu rhif,  
 Yn dirwyn yn y blaen,  
 Er bod nosweithiau'n hir,  
 O'r diwedd darfod wnan';  
 Cymylau'r nen, er maint eu grym,  
 O flaen y wawr ni safant ddim.

Ni phery ddim yn hir  
 Yn ddu dymmestlog nos,  
 Ni threfnwyd amser maith  
 I neb i gario'r groes:  
 Mae'r hyfryd wawr sy'n tori draw  
 Yn d'weyd fod boreu braf ger llaw.

268.

8. 7. 3.

DEUWCH, hil syrthiedig Adda,  
 Daeth y Iubil fawr o hedd;  
 Galwad sydd ar bawb o'r enw  
 I fwynhau tragwyddol wledd;  
 Bwrdd yn llawn yma gawn,  
 O foreuddydd hyd brydnawn.



Ceisiwch wisgoedd y briodas,  
 Gwisgoedd hyfryd, heirdd eu lliw,  
 Nid oes enw teilwng arnynt  
 Ond cyfiawnder pur fy Nuw;  
 Lliain main ydyw rhai'n  
 Sydd yn cuddio pob rhyw 'staen.  
 Dyma wledd y cewch ddantoithion,  
 Yma cewch faddeuant rhad;  
 Yma chwi gewch brofi cariad,  
 Hedd yn nofio yn y gwaed;  
 Dewch yn awr, dyrfa fawr,  
 Ac eisteddweh yma i lawr.

*Y Nawfed Sul gwedi'r Briudod.*

COLLECT.—*Gweddî*—Am gymhorth yr Ysbryd Glân i feddwl a gwneyd yr hyn sydd gyfiawn, ac yn rhyngu bodd Duw.

BOREUOL WEDDI.

269.

8. 7. 4.

O AM dreulio'r diwrnod sanctaidd  
 Drwyddo'n weddaidd yn dy waith;  
 Gwyl hynodawl a benodaist  
 Pan osodaist un o saith;  
 Dydd i borthi Sion deulu sydd ar daith.  
 Dyro nerth i'th weision heddyw  
 Sefyll dros dy enw mawr,  
 I gyhoeddi Ceidwad enaid  
 I drueiniaid ar y llawr:  
 Ymddysgleiria, tirion wena, tor y wawr.

270.

M. C.

Tyr'd, Ysbryd Glân, Colomen nef,  
A bywyd oddi fry;

Ac ennyn fflam o gariad gwiw  
Yn ein calonau ni.

Ffurfiol ac oeraidd fydd ein cân,  
A'n holl wasanaeth ni,  
Os na fydd ynom nefol dân  
O'th weithrediadau Di.

A gawn ni fod fel hyn o hyd  
Mor farwaidd a diwawr,  
Mor oer ein serch at Brynwr byd,  
A'n dyled ni mor fawr!

Tyr'd, Ysbryd Glân, Colomen nef,  
Yn enw Iesu ou;  
Ac ennyn fflam o'i gariad Ef  
Yn ein calonau ni.

271.

8. 7.

BETH yw'r udgorn glywa'i'n seinio?  
Brenin Siloh sydd yn gwa'dd:  
Pwy sy'n cael eu galw ganddo?  
Pechaduriaid o bob gradd:  
Adre, adre, blant afradlawn,  
Gadewch gibau gweigion ffol;  
Clywaf lais y Brenin heddyw  
'N para i alw ar eich ol.

Pam y geilw'r Brenin arnom?  
 Am ei fod yn llawn o ras:  
 Beth a wna i'r drwg sydd ynom?  
 Gylch â'i waed eich pechod cas:  
 Ei amynedd sydd yn rhyfedd  
 Yn eich goddef hyd yn awr;  
 Plygwch, plygwch i'w drugaredd,  
 Cyn myn'd dan ei lid i lawr.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

272.

6. 4.

DUWIOLEB yn ei grym  
 Sydd werthfawrocach im' nag aur Periw,  
 Hi ddeil fy enaid gwan  
 Yn ddiogel ym mhob man,  
 O'r diwedd dwg fi i'r lan i gol fy Nuw.

Mae agoriadau'r bedd  
 Wrth wregys Brenin hedd; fe ddaw y dydd,  
 Y dydd nodedig yw,  
 Y dydd a drefnodd Duw  
 I godi'r marw'n fyw o'u gwely pridd.

273.

8. 7.

[247.]

ENW Duw yw tŵr fy enaid,  
 Haeddiant gwaed y groes yw 'ngrym,  
 I ddystewi llais euogrwydd,  
 Ac i ladd pob gelyn im':

Yn ei enw ymddiriedaf,  
 Yn ei enw byddaf byw;  
 Ac ni cheisiaf fan i lechu  
 Nac un nefoedd ond fy Nuw.

274.

m. c.

AM angeu'r groes mae canu 'nawr,  
 Bydd eto ganu mwy,  
 Pan gwrddo plant y gaethglud oll,  
 Mawr fydd eu canu hwy.

Trwy angeu Crist daeth ini hedd,  
 A chymmmod yn ei waed;  
 A thrwy ei glwyfau dyfnion Ef  
 Daw i ni lawn iachâd.

Pan ddelo'r seintiau adref oll,  
 I Salem fawr ei son;  
 Nid ofni mwy, ond dyblu'r gân,  
 Bydd pawb i Dduw a'r Oen.

Y Ddegfed Sul gwedi'r Drindod.

COLLECT.—*Gweddi*—Am wrandawriad i'n gweddïau, ac am  
 nerth i erchi yn ol meddwl Duw.

## BOREUOL WEDDI.

275.

m. c.

FE wrendy Duw ar weddi'r gwael,  
 A rhydd yn hael i'w blant;  
 'Sgrifenir hyn i'r oes yn ol,  
 A'i ganmol Ef a wnânt.

O uchaf fan ei gyssegr fry  
 Y try ei lygad lawr;  
 I'r ddaiar hon o nef y nef  
 Yr edrych Ef yn awr,

I glywed cri carcharwyr caeth,  
 Gan flinder maith yn brudd;  
 I wrando cwyn plant angeu glas,  
 A'u rhoi, o'i ras, yn rhydd.

276.

M. H.

MOR hawddgar ac mor hyfryd yw  
 Dy babell sanctaidd Di, O Dduw!  
 O fewn ei muriau harddwych hi  
 Y cwrdd dy seintiau â Thydi.

Pan welom yno'th siriol wedd,  
 A phrofi yno'th hyfryd hedd,  
 Cydfloeddio wnawn â llawen lef,  
 Ti'n dygaist ni i borth y nef.

Mae un diwrnod yn dy dŷ,  
 Dan wenau cain dy wyneb cu,  
 Yn well na mil yng ngwledd y ffol,  
 Sy'n gadael gofid blin ar ol.

Rho ini'r fraint i'th gwrdd ar frys  
 O fewn dy lân fendigaid lys;  
 Prydferthwch pena'th babell yw  
 Dy bresennoldeb Di, O Dduw!

277.

7. 6.

O'TH flaen, O Dduw, mi ddeuaf,  
 Mewn hyder ffydd yn llawn  
 Y caf dderbyniad grasol,  
 Achubol yn yr Iawn:  
 A chanaf am y newydd  
 Fod Duw, yn Iesu Grist,  
 Yn gwared pechaduriaid  
 O'u 'stâd colledig, trist.

O Dad trugarog, dyro  
 Y fendith lwyr i mi,  
 Y fendith rad a'm gwnelo  
 Yn debyg iawn i Ti;  
 A nerth i gadw'th ddeddfau,  
 A ffyddlon ddilyn Duw;  
 A derbyn fi yn angeu  
 I'r nefoedd wen i fyw.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

278.

7. 6.

O IACHAWDWRIAETH gadarn,  
 O iachawdwriaeth glir!  
 'Fu dyfais o'i chyffelyb  
 Erioed ar fôr na thir?  
 Rhoes Crist ei fywyd drosom,  
 Beth all'sai wneyd oedd fwy?  
 Mae myrddiwn o rinweddau  
 Difesur yn ei glwy'.

O ras didranc, diderfyn,  
 Tragwyddol ei barhâd!  
 Yng nghlwyfau'r Oen fu farw  
 Gall f'enaïd gael iachâd;  
 Iachâd o'm holl archollion,  
 A chlwyfau dyfna' gaed:  
 Cyduned nef a daiar  
 I ganmol am ei waed.

279.

8. 7.

Afon ddofn yw afon angeu,  
 Ofni 'rwyf o hyd ei lli;  
 Rhaid yw rhodio trwy ei rhydiau  
 Cyn cyrhaeddwy'r Ganaan fry:  
 Gallu'r nefoedd fawr yn unig  
 Ddeil fy enaid llesg i'r lan:  
 Crist fu farw ar Galfaria  
 Ydyw nerth fy ysbryd gwan.

O bob enw ym mhlith dynion,  
 Dyma'r enw goreu i gyd;  
 Crist yn groeshoeliedig drosom,  
 Crist yn marw dros y byd;  
 Gwaed yn llifio dros bechadur,  
 Môr o haeddiant, môr o hedd;  
 Hwn yn unig, nid dim arall,  
 Saif yn erbyn ofn y bedd.

Ofni 'rwyf, ond eto'n canu,  
 Wrth fyfyrío am y dydd;  
 Wedi ing, ac ymdrech angeu,  
 O'm cadwynau rhoir fi'n rhydd;  
 Derfydd pechod y pryd hyny,  
 Derfydd gofid o bob rhyw;  
 Buddugoliaeth gaf yn angeu;  
 Er fy marw, byddaf byw.

280.

8. 7. 6.

Y MAE Un, uwch law pawb ereill  
 Drwy'r greadigaeth fawr i gyd,  
 Sydd yn haeddu ei alw'n Gyfaill,  
 Ac a bery'r un o hyd:  
 Brawd a aned ini yw,  
 Erbyn c'ledi o bob rhyw.  
 Nis gall meithder ffordd, nac amser,  
 Oeri dim o'i gariad Ef;  
 Mae ei fynwes byth yn dyner,  
 A'i gymdeithas byth yn gref;  
 Nis gall dyfroedd angeu llym  
 Ddiffodd ei angerddol rym.  
 A phan ymddangoso eilwaith  
 Yng ngogoniant pur ei Dad,  
 Gyda'r holl angylion sanctaidd,  
 Mewn anrhydedd a mawrhâd;  
 Fe geir gwel'd mai'r un fydd Ef,  
 Er myn'd heibio'r byd a'r nef.



## Yr Unfed Sul gwedi'r Trindod.

COLLECT.—Duw yn egluro ei nerth yn benaf trwy ddangos ei drugaredd a'i dosturi. *Gweddî*—Am ras i redeg ar hyd ffordd gorchymynion Duw, fel y gallom gyrhaeddyd ei nefol addewidion, a chael ein gwneuthur yn gyfranogion o'i nefol drysor.

### BOREUOL WEDDI.

281.

M. H.

GWLAD o hyfrydwch uwch nen sydd,  
Lle triga seintiau gwych eu hoen;  
Diddymir nos gan berffaith ddydd,  
A gwynfyd a yr ymaith boen.

Mae yno wanwyn a barhâ  
A blodau anwywedig sy;  
Ond angeu parthu'r wlad hon wna  
Fel cyfyng fôr oddi wrthym ni.

Mae hyfryd fröydd tu draw'r lli, [ŷnt,  
Tra phrydferth, gwyrddlas, harddwych  
Fel gwelid Canaan gan y llu,  
Cyn croesi yr Iorrdonen gynt.

Ond aml yr ofnant hwy sy wan,  
I groesi'r môr o'u blaen hwynt sy;  
Ac oedant, crynant ar y lan,  
Wrth feddwl nosio trwy y lli.

O! pe y gallem dd'od yn rhydd  
Oddi wrth ein hofnau oll yng nghyd  
A gwel'd ein Canaan fry trwy ffydd,  
Yn oleu, eglur iawn i gyd,—

Pe gwelem ni y wlad o'r bron,  
 Fel Moses gynt, ar uchel fan,—  
 Nid angeu ddim na grym y don  
 Mewn braw a'n cadwent rhag y lan.

282.

8. 7.

DY drugaredd deg ragorol,  
 Fy nhragwyddol Arglwydd Dduw,  
 Yw y pur ddaioni penaf;  
 Arni byth y byddaf byw:  
 Ei phrydferthwch sy'n rhagori  
 Ar oleuni'r haulwen hardd;  
 Fy holl felus wir orfoledd  
 O'th drugaredd fyth a dardd.  
 Gwell na'r byd, a gwell na'r bywyd,  
 Yw dy hyfryd hedd i mi;  
 Nis gall dim foddioni 'nghalon,  
 Ond dy dirion gariad Di:  
 Ond im' gael dy bresennoldeb,  
 A goleuni'th wyneb pryd,  
 F'enaid gwan gaiff orfoleddu  
 Wrth wynebu'r bythol fyd.

283.

M. C.

EGLURO'TH Hollalluog nerth  
 Yn benaf wyt i ddyn,  
 Trwy ddangos dy drugaredd, Dduw,  
 A thosturiaethau in'.

Y cyfryw fesur o dy ras,  
 Yn dirion ini moes,  
 Fel ar hyd ffordd dy ddeddfau glân  
 Y rhedwn trwy ein hoës.

O! bydded in' gyrhaeddyd, Dduw,  
 Dy addewidion eu,  
 A rhag llaw gyfranogi oll  
 O'th nefol drysor fry.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

284.

7. 6.

RHYFEDDOL ras yn dewis  
 Abwydyn gwael y llawr,  
 Rhyfeddol ras yn prynu  
 Trwy roddi bywyd lawr;  
 Rhyfeddol ras yn galw  
 Trwy ryw awdurdod gref,  
 Rhyfeddol ras yn cynnal  
 Trwy'r byd i deyrnas nef.

Trwy gymhorth gras gweddiâf  
 Am ras oddi wrth fy Nuw,  
 Trwy gymhorth gras mi ganaf  
 Am ras tra byddwyf byw;  
 Trwy gymhorth gras ymfrostiaf  
 Mewn gras tra anadl ehwyth,  
 Trwy gymhorth gras mi wleddaf,  
 Ar gras anfeidrol fyth.

285.

8. 7. 4.

[258.]

IĒSU, nid oes terfyn arnat,  
 Mae cyflawnder mawr dy ras  
 Yn fwy helaeth, yn fwy dwfn,  
 Ganwaith nag yw'm pechod cas;  
 Fyth yn anwyl, meibion dynion mwy a'th gâr.

Ti faddeuaist fyrdd o feiau  
 I'r pechadur gwaetha'i ryw,  
 Arglwydd, maddeu eto i minnau,  
 Gad i'r annheilyngaf fyw;  
 Dy unig haeddiant, yw'ngorfoledda fyngrym

Nid oes ddofa fy nghydwytbod  
 Ond cyflawnder mawr y nef,  
 Ac ni thâl rhoi aberth arall  
 Is y nefoedd iddo Ef; [y groes.  
 Maddeu, Arglwydd, gwranddo'r griddfan ar

286.

8. 7.

[259.]

O ANFĒIDROL berffaith gariad,  
 Cariad nas gall dawn na gras  
 Dynion na'r angylion penaf  
 Fyth yn hollol ddodi maes;  
 Cariad sydd yn sylfaen gadarn  
 O bob anthem yn y nef,  
 Seintiau ac angylion draphlith  
 Gauant am ei gariad Ef.

Ac ni fydd mo dragwyddoldeb  
 Ddim yn ormod, er ei hyd,  
 I ddadguddio hen ddyfnderoedd  
 Cariad Iesu maes i gyd;  
 Holl rinweddau maith ei glwyfau,  
 Poenau'r hoelion meinion llym,  
 A wna oesoedd i fyn'd heibio  
 Eto heb eu gweled ddim.

¶ 12fed Sul gwedi'r Brindod.

COLLECT.—Parodrwydd Duw i wrando ein gweddi. Ei haelioni. *Gweddi*—Am faddeuant; ac am drugareddau nad ym dellwng i'w gofyn.

BOREUOL WEDDI.

287.

M. H.

[261.]

YN haeddiant Crist a'i farwol glwyf,  
 Af at yr orsedd fel yr wyf,  
 Lle mae anfeidrol gariad Duw  
 Yn groesaw'r annheilynga'n fyw.  
 Fe gofir byth am Galfari;  
 Pa Dduw â'i gariad fel Tydi?  
 Yno y gwnaed anfeidrol lawn;  
 Caed hedd a bywyd un prydawn.  
 Pwy sydd yn maddeu fel Tydi?  
 Pa Dduw a wrendy ar fy nghri?  
 A phwy a ystyr wrth fy nghwyn?  
 A phwy fu farw er fy mwyn?

288.

7. 6.

[260.]

DYWEDODD anghrediniaeth,  
 Do, wrthyf lawer gwaith,  
 Am beidio blino'r Athraw,  
 Mai ofer fyddai 'ngwaith;  
 Af at yr orsedd eto,  
 Er dued yw fy lliw,  
 Pwy ŵyr na chaf drugaredd?  
 Trugarog iawn yw Duw.

Un yw yn medru maddeu  
 Pechodau rif y gw lith;  
 'Does mesur ar ei gariad,  
 Na therfyn iddo byth;  
 Mae'n 'mofyn lle i dosturio,  
 Mae'n hoffi trugarhau:  
 Trugaredd i'r amddifad  
 Sydd ynddo yn parhau.

289.

8. 7.

[371.]

'NABOD Crist yw 'nabod bywyd,  
 'Nabod Crist yw 'nabod hedd;  
 Cael rhan ynddo yw cael digon  
 Yma a thu draw i'r bedd;  
 Bod â Christ yw bod a phobpeth,  
 Bod heb Grist yw bod heb ddim,  
 O na chawn i wir adnabod  
 Iesu Grist yn fywyd im'.

Yn y nef bydd byw heb ludded,  
 Byw heb ofni marw mwy,  
 Pob rhyw alar wedi darfod,  
 Dim ond canu am farwol glwy';  
 Ein ffydd yno droir yn olwg,  
 A'n gwan obaith yn fwynhâd  
 Annherfynol fydd yr anthem  
 Am rinweddau maith y gwaed.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

290.

M. H.

O ARGLWYDD, doed dy deyrnas Di  
 Dros holl derfynau'n daiar ni;  
 A gwna ni'n ufudd, fel y nef,  
 I ddeddfau dy lywodraeth gref.  
 Lle 'nawr teyrnasa t'wyllwch du,  
 Llewyrched yr Efengyl gu;  
 Lle tyf anwiredd o bob rhyw,  
 Boed purdeb a chyfiawnder gwiw.  
 O dwg y pell genedloedd draw,  
 A'r holl Iuddewon yn dy law,  
 Yn hawddgar lu i'th Eglwys lon,  
 I ymhyfrydu ger dy fron.  
 Cydganu wnaed pob geneu'n awr,  
 Dros dir a môr, i'th enw mawr:  
 A lleda'th faner trwy'r holl fyd;  
 Y nef a'r ddaiar una 'nghyd.

291.

8. 7.

UNWAITH eto mi ddyrchafaf  
 Un ochenaid tua'r nef;  
 Gyda thaerni yr ymbiliaf  
 Am ei bresennoldeb Ef:  
 Credu'r wyf y gwrendy clustiau  
 'R Hwn a greodd dai'r a nen,  
 Ao y daw fy nymuniadau  
 Trist, hiraethlawn, oll i ben.

Wrth ei orsedd yr ymdrechaf,  
 A fy ngolwg tua'r nef;  
 A dysgwyliaf hyd y wawrddydd  
 Am ei bresennoldeb Ef:  
 Rhad faddeuant, gwawria bellach,  
 Rho garcharor caeth yn rhydd,  
 Fu'n ymdreiglo mewn tywyllwch,  
 'Nawr i weled goleu'r dydd.

292.

M. S.

[263.]

DYSGWYLIAF o'r mynyddoedd draw,  
 Lle daw im' help 'wyllysgar:  
 Yr Arglwydd rydd im' gymhorth gref,  
 'R Hwn a wnaeth nef a daiar.

Dy droed i lithro Ef nis gad,  
 A'th Geidwad fydd heb huno:  
 Wele, Ceidwad Israel lân,  
 Heb hun na hepian arno.



Yr Ior a'th geidw rhag pob drwg,  
 A rhag bob cilwg anfad;  
 Cei fyn'd a dyfod byth yn rhwydd:  
 Yr Arglwydd fydd dy Geidwad.

ŷ 13ydd Sul gwedi'r Brindod.

COLLECT.—Y gallu o wasanaethu Duw yn iawn, yn rhodd Duw ei Hun. *Gweddî*—Am nerth i'w wasanaethu yn gywir; a chael mwynhau ei nefol addewidion.

BOREUOL WEDDI.

293.

8. 7.

[344.]

Ti sy'n gyru'r mellt i hedeg,  
 Ac yn rhodio brig y don,  
 Ac yn mesur holl ddyfnderau  
 Aml gystuddiau'r ddaiar hon;  
 Ti sy'n drech na'r gwynt a'r dymest',  
 Hwylia eiddil llesg ym mlaen,  
 Gyda'r awel denau effro,  
 O Galfaria fel o'r blaen.

Hen Agorwr beddau llygredd,  
 Codwr meirw, tyred lawr;  
 Chwytha yn yr udgorn arian,  
 Trwy'r Efengyl llwydda'n awr;  
 Mae rhyw nerthoedd yn dy onw,  
 Mae i'th Ysbryd ddwyfol rym;  
 Cymmer d'allu anorchfygol,  
 Noetha eto'th gleddyf llym.

294.

M. H.

NID oes un pleser byth i'w gael,  
 O Arglwydd Dduw, i adyn gwael,  
 Cyffelyb i'r pleserau sy  
 I'w cael heb ffael o fewn dy dŷ.

O Sul i Sul bendithion sy  
 Yn d'od i'r saint o'r nefoedd fry;  
 Ein Duw sy'n rhoi i'w blant ei hedd,  
 Ysbrydol fanna, nefol wledd,  
 Yn dy rodfŷydd, O Frenin mawr,  
 Y gwelir ni yn dysgwyl 'nawr,  
 Na ad i un o honom ni  
 Fyned heb fendith o dy dŷ.

295.

M. C.

[267.]

O NEFOL awel, chwyth yn awr,  
 Mae bellach yn hwyrhau:  
 Er mwyn dy enw, Arglwydd Mawr,  
 O tyred i'n bywhau.

O Ddwyfol anorchfygol nerth!  
 Dadguddia'r Aberth mawr;  
 Rhinweddau'r gwaed, yr iawn, a'r gwerth,  
 Dadguddia ini 'nawr.

O wir Ddyddanydd Eglwys Dduw,  
 Preswylia yn ein plith:  
 Ac arwain ni fel byddom byw,  
 O dan dy nefol wlith.

222 Y TRYDYDD SUL AR DDEG

PRYDNAWNOL WEDDI.

296.

M. C.

Er ini gael cyfeillion cu  
Amrywiol is y ne',  
Am Iesu gallwn ddyweyd yn hy,  
Pa gyfaill fel Efe?

Cyfeillion hy a gilia 'nol  
Wrth yr Iorddonen gre';  
Ond cymmer Iesu ni'n ei gol,  
Pa gyfaill fel Efe?

297.

8. 7.

COFIED plant y ddaiar yma  
Wrol waith rhyfelwyr mawr;  
Gwr o ryfel cofiwn ninnau  
Ddaeth o Edom gyda'r wawr;  
Gwisgoedd cochion oedd am dano,  
Wrth sathru'r gerwyn fawr ei Hun,  
Yn nerth Duwdod yn gorehfygu,  
Ac am dano natur dyn.

298.

6. 8.

HENURIAID gwych y nef,  
Byth bythol heb ddim taw,  
Coronau ar eu pen,  
Telynau yn eu llaw,  
Yn seinio, Teilwng ydyw'r Oen  
A'n cadwodd ni trwy rin ei boen!

Rhyw dorf na ddichon neb  
 Eu rhifo ar y llawr,  
 A'u swm mewn nefol dân,  
 O dân yr orsedd fawr,  
 Yn gwaeddi'n un ag uchel lef,  
 Coronwch Ef, coronwch Ef!

Ar balmant pur o aur,  
 Rhônt eu coronau lawr,  
 Ymgrymant oll mewn paroh  
 Yng ngŵydd gogoniant mawr;  
 Y newydd gân yn seinio i gyd,  
 Na fu ei math er dechreu'r byd.

ŷ *14ydd Sul gwedi'r Drindod.*

COLLECT.—*Gweddî*—Am gryfhâd o'n grasau, a charu o honom  
 orchymmynion Daw, fel bo ein gweddïau yn llwyddiannus.

## BOREUOL WEDDI.

299.

8. 7. 4.

[346.]

ARGLWYDD grasol, dyro gymhorth  
 I gyhoeddi eto i maes  
 Ddyfnder calon dyn truenus,  
 Ac anfeidrol olud gras;  
 Fel bo dyfnder byth am ddyfnder yn cael son.  
 O dystêwch, derfysglyd dônau,  
 Tra bwy'n gwrando llais y nef;  
 Swm mwy hoff, a sain mwy hyfryd,  
 Glywir yn ei eiriau Ef;  
 F'enaid, gwrando lais tangnefedd par a hedd.

224 Y PEDWERYDD SUL AR DDEG

Dyro'th Ysbryd i lefaru  
Ac i wrando'th eiriad pur;  
Boed ei lewyrch nefol hyfryd  
A'i arddeliad ar y gwir:

O amlyga anorchfygol nerth dy ras.

300.

6. 8.

CAERSALEM, dinas hedd!  
O na bawn yno'n byw!  
O hyd cawn weled gwedd  
A llewyrch wyneb Duw;  
A'r anwyl Oen, fu dros of fi,  
Ar Galfari, mewn dirfawr boen.

'Does gofid yno'n bod  
Na galar byth na phoen;  
Gwlad yw yn llawn o glod  
I Dduw a'r nefol Oen;  
O ddedwydd le! O am gael byw  
Byth gyda Duw o fewn y ne'!

301.

8. 7.

O ARGLWYDD, dyro gymhorth  
A goleu'r Dwyfol dân,  
I rodio ffordd y bywyd,  
A chadw'th gyfraith lân;  
A gras i farw'n wrol  
Ar fraich dragwyddol Duw,  
A gwisg y nef am danaf!  
Hosanna, digon yw!

## PRYDNAWNOL WEDDI.

302.

7. 6.

Os trwy ofidiau lawer  
 Rhaid myn'd trwy hyn o fyd,  
 Fe wawria'r boreu tawel,  
 Caf adael rhai'n i gyd:  
 Yn lle y groes, daw coron;  
 Yn lle wylofain cân;  
 Ac yn lle dyffryn Baca  
 Ystradoedd Salem lân.

Os teithio'r anial dyrys  
 Am ennyd fydd fy rhan,  
 Daw hyfryd fryniau Canaan  
 I'r golwg yn y man:  
 Tywyllwch sydd yn fynych  
 Yn toi y fuchedd hon,  
 Ond yn y ddinas sanctaidd  
 Ceir byth oleuni llon.

303.

m. c.

O ARGLWYDD, rho dy allu mawr  
 I'm nerthu fyn'd ym mlaen;  
 Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,  
 Fy nghoncwest, a fy nghân.  
 Rho nerth i rodio er dy glod  
 Ac iti bellach fyw,  
 A threulio'm mywyd gyda blas  
 I ganmol gras fy Nuw.

Pan bwyf yn anghu'n crymu 'mhen,  
 Rho wên dy wyneb eu;  
 Doed yr angylion yno'n rhes  
 I'm dwyn i'th fynwes fry.

304.

M. H.

[275]

O ARGLWYDD, dena'm serch a'm bryd,  
 Ar y gwrthddrychau sy uwch y byd;  
 Trysorau hyfryd can mil gwell,  
 Cuddiedig draw ar fryniau pell.

Draw mae ein Iesu mawr a'n Duw,  
 A brodyr fyrddiwn ini'n byw;  
 Mae yno rai'n clodfori o hyd,  
 Fu'n teithio gyda ni'n y byd.

Dringasant hwy i ben eu taith,  
 Gorphen'sant ar eu llafur waith;  
 O gwyn ei fyd fai yno byth,  
 Yn moli'n beraidd yn eu plith.

### Y Pymthegfed Sul gwedi'r Driudod.

COLLECT.—*Gwedd*—Dros fod amddiffyn ar yr Eglwys; ac am gael ein cadw rhag pob peth niweidiol; a'n harwain at bob peth buddiol er ein hiachawdwriaeth.

### BOREUOL WEDDI.

305.

M. S.

[279.]

DY babell Di mor hyfryd yw,  
 O Arglwydd Dduw y lluoedd;  
 Mynych chwennychais waled hon,  
 Rhag mor dra thirion ydoedd.

Gwyn fyd a drigant yn dy dŷ,  
 Cânt dy foliannu ddigon;  
 A Thi dy Hun sy'n cadarnhau  
 Dy lwybrau yn eu calon.

Ant rhagddynt bawb o nerth i nerth,  
 Nes cael yn brydferth ddyfod  
 I 'mddangos i Dduw ger ei fron  
 Yn Sion ei breswylfod.

O Arglwydd Dduw y lluoedd mawr,  
 Anfon i lawr dy gymmod;  
 Dedwydd yw'r dyn a roddo'i gred,  
 A'i holl ymddiried ynod.

306.

M. B.

[221.]

TOSTURIOIOL yw ein Duw,  
 A graslawn bob rhyw bryd:  
 O drugareddau mae yn llawn,  
 Hwyrfrydig iawn i lid.

I bawb, daionus yw  
 Y Duw deyrnasa fry;  
 Ac ar ei holl weithredoedd mad  
 Ei rad drugaredd sy.

Yn cynnal mae ei Hun  
 Bob un ar syrthio sydd;  
 A'r enaid gostyngedig gwan  
 A gwyd i'r lan ryw ddydd.



Yn dysgwyl wrtho Ef,  
 Mae llygaid pobpeth byw;  
 A'u bwyd a estyn yn ei bryd  
 I rhai'n yn ol eu rhyw.

307.

8. 7. 4.

DEUWCH, bechaduriaid tlodion,  
 Clwyfus, cleifion, o bob rhyw;  
 Crist sydd barod i'ch gwaredu,  
 Llawn tosturi yw Mab Duw:  
 Nac ammheuwch, cryf ac ewyllysgar yw.

Rhai angenus, dewch, a'ch croesaw,  
 I gael rhoddion Duw yn rhad;  
 Cewch faddeuant a thangnefedd,  
 A phob gras yn ddinacâd  
 Dewch hebarian, prynwch gan yr Iesu'n rhad.

Dewch, flinderog a thrwmlwythog,  
 Trwy y cwyp gadd farwol friw,  
 Dewch at Iesu, tra mae'n galw,  
 Ganddo cewch orphwysfa gwiw:  
 Pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, eilw Duw.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

308.

2. 8.

[281.]

BRAINT, braint, yw cael cymdeithas gyda'r  
 Na welodd neb erioed ei maint; [saint,  
 Ni ddaw un haint fyth iddynt hwy:  
 Y mae'r gymdeithas yma'n gref,  
 Ond yn y nef hi fydd yn fwy.

Byw, byw, yw'r Iesu'm Ffrynd a'm Prynwr  
 Er iddo gynt gael marwol friw; [gwiw,  
 A sicr yw mai byw wna'r saint;  
 O herwydd bod eu Ceidwad eu  
 Yn eiriol fry; rhyfeddol fraint!

309. 8. 7. 4. [283.]

O NA bai cystuddiau f'Arglwydd,  
 Yn fy nghalon i gael lle,  
 Pob rhyw loes a phob rhyw ddolur,  
 Pob rhyw fflangell gafodd E;  
 Fel bo'i 'mhechod gael ei glwyfo a'i wanhau

Ti dy Hunan yno'n Frenin,  
 Ti dy Hunan yno'n Dduw,  
 D'eiriau d' Hunan yno'n uchaf,  
 D'eiriau gwerthfawroca'u rhyw;  
 Ti wnei felly bydew du yn deml lân.

O 'sgrifena'n eglur, eglur,  
 Mewn llyth'renau llawn i gyd,  
 Bob rhyw sillaf fach o'th gyfraith  
 Ar fy mynwes yma 'nghyd; [pris  
 Fel na anghofiwyf fyth dy eiriau mawr eu

310. 7. 6.

MAE Salem heb ei llanw,  
 Rhaid cael y llwythau 'nghyd,  
 O bob rhyw iaith a chenedl,  
 O bedwar gwynt y byd:

Daw tlodion ac efryddion,  
 A gwywedigion gwan,  
 Yn filoedd heb eu rhifo,  
 I Sion yn y man.

O enau plant anenwog,  
 Na feddant rhwysg na rhod,  
 Ar fyrder iawn o amser,  
 Perffeithia Duw ei glod;  
 Ei enw gaiff ogoniant,  
 Mawr fydd ei deyrnas E,  
 O'r gogledd i'r gorllewin,  
 O'r dwyrain hyd y de.

### Yr Unfed Sul guedi'r Briudod.

COLLECT.—*Gueddi*—Ar fod i dosturi gwastadol Duw lanhan  
 ac amddiffyn yr Eglwys.

#### BOREUOL WEDDI.

311.

M. S.

MÆ bendigedig eiriau Duw  
 Yn llewyrch gwiw i'r bobloedd  
 Sydd mewn tywyllwch, cynnar goll,  
 Yn ffordd yr holl genedloedd.

Gwrandawed pob rhyw enaid byw,  
 Mor hyfryd yw y newydd ;  
 Mae'n fywyd i bechadur dwys,  
 Tan ddirfawr bwys euogrwydd.

Mae dadguddiadau'r nefol Ion,  
 A'i addewidion grasol,  
 Yn lloni'r seintiau ar y llawr,  
 Nes codi'r wawr dragwyddol.

O rhoddwn foliant hyd y nef,  
 Gan godi'n llef yn llafar,  
 Am air yr iachawdwriaeth hon  
 I'n cyrchu ni o'n carchar.

312.

6. 8.

[285.]

MAE'R faner fawr ym mlaen,  
 Ei efengyl Ef yw hon;  
 Mae uffern lawn o dân  
 Yn crynu 'nawr o'i bron;  
 Hi gwymp, hi gwymp, er maint ei grym;  
 O flaen fy Iesu 'dyw hi ddim.  
 Na lwfrhæd ein ffydd,  
 Mae'n ffydd fel colofn dân,  
 A blanodd Brenin nef,  
 I'n harwain yn y blaen;  
 Mi wela'r wlad mi ga'i mwynhau,  
 Lle pery'm hedd heb dranc na thrai.  
 O ffynnon fawr o hedd,  
 O anchwiliadwy fôr,  
 Sy'n cynnwys ynddo'i hun,  
 Rhyw annherfynol 'stôr:  
 Ti bia'r clod, wel cymmer e,  
 Trwy'r ddaiar, uffern fawr, a'r ne'.

313. 8. 7. [286.]

DRAW mi wela'r nos yn darfod,  
 Draw mi welaf oleu dydd  
 Yn dysgleirio tros y bryniau,  
 Melus yn y man a fydd;  
 Ffy gelynion pan ddêl goleu,  
 Ni all pechod er ei rym,  
 A'i holl wreiddiau yn fy natur,  
 Sefyll Haul Cyfiawnder ddim.

Yn y rhyfel mi arosaf,  
 Yn y rhyfel mae fy lle,  
 Boed fy ngenau wrth y ddaiar,  
 Boed fy llygaid tua'r ne';  
 Doed y goncwest bryd y delo,  
 Dysgwyl wrth fy Nuw a wnafl  
 Nes o'r diwedd wel'd yn trengu  
 Pechod ag oedd bron fy lladd

## PRYDNAWNOL WEDDI.

314. 7. 6. [289.]

PWY ddyry im' falm o Gilead,  
 Maddeuant pur a hedd,  
 Nes gwneyd i'm hysbryd edrych  
 Yn eon ar y bedd,  
 A dianc ar wasgfeuon  
 Euogrwydd creulon cry' ?  
 'Does neb ond Ef a hoeliwyd  
 Ar fynydd Calfari.

Yr hoelion geirwon caled  
 Gynt a'i trywanodd E  
 Sy'n awr yn dal y nefoedd  
 Gwmpasog yn eu lle;  
 Mae gobaith meibion dynion  
 Yn llifo i maes yng nghyd,  
 Oddi wrth yr awr trywanwyd  
 Creawdwr mawr y byd.

315.

8. 7. 3.

[287.]

ARGLWYDD, dyro nerth a goleu,  
 Gwel nad wyf ond milwr gwan,  
 A gelynion heb rifedi  
 Yn fy erbyn ym mhob man :  
 Saif dy Hun, Arglwydd cun,  
 Rhyngof fi a hwy bob un.

Cuddia fi o dan dy aden;  
 Dal fi i'r lan, a dwg fy maich ;  
 Ac mewn hyder pur, ysbrydol,  
 Nerth im' orphwys ar dy fraich :  
 Gwaith dy ras gario'r maes  
 Ar fy holl elynion cas.

316.

M. C.

[288.]

'Rwy'n morio tua gartre'm Ner,  
 Rhwng tdnau maith yn byw ;  
 A dyn heb neges dan y ser,  
 Ond 'mofyn am ei Dduw.

Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro i 'nol,  
 A finnau 'dwyf ond gwan,  
 O cymmer Iesu fi'n dy gol  
 Yn fuan dwg fi i'r lan.

Nad fi ar aswy nac ar dde,  
 I redeg o dy flaen,  
 Ond dilyn llwybrau Brenin Ne',  
 Trwy ddyfnder dwr a than.

O gwna fy nghalon redeg trwy  
 Oll atat Di dy hun;  
 Na bo difyrwch genyf mwy  
 Mewn daiar, da, na dyn.

### Yr Ail Sul ar Bymtheg gwedi'r Briuddod.

COLLECT.—*Gweddî*—Ar fod i ras Duw ein rhagflaenu a'n dilyn; ac am nerth i ymroddi yn wastadol i bob gweithred dda.

#### BOREUOL WEDDI.

317.

8. 7.

ENAIÐ cu! mae dyfroedd oerion  
 Yr Iorddonen ddu ger llaw;  
 Eto, gwel mae'r ddinas sanctaidd  
 Ar y lan yr ochor draw;  
 Yno mae dy hen gyfeillion,  
 Wedi diane uwch bob olwy',  
 Yn dy aros, er cael cyfran  
 O'u dedwyddwch hyfryd hwy,

Paid ag ofni, ber yw'r fordaith,  
 Ac mae'r Archoffeiriad cu  
 Yn dy aros yn y dyfroedd,  
 Er dy ddwyn i'r ddinas fry;  
 Clyw seraphaidd seiniau'n hedfan  
 Draw o frodir Sion fryn!  
 Gwel ei heuraidd byrth yn agor  
 Trwy y niwl sy'n toi y glyn.

318.

6. 8.

RHOWN glod i'r uchel Dduw,  
 Ior nef a daiar las;  
 Brenin breninoedd yw,  
 Rhyfedded pawb ei ras :  
 Trugaredd Duw a bery byth,  
 A'i air dilyth safadwy yw.  
 Mor rymus yw ei law !  
 Pa wyrthiau mawr wnaeth Ef !  
 Gwnaeth dir a moroedd maith,  
 A llunio wnaeth y nef :  
 Trugaredd Duw a bery byth,  
 A'i air dilyth safadwy yw.  
 Fe'n canfu'n myn'd ar goll,  
 Trwy bechod oll i gyd :  
 O'i ras tosturio wnaeth  
 Wrth gyflwr caeth y byd :  
 Trugaredd Duw a bery byth,  
 A'i air dilyth safadwy yw.



319.

8. 6. 8.

[293.]

O PWY yw hon sy'n dod yn hy,  
 Yn lew i'r lan fel rhwng dau lu,  
 O'r dywyll Aiphataidd wlad,  
 Gan roddi pwys ei henaid pur  
 Ar Iesu gwiw'r Messiah gwir,  
 Ei Ffrynd a'i Phrynwr rhad?

Fel boreu wawr fe welir hon;  
 Teg fel y lloer mae'i hwyneb llon,  
 Mewn cariad, gras, a hedd;  
 Fel haul heb un brycheuyn du,  
 'N ofnadwy fel banerog lu:  
 On'd hyfryd yw ei gwedd!

## PRYDNAWNOL WEDDI.

320.

6. 8.

CYN lledu lleni'r nef,  
 Na ffurfio llwythau'r llawr,  
 Cyn gosod ser i droi  
 Yn yr eangder mawr,  
 Na llunio un creadur byw,  
 O dragwyddoldeb y mae Duw.  
 Cyn canu'n beraidd fwyn  
 O'r ser boreuol draw,  
 Na chael o Gabriel pur  
 Y delyn yn ei law,  
 Dedwyddwch perffaith, hedd didrai,  
 Oedd Ffynnon cariad yn fwynhau.

Mor fyr yw oesoedd maith  
 Ger bron tragwyddol Fod!  
 Ei oes heb fesur sydd,  
 Diderfyn yw ei glod:  
 Mil o flynyddoedd maith, neu ddydd,  
 Yn debyg yn ei olwg sydd.

Pan gryno seiliau'r byd,  
 Pan syrthio'r ser yn llu,  
 Y lleuad wen yn waed,  
 A'r haul fel sachlen ddu,  
 Yr un fydd Ceidwad dynol ryw :  
 Diddechreu a diddiwedd yw.

321.

M. H.

Pe cawn adenydd boreu wawr,  
 Ehedeg wnawn dros foroedd mawr,  
 Nes bawn yng ngolwg Sion wiw,  
 Lle mae fy Mhriod innau'n byw.

Pe cawn ond teimlo'r awel gref,  
 Aeth ag Elias gynt i'r nef,  
 Gadewn yn ol fy ngwisg o gnawd,  
 Ac Eliséus, f'anwylaf frawd.

Gwyn fyd ga'i rodio gyda Duw,  
 Fel Enoc ffyddlon tra bwy' byw;  
 Ehedeg wnawn o'r byd i maes,  
 Heb ofni braw yr angeu glas.

Yn Peniel 'rwyf, fy enaid, clyw,  
Ymdrecha'n deg ag angel Duw,  
Pwy ŵyr nas caf cyn codi'r wawr,  
Wir eitifeddu'r fendith fawr ?

322.

8. 7.

[295.]

O IACHAWDWR pechaduriaid,  
Sydd â'r gallu yn dy law!  
Rho oleuni, hwylia'm henaid  
Tros y cefnfor garw draw;  
Gad y wawr fod o fy wyneb,  
Rho fy enaid llesg yn rhydd,  
Nes i'r haulwen ddysglaer godi,  
Tywys fi wrth y seren ddydd.

A oes neb o'm hen gyfeillion  
A ddaw'n ddiddig gyda mi,  
Ac a orwedd wrth fy ochr  
Obry yn y ddaiar ddu ?  
A yw cyfaill ddim ond hyny,  
Tafu dagrau, newid gwedd,  
Pan bo'r pridd, a'r clau, a'r ceryg,  
Arna'i'n cwympo yn y bedd ?

O ynfydrwydd! O ffolineb!  
Imi erioed i rod-di 'mryd  
Ar un tegan, ar un pleser  
Welais i eto yn y byd;  
Y mae'r byd yn myned heibio  
A'i deganau o bob rhyw ;

Tan y nef ni thâl ei garu  
Wrthddrych arall ond fy Nuw.

Y Brennaufed Sul gwedi'r Drindod.

COLLECT.—*Gweddî*—Am ras i orchfygu profedigaethau o bob math; a dilyn Duw o galon a meddwl pur.

BOREUOL WEDDI.

323.

M. S.

[296.]

Duw, cadw f'enaid bach o hyd  
Uwch law y byd a'i ddrygau,  
Gan lwyr ddibrisio'i boen a'i wae,  
Ei drallod a'i gystuddiau.

Fel na bwy'n gwrando ar ei dwrf,  
Ei gynhwrf, a'i ruadau;  
Gan deithio'r llwybr cul bob cam,  
A meddwl am fy ngartrau.

Heb gyfeiliorni ar un llaw,  
Nes myn'd tu draw'r Iorddonen,  
At seintiau flinodd ar y byd,  
Sy'n awr i gyd yn llawen.

324.

M. C.

[298.]

Er dued ac aflaned wyf,  
Er dyfned yw fy mhla,  
Mae ffynnon goch a'm gylch yn wyn;  
A hwn a'm llwyr iachâ.

Af at yr orsedd fel yr wyf,  
Anfeidrol orsedd gras;

Dadguddiaf yno 'nghlwyfau maith,  
A'm holl archollion cas.

Mi welaf lu anfeidrol wyn,  
Yn aml fel y ser,  
A fu fel finnau oll yn frwnt,  
Yn bur yng nghwmni'm Ner.

Wel finnau, 'r eiddil gwan ei lun,  
Heb ddim ond ffaidd friw;  
Anturiaf at drysorau'r nef,  
Cyfiawnder pur fy Nuw.

Anturiaf at ei orsedd fawr,  
Er dued yw fy nos;  
Ac mi orphwysaf, doed a ddêl,  
Ar haeddiant gwaed y groes.

325.

8. 7.

O MOR werthfawr yw'r gair perffaith  
Ddaeth i ni o eneu Duw!

Mae'n dadguddio iachawdwriaeth  
Gyflawn, rad, i ddynol ryw!

Ni all miloedd o aur melyn,  
Na'r trysorau goreu sydd,  
Foddio'r didwyll wir gredadyn,  
Fel diffuant air y ffydd.

Yma caf bleserau sanctaidd,  
Llaeth a mêl, a gwên fy Nuw;  
Sypiau Canaan, gwleddoedd breision,  
Manna ddigon tra bwy' byw:

Dengys hwn y ffordd im' dreulio  
 F'oriau hyfryd iawn i ben,  
 Ffordd i farw dan lawenu,  
 Ffordd at delyn aur y nen.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

326.

M. B. D.

MAE'M gobaith er yn wan,  
 Gael d'od i'r lan ryw bryd,  
 At Iesu fry i Sion fryn,  
 A'm gwisg yn wyn i gyd;  
 I blith y dyrfa fawr,  
 Ger bron gorseddfaine Ion,  
 I foli Duw am gariad rhad,  
 A gwerthfawr waed yr Oen.  
 'Nol treulio yn y gwaith  
 Ryw oesoedd maith ym mlaen,  
 Ni fydd dim blino yn eu plith,  
 Melusach byth eu cân:  
 Cân newydd fydd o hyd  
 Mewn bywyd pur diboen,  
 Yn moli Duw am gariad rhad,  
 A gwerthfawr waed yr Oen.

327.

M. C.

HOLL demtasiynau'r byd, a'r cnawd,  
 A'r cythraul, caniatâ  
 Ras ini eu gwrthsefyll hwy,  
 Atolwg, Arglwydd da.

Er Iesu Grist, ein Harglwydd ni,  
 Par in' tra fyddom byw,  
 A chalon ac â meddwl pur  
 Dy ddilyn 'r Unig Dduw.

328. 8. 7.

Awn ym mlaen ar hyd y llwybrau  
 Gerddodd Iesu ddyddiau'i oes;  
 Ymladd raid â'r un gelynion,  
 Nid yw'r goron heb y groes;  
 Nid gorphwysio 'ngwlad y pechu,  
 Am fod Iesu'n aberth hedd;  
 Rhaid milwrio dan ein harfau,  
 Ennill gwlad â min y cledd.

### Ŵ 19ydd Sul gweidi'r Trindod.

COLLECT.—Ein hanallu i ryngu bodd Duw heb ei gymhorth.  
 Gwedd—Ar fod i'r Ysbryd Glân gyfarwyddo a dysgu ein  
 calonau ym mhob peth.

#### BOREUOL WEDDI.

329. M. S.

CHWYTHED yr awel deneu, lem,  
 O fryn Caersalem newydd,  
 I rod-di'n hysbryd ni mewn hwyl  
 I gadw gŵyl yr Arglwydd.  
 I fyny awn i fynydd Duw,  
 Esgynwn i'w gynteddau;  
 Dysg in' ei ffyrdd—ac wedi hyn  
 Ni rodiwn yn ei lwybrau.

Awn felly'm mlaen o nerth i nerth,  
 Yn brydferth, nes cael dyfod  
 I foli Duw, â llawen floedd,  
 Yn entrych nefoedd uchod.

330.

8AU.

[303.]

CYFLAWNWYD y gyfraith i gyd,  
 Fe ddofwyd ei llid heb fy lladd;  
 Cyfiawnder wrth hir ofyn iawn,  
 Ei daliad yn gyflawn a gadd;  
 Cyfiawnder a'r gyfraith sy'n awr  
 Yn edrych i lawr yn ddilid;  
 Mae'r priodolaethau mewn hedd  
 Yn gwaeddi trugaredd i gyd.

331.

8. 7.

[301.]

Ti yw 'mywyd, Ti yw 'ngobaith,  
 Ti yw 'nghysur Iesu i gyd;  
 Ac i Ti 'rwyf am ddadguddio  
 Fy nirgelion pena' 'nghyd;  
 Arnat Ti 'rwy'n rhoi fy ngofal,  
 Trefna'm llwybrau oll yn lân,  
 Rho im' gerdded wrth dy ochr,  
 Mewn llifeiriant mawr a than.

'Rwyt Ti'n chwilio dyfnder f'ysbryd,  
 'Rwyt Ti'n treiddio'n hollol trwy  
 Fyrddiwn o ryw fân feddyliau  
 Nad wy'n 'nabod mo honynt hwy;



Ti yw Marnwr, dal fi fyny,  
 A choncwera mewn iawn bryd  
 Bob rhyw eilun cas addoliaeth  
 Ag sy'n aros yn fy mryd.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

332. . . . . 8. 7.

AR fy nhaith 'rwyf er ys dyddiau,  
 Tua'r bryniau 'rwyf am ffoi,  
 Er mor anhawdd dringo fyny,  
 Byth yn ol 'dwy'n meddwl troi ;  
 Gwell yw myn'd trwy orthrymderau  
 Mewn i dir y bywyd draw,  
 Na bod ar wastadedd Sodom  
 Yn y tanllyd ddydd a ddaw.

333. . . . . M. C. [306.]

MÆ pererinion draw o'm blaen,  
 Yn canu'r anthem bur,  
 Ac heddyw'n edrych fel o bell,  
 Ar dd'rysni'r diffaith dir.

O nertha finnau i edrych draw,  
 Heb wyro o un tu,  
 Nes imi gyrhaedd mewn i byrth  
 Caersalem newydd fry.

Rho'r delyn euraidd yn ein llaw,  
 Ac yn ein hysbryd dân;  
 Ac ym mheryglon anial dir,  
 Erfyniau pur a chân.

Ni awn fel hyn yng ngwres y nef,  
 Fel un lluosog lu,  
 Trwy demtasiynau heb ddim rhi'  
 I mewn i'r nefoedd fry.

334.

8. 7. 4.

[305.]

NERTHOEDD y tragwyddol Ysbryd,  
 Yn haeddiannau'r Dwyfol Iawn,  
 Wna i'r fynwes ddiffaeth galed  
 I ffrwythloni'n hyfryd iawn  
 O rasusau, per blanigion nefol wlad.

Os disgyni, addfwyn Ysbryd,  
 I ryw fynwes fel rhai hyn,  
 A'i haddurno â phur ddelw,  
 Y Gwr fu farw ar y bryn, [hyn.  
 Mawl a seinia trwy'r holl nefoedd fawr am

### Yr Aigeinfed Sul gwedi'r Drindod.

COLLECT.—*Gweddî*—Am gael ein cadw rhag y pethau a all ein drygu; fel y byddom yn alluog o ran enaid a chorff i gyflawnu y pethau a fyn Duw i ni eu gwneuthur, o galon ewyllsagar a didwyll.

### BOREUOL WEDDI.

335.

M. S.

[308.]

DY bobl ŷm ni, O Arglwydd da,  
 A defaid porfa'th gariad,  
 Yn byw ar drugareddau rhad  
 Ein tyner Dad a'n Ceidwad.

Duw, cadw ni rhag pob rhyw gam,  
 A'r drwg sydd am ein drygu,  
 Fel gallom, gorff ac enaid glân,  
 Yn gyfan dy was'naethu.

Dod nerth i fyw i ryngu'th fodd,  
 Dod hyn o rodd, O Arglwydd!  
 A marw yn dy hedd; am hyn  
 Ni'th folwn yn dragywydd.

336.

8. 7.

Y MAE'R dyddiau wedi gwawrio,  
 Clywir swn yr udgorn mawr;  
 Llais Efengyl fwyn yn seinio  
 Drwy holl barthau'r ddaiar lawr:  
 Y mae'r swper heddyw'n barod,  
 Allan aed cenadon hedd;  
 A chymheller pawb i ddyfod,  
 Mae pob llawnder yn y wledd.

337.

M. H.

GORUCHEL Frenin nef a llawr,  
 Ardderchog yw dy enw mawr;  
 D'ogoniant trwy'r holl ddaiar aeth,  
 Ac uwch y nef dyrchafu wnaeth.  
 Fy ngolwg pan gyfodwyf draw,  
 I weled cywrain waith dy law;  
 Y lloer a'r ser aneirif sy  
 Yn harddu cylch yr wybren fry,—

Pa beth yw dyn, abwydyn gwael,  
 I gael fath brawf o'th gariad hael?  
 A thrugareddau fyrdd o'r nef,  
 O ryfedd fraint! coronaist ef.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

338.

M. C.

O RYFEDD nerth y cadarn Ior!  
 Plyg anian ger ei fron;  
 Ei air yw deddf yr eang fôr,  
 A'i amnaid ddofa'r don.

Wrth swm ei draed mynyddoedd ffy,  
 Y bryniau gryma'u pen;  
 Gan ryfedd rym ei gorwynt cry'  
 Y sigla seiliau'r nen.

Ymbwysa, f'enaïd, ar ei nerth,  
 Ym mhob rhyw 'storom ddaw;  
 Fe'th arwain dros y rhiwiau serth  
 I Salem yn ei law.

339.

7. 6.

[312.]

BOED ini â'n gwefusau  
 A'n bywyd draethu i'r byd  
 Efengyl sanctaidd Iesu,  
 Gan harddu hon o hyd;  
 Dysgleiried ein gweithredoedd  
 A'n rhinwedd o bob rhyw,  
 I brofi yr athrawiaeth,  
 Ei bod hi oll o Dduw.

Wrth brofi'r iachawdwriaeth,  
 Wrth ddangos rhinwedd gras,  
 Yn maddeu a darostwng  
 Holl rym ein pechod cas,  
 Fel hyn y gallwn oreu  
 Gyhoeddi fyth ar led  
 Anrhydedd ein Iachawdwr  
 Ger bron y rhai digred.

340. 8. 7. [313.]

DYRO afael ar y bywyd,  
 "Bywyd" yw fy nghri o hyd;  
 N'ad fi gario lamp ei enw,  
 Heb yr olew gwerthfawr drud:  
 Adeilad gref—y graig yn sylfaen,  
 Arglwydd, dyro imi 'nawr;  
 Llanw'm henaid & dy gariad  
 Tra bwy'n teithio daiar lawr.

### Yr Unfed Sul gwedi'r Drindod.

COLLECT.—*Gweddî*—Am faddeuant a thangnefedd; fel y'n glanhäer oddi wrth ein holl bechodau, ac y gwasanaethom Dduw & meddwl heddychol.

#### BOREUOL WEDDI.

341. M. S. [314.]

GWYN fyd y rhai ddileaist eu bai,  
 Eu pechod, a'u hanwiredd;  
 Gan roi iddynt nerth, er cnawd a byd,  
 I bara hyd y diwedd;

Y rhai sy'n cadw'th hedd o hyd,  
 Er gwaetha'r byd a'i ddrygau,  
 Gan wyllo beunydd yn ddigoll  
 Ar gadw'th holl gyfreithiau.

Pa ddrwg wna'r gelyn i'r rhai hyn  
 Sy'n rhodio yn dy ddeddfau?  
 Cyfeillach dawel bur â'n Duw  
 Gânt ym mhob rhyw gyflyrau.

342. 8. 7. [316.]

ARGLWYDD gad im' bellach glywed—  
 Clywed llais maddeuant rhad,  
 Yn cyhoeddi fod fy meiau  
 Wedi eu maddeu yn y gwaed:  
 Symmud f'ofnau, gad im' wledda  
 Beunydd ar dy rasol hedd,  
 Heb euogrwydd nac un cwmwl  
 Rhyngof a dy siriol wedd.

343. 7. 6. [315.]

GWASGARA'R tew gymylau  
 Oddi yma i dy fy Nhad;  
 Dadguddia imi beunydd  
 Yr iachawdwriaeth rad;  
 A dywed air dy Hunan,  
 Wrth f'enaid clwyfus trist,  
 Dy fod yn maddeu 'meiau  
 Yn haeddiant Iesu Grist.

Tydi yw'r Un sy'n maddeu,  
 O! maddeu'n rhad i mi,  
 Yn rhinwedd gwaed yr Aberth  
 A'th lwyr foddlonodd Di;  
 A gwisg fi yn ei haeddiant  
 A chudd fi yn ei glwy',  
 Y man na chaiff euogrwydd  
 Byth afael ynof mwy.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

344.

8. 7. 4.

[317.]

ARNAT, Iesu, boed fy meddwl,  
 Am dy gariad boed fy nghân;  
 Dyged swm dy ddyoddefiadau  
 Fy serchiadau oll yn lân:  
 Mae dy gariad, uwch y clywodd neb erioed.

O na chawn ddifyru 'nyddiau  
 Llwythog dan dy ddwyfol groes,  
 A phob meddwl wedi ei glymu  
 Wrth dy Berson ddydd a nos! [hedd.  
 Byw bob mynyd, mewn tangnefedd pur a

345.

m. c.

[318.]

'Rwy'n edrych dros y bryniau pell,  
 Am danat Iesu mawr;  
 Tyr'd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau,  
 A'm haul bron myn'd i lawr.

O gwna fi'n ffyddlon tra bwyd i'w

A'm bryd fo at dy rhes

Ac na fo pleier fydd i'w nerf

A welwyd is y rhes

Tyn fy serchiadau'n gwrthoddi

Oddi wrth wrthoddi

At 'run gwrthoddiach ag ydych chi

Yn ffyddlon yn parhau

346.

a. 7. 2.

100

TYRED, Arglwydd, a'r amserwyl

Mae fy enaid am fwyd

Pur dangnefedd heb fwyd

Cariad hyfryd a'w

Gwledd o hedd, tu yma i'r bedd

Nad oes ond dy blant a'w

Rho imi arwydd cryf i'w

Heb amhenaeth ynddo ddim

Gan nad beth fo arnaf eisien

Dy fod Di yn Briod im' ;

Gwel'd fy rhan ddeil i'r lan

Ym mhob brwydr f'enaid gwan

Nid all dim o'r storom danbaid,

Nid all dim o'r gwyntoedd cry',

Guro lawr yr enaid egwan

Welo'i drysor ynot Ti ;

Teimlo'th hedd, gwel'd dy wedd,

Gono'ra angen tu yma i'r bedd.



## Yr Ail Sul ar Hugain gwedi'r Brindod.

COLLECT.—*Gweddî*—Am gadw yr Eglwys mewn duwioldeb gwastadol, a chael ei gwaredu oddi wrth bob peth croes i hyny, fel y gall wasanaethu Duw trwy weithredoedd da.

### BOREUOL WEDDI.

347.

6. 8.

[320.]

ARGLWYDD y bydoedd fry,  
 Mor deg a hawddgar yw  
 Trigfanau'th gariad cu,  
 Daiarol demlau Duw!  
 Mae tynfa f'enaid tua'th dy,  
 Fy Nuw, i wel'd dy wyneb cu.  
 Cael treulio'r sanctaidd ddydd  
 Lle byddo Duw â'i saint  
 Llawenydd gwell a rydd  
 Na mil mewn bydol fraint:  
 Gwell yw cael cadw'r drws o hyd,  
 Lle dêl fy Nuw, na ph'lasau'r byd.

348.

M. H.

[321.]

O IESU mawr, rho'th anian bur  
 I eiddil gwan mewn anial dir;  
 I'w nerthu trwy'r holl rwystrau sy  
 Ar ddyrys daith i'r Ganaan fry.  
 Pob gras sydd yn yr Eglwys fawr,  
 Fry yn y nef neu ar y llawr,  
 Caf feddu'r oll, eu meddu'n un,  
 Wrth feddu d'anian Di dy hun.

Mi lyna'n dawel wrth dy draed,  
 Mi ganaf am rinweddau'th waed,  
 Mi garia'r groes, mi nofia'r don,  
 Ond cael dy anian dan fy mron.

349.

8. 7. 4.

[322.]

DARFU noddfa mewn creadur,  
 Rhaid ei chael yn nes i'r nef,  
 Nid oes gadarn le im' orphwys  
 Fythol ond ei fynwes Ef;  
 Dyma'r unig fan caiff f'enaid wir iachâd.

Dan dy aden cedwir f'enaid,  
 Dan dy aden byddaf byw,  
 Dan dy aden y gwaredir  
 Fi o'r beiau gwaetha'u rhyw;  
 'Rwyf yn gysgod rhag euogrwydd yn ei rym.

## PRYDNAWNOL WEDDI.

350.

M. 6.

'Dyw mil o fydoedd gwych eu gwerth  
 Wrth Grist a'i aberth ddim;  
 Mae yn ei berson Dwyfol doeth,  
 Anfeidrol gyfoeth im'.

Er cael y nef uwch ben i'm rhan,  
 A'r cyfan dan y rhod,  
 Heb Iesu Grist yn dlawd mi wn  
 Y byddwn byth yn bod.

Trwy rinwedd gwaed ei aberth gwiw,  
 Daeth miloedd amryw'n wyn;  
 Cân y trueiniaid dua'u lliw  
 Glod byth i Dduw am hyn.

351.

8. 7. 3.

[324.]

Y MAE hiraeth yn fy nghalon  
 Am gael teimlo hyfryd flas  
 Concwest nwydau sydd hyd heddyw  
 Yn gwrth'nebu'r nefol ras :  
 Dyma ddawn hyfryd iawn  
 Wy'n ymofyn foreu a nawn.

'Rwyf yn gweled bryniau uchel,  
 Gwardigaeth werthfawr lawn;  
 Och! na chawn i eu meddiannu,  
 Cyn machludo haul brydnawn!  
 Dyma'm llef tua'r nef,  
 Addfwyn Iesu, gwrando ef.

352.

8. 7.

[325.]

YN dy waith y mae fy mywyd,  
 Yn dy waith y mae fy hedd,  
 Yn dy waith yr wyf am aros,  
 a bwy'r ochr hyn i'r bedd;  
 a waith ar ol myn'd adre',  
 y ofidiau rif y gw lith,  
 Oen fu ar Galfaria,  
 a waith na dderfydd byth.

ŷ 23ydd Sâl gwedi'r Drindod.

COLLECT.—Duw yn awdwr pob duwioledeb. *Gweddî*—Am gael gwrandawriad i'n gweddïau.

## BOREUOL WEDDI.

353.

M. S.

MAE Eglwys Dduw fel dinas wych,

Yn deg i edrych arni;

Ei sail sydd berl godidog iawn,

A'i mur o ddawnus feini.

Prydferthwch yr holl fyd yw hon,

Sef Salem lon, ein trigfa;

Rhyfeddwn yr adeilad bur

A'r cadarn fur sydd yma.

'Rwy'n caru'i phyrth a'i phrif-ffordd hi;

Mae'n heglwys wedi'i llunio

Fel nefol lys a wnaed gan Dduw,

A'i wyneb gwiw geir yno.

354.

M. H.

[327.]

PWY draetha'r fath lawenydd sy

Trwy holl gynteddau'r nefoedd fry,

Pan ddêl afradlon tua thref,

Pan aner un etifedd nef?

Boddloni'n llawen mae y Tad,

Wrth weled ffrwyth ei gariad rhad:

Edrycha'r Mab yn llon i lawr

Ar bwrcas ei ddyoddefaint mawr.

256 Y TRYDYDD SUL AR HUGAIN

A hoffi gwel'd mae Ysbryd Duw  
Yr enaid marw wnaeth E'n fyw;  
A seintiau ac angylion glân  
Am gynnydd teyrnas Dduw a gân.

355. m. c.

MAE ini Archoffeiriad mawr  
Yn eiriol yn y nef;  
Ac ateb i'n gweddiau gawn  
Trwy ei eiriolaeth Ef.

Mewn hyder awn at orsedd gras  
I mewn o flaen ein Duw;  
A glynwn wrth ein proffes mwy:  
Mae'r Iesu eto'n fyw.

PRYDNAWNOL WEDDI.

356. 7. 6.

MEWN amser mae cael gafael  
Ar grefydd yn ei grym,  
Cyn myn'd i wyneb angeu  
A'i loew gleddyf llym;  
O! llefwn ar ein gyrfa  
I ddyffryn angeu trist  
Am guddio'n henaid euog  
Yn haeddiant Iesu Grist.

Mewn amser mae cael gafael  
Mewn iachawdwriaeth rád;  
Mewn amser gellir golchi  
Fy meiau yn y gwaed;

Mewn amser ceir trugaredd,  
 Trwy rinwedd marwol glwy';  
 Farwel 'nol terfyn amser  
 Cael cynnyg arni mwy.

357.

8. 7.

Y MAE clustiau Duw'n agored  
 I bob rhyw ddrylliedig lef,  
 Ac mae'r drom ochenaid glwyfus  
 Yn cyrhaeddyd ato Ef;  
 Pan bo t'wyllwch ac anobaith  
 Yn amgylchu'm llwybrau cudd,  
 Fe ddaw 'mlaen, fe dry y cyfnos  
 Gan goleuach nag yw'r dydd.

358.

m. c.

UWCH law y ser a'r wybren faith,  
 A'r bryniau oesol fry,  
 Yn heirdd drigfanau'r nefoedd draw,  
 Preswylia'n Prynwr cu.

Cerubiaid a seraphiaid sydd,  
 Angylion dysglaer llon,  
 Yn fil o filoedd, nos a dydd,  
 Yn gweini ger ei fron.

Yn lluoedd deuant wrth ei air  
 O entrych nefoedd wen;  
 A gweini wnânt i'r saint i gyd  
 Sy'n teithio is y nen.

258 Y PEDWERYDD SUL AR HUGAIN

A phan y bônt yn rhodio'r glyn,  
 Daw engyl gwyn eu gwawr  
 I'w dwyn yn llon i'r Ganaan fry,  
 Eu hetifeddiaeth fawr.

Ŷ 24ydd Sul gweri'r Brindod.

COLLECT.—*Gweddî*—Am ollyngdod a hollol ryddhad oddi wrth ein camweddu, a holl rwyman ein pechodau.

BOREUOL WEDDÎ.

359.

8. 7. 4.

DYMA'B dydd ordeinwyd ini  
 Lwyr ymgasglu at ei waith,  
 Darllen, gwrando, a gweddîo,  
 Canu iddo hyfryd iaith;  
 Na foed enaid sydd yn credu heddyw'n fud!

Hwn yw'r dydd roed ini gofio  
 Adgyfodiad Iesu gwiw,  
 Wedi maeddu uffern greulon,  
 Prynu dynion fyrdd i Dduw:  
 Haleliwia fyth i'w enw sanctaidd Ef!

360.

6. 8.

[352.]

'Does dim o fewn i'r nef,  
 'Does dim o fewn i'r llawr,  
 Ag allai fyth ddilên  
 Euogrwydd sy mor fawr:  
 ' meiau sydd o rif a rhyw  
 d oes a'u maddeu ond fy Nuw.

Maddeuodd Ef cyn hyn,  
 Gan olchi'n wyn a glân,  
 Bechodau dua'u rhyw,  
 Rifedi'r tywod mân:  
 Mae'i rad faddeuant fyth fel môr,  
 A'i hen drugaredd eto'n 'stôr.

361. M. C. [333.]

Y MAE tosturi fel y môr  
 Heb fesur ynot Ti;  
 O'th ras sy'n annherfynol 'stôr,  
 O Arglwydd! cofia fi.

Cyfammed hedd er achub dyn  
 Fu rhwng y sanetaidd Dri;  
 O'r euog hil 'rwyf finnau'n un—  
 O Arglwydd! cofia fi.

Boddlonodd Crist y nef yn llawn,  
 Ar fynydd Calfari;  
 Er mwyn ei berffaith, Ddwyfol Iawn,  
 O Arglwydd! cofia fi.

PRYDNAWNOL WEDDI.

362. 8AU. [334.]

Duw mawr y rhyfeddodau maith,  
 Rhyfeddol yw pob rhan o'th waith;  
 Ond dwyfol ras mwy rhyfedd yw,  
 Na'th holl weithredoedd o bob rhyw:  
 Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi,  
 Yn rhad ein holl bechodau ni?



260 Y PEDWERYDD SUL AR HUGAIN

Maddeu yr holl gamweddau mawr,  
 Ac arbed pryfed gwael y llawr;  
 Hyn yw dy nefol oruwch-nod,  
 Ac ni chaiff arall ran o'r clod:  
 Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi,  
 Yn rhad ein holl bechodau ni?

363.

M. H.

O TYRED, tyred, Ysbryd Glân,  
 A gwna y marw'n fyw;  
 Yn ein calonau ennyn dân  
 O gariad at ein Duw.

Gwel mor dueddol ym o hyd  
 At wagedd yma sy;  
 Bach yw ein hawydd, gwan ein bryd,  
 At bethau'r nefoedd fry.

Yn ofer ganu'n ffurfiol wnawn,  
 A'n hymdrech sy'n ddifudd,  
 Mae'n moliant oll yn oeraidd iawn,  
 A'n gweddi'n farwaidd sydd.

O Dduw! pa hyd y byddwn ni,  
 Fel hyn yn byw mor wael!  
 Mor oer ein cariad atat Ti,  
 A'th gariad Di mor hael!

O tyred, Ysbryd Glân, i lawr  
 A gwna y marw'n fyw;  
 Rho ran o gariad Iesu mawr  
 A charu wnawn ein Duw.

364.

8. 7.

DIANO wneuthym o Sodoma,  
 Ar y gwastad 'rwyf yn byw,  
 Gwedi cefnu ar Gomorra  
 Ac yn ffoi ar air fy Nuw;  
 Fyny i'r bryniau 'rwyf am ddiano,  
 'Mhell o sawr y mwg a'r tân;  
 Rho dy law, Dywysog bywyd,  
 Tyn fy enaid yn y blaen.

ŷ 25<sup>ed</sup> Sul gwedi'r Drindod.

COLLECT.—*Gweddî*—Am dueddiadau i wneuthur daioni, fel y  
 caffom ein mawr obrwyo gan Dduw.

## BOREUOL WEDDI.

365.

7AU.

CRAIG yr Oesoedd! ynot Ti  
 Holltwyd dros of, cuddier fi;  
 Boed i'r dwr yng nghyd â'r gwaed  
 O dy ystlys friw a gaed  
 Olchi f'enaid oll yn lân,  
 F'achub rhag tragwyddol dân.

Haeddiant ynof dim nid oes,  
 Glŷn fy enaid wrth dy groes:  
 Pe bai'm dagrau'n llifio byth,  
 Pe bai'm sel yn dân dilyth,  
 Iawn dros bechod ni rydd un—  
 Ti raid achub, Ti dy hun!

Tra bôm hanadl yn parhau,  
 Pan bôm llygaid yma'n cau,  
 Pan y codaf fry o'm bedd,  
 Ac y'th welaf ar dy sedd,  
 Craig yr oesoedd! ynot Ti  
 Holltwyd dros of, cuddier fi!

366.

5. 8.

[342.]

MEROH Sion ryw ddydd  
 Mwy hawddgar a fydd  
 Ei thegwch na thoriad y wawr;  
 A'i gwisg yn fwy hardd  
 Nag Adda'n yr ardd,  
 Fe fydd ei gogoniant yn fawr.

Mor rhyfedd yw'r fraint  
 A roddwyd i'r saint,  
 Cael bod yn ddyweddi i'r Oen;  
 Fe'i purir ar fyr,  
 Mewn olew a myrr;  
 Am dani mawr iawn fydd y son.

Yn wir fe fydd hon  
 Yn dawel a llon  
 Mewn mantell cyflawnder yn byw;  
 Yn eistedd i lawr  
 Ar orsedd wen fawr,  
 Yn ochr ei Brenin a'i Duw.

367.

8. 7.

CLOD i Dduw am ei ysgrythyr!  
 Addysg gywir geir yn hon;  
 Nawdd i'r euog, gras i'r aflan,  
 I'r annyddan heddwch llon;  
 Rhyddid llawn i'r caeth a'r llwythog,  
 I'r blinderog esmwythâd;  
 Ac i holl alarwyr Sion  
 Y cysuron pura'n rhad.

Buddiol yw i athrawiaethu,  
 I geryddu anwar rai:  
 Mewn cyfiawnder i hyfforddi,  
 Ac i ddangos ini'n bai:  
 Nodir ynddi ffordd y bywyd,  
 I ochelyd uffern ddu;  
 Ffordd i'n dwyn trwy afon angen  
 I drigfanau'r gwynfyd fry.

## PRYDŴAWNOL WEDDI.

368.

8. 7.

ARGLWYDD, cadw yn y 'storom  
 F'enaid dan dy aden gu;  
 Cadw ynof ysbryd gweddi,  
 Nes y delwyf atat Ti:  
 Estyn allan fraich dragwyddol,  
 Dal fi ar y cefnfor maith,  
 N'ad i'm llong i fyn'd yn chwilfriw  
 Nes im' gyrhaedd pen fy nhaith.

369.

M. H.

O RHODDWN fawl i'r Arglwydd Dduw,  
Ffynnon tragwyddol gariad gwiw;  
Ei drugareddau mawrion Ef  
A bery byth fel dyddiau'r nef.

O mor ryfeddol yw ei waith  
Dros holl derfynau'r ddaiar faith;  
Pwy, pwy, all draethu'n llawn ei glod ?  
Anfeidrol, annherfynol Fod!

Gad imi dreulio f'eiioes wiw  
Mewn undeb gyda'th blant, O Dduw!  
Ac yn y diwedd gad im' dd'od  
I'th felus foli uwch y rhod.

370.

8. 7. 4.

AMSER, amser, sydd yn hedeg,  
Minnau'n myned gydag ef;  
I wlad bell yr wyf yn teithio,  
Enw hon yw Teyrnas Nef;  
Ysbryd sanctaidd, arwain fi i ben fy nhaith.

Amser, amser, O mor gyflym  
A diorphwys ar ei daith!  
Fy rhybuddio mae ef beunydd  
Nad yw'm gyrfa yma'n faith;  
Ond tragwyddol fydd yr yrfa sydd o'm blaen.

371.

M. H.

DERBYNIWYD gynt gan Fab y Dyn  
Blant bach i'w freichiau Ef ei hun;  
Ac, "Na waherddwch hwynt," medd Ef,  
"Can's eiddynt hwy yw teyrnas nef."

O na ryfygwn ninnau'n awr  
I wrthod 'saml Iesu mawr!  
Pwy gaua ddrws ei Eglwys Ef,  
A'r Iesu'n agor drws y nef?

O prisiwn freintiau Eglwys Dduw,  
Can's trwyddynt cedwir ni yn fyw;  
Fel delom oll ryw ddydd i dd'od  
I ganu i Dduw dragwyddol glod.

372.

M. C.

GADEWCH i blant dd'od ataf Fi,  
Medd Iesu yn ei air;  
Lle i rai bychain Sion Duw,  
O fewn fy mreichiau cair.

I'r cyfryw rai mae teyrnas nef  
A'i breintiau'n awr yn rhydd;  
Am hyny, na waherddwch hwynt,  
Can's gwawrio wnaeth y dydd.

Yn blant digofaint ganwyd ni,  
Ein cyflwr aflan yw;  
Ond trwy rinweddau gwaed y groes,  
Mae gobaith in' gael byw.

373.

M. S.

[350.]

AGORWYD ffynnon i'n glanhau,  
 O'i drugareddau bythol;  
 Addewid rodd i ni a'n plant,  
 Sy'n llawn o fwyniant nefol.

Bedyddier ni, yn fawr a mân,  
 A'r Ysbryd Glân a'i radau,  
 Boed arnom, er glanhâd a maeth,  
 Ei helaeth dywalltiadau.

Rho fendith rad i ni a'n plant,  
 Er cynnydd ffyniant grasol;  
 Bendithion dy gyfammod hedd,  
 Glanhâd a gwledd wastadol.

374.

M. S.

[352.]

PLANT cyfammodol ydym ni,  
 I'r Un yn Dri drwy Fedydd;  
 Rho nerth i rodio, gan barhau,  
 Yn ol ein rhwymau beunydd.

Rho ini 'mwrthod ar bob pryd  
 A'r cnawd, y byd, a'r diafol,  
 Gan ffyddlon gredu ei air dilys,  
 A chadw'i 'wyllys nefol.

Gwna ni'n aelodau diwahân,  
 Yng Nghrist, o'th wir Lân Eglwya,  
 A thrwy ei hordinhadau hi,  
 A'th ras gwna ni yn gymhwya.

375.

M. H.

CYSSEGRWN flaenffrwyth dyddiau'n hoes,  
I garu'r Gwr fu ar y groes,  
Mae mwy o bleser yn ei waith  
Na dim a fedd y ddaiar faith.

Cael bod yn foreu dan yr iau,  
Sydd ganmil gwell na phleser gau;  
Mae ffyrdd doethineb oll i gyd  
Yn gysur ac yn hedd o hyd.

Y plant a wasanaethont Grist,  
Cânt ddiano byth rhag uffern drist;  
Mae myrdd o ieuenctyd yn y nef,  
Yn berlau yn ei goron Ef.

Cyssegrwn ninnau yn ddigoll  
I Grist ein nerth a'n bywyd oll:  
Mae'r Hwn a'n prynodd ar y Groes  
Yn deilwng o bob awr o'n hoes.

376.

8. 7.

TLAWD yw byw mewn anystyriaeth,  
Tlawd yw marw heb un Duw;  
Nid oes gobaith am drugaredd,  
Ond tra bo'i ar dir y byw:  
Os diangaf dros y terfyn  
Heb im' gael fy llwyr ryddhau,  
Nid oes dim i ddysgwyl genyf  
Ond tragwyddol boen a gwae.



377.

M. C.

YR olwg harddaf dan y nef  
 Yw gweled ie'nctyd lu  
 Yn codi'r groes a dilyn Crist,  
 Yn llwybrau'r nefoedd fry.  
 I'r nef dyledus yw blaenffrwyth  
 Ein hamser, dawn, a grym,  
 Tost treulio'r dydd yng ngwaith y fall  
 A gadael Duw heb ddim.  
 Pob awr o oedi, ie'nctyd hardd,  
 Awr drom o golled yw,  
 Mwy gwerth yw crefydd Crist na'r byd,  
 Wrth farw ac wrth fyw.

## Cymmun.

378.

M. S.

[353.]

MAE'R gwaed a redodd ar y groes  
 O oes i oes i'w gofio:  
 Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn  
 I dd'weyd yn iawn yn dano.  
 Prif destyn holl ganiadau'r nef  
 Yw "Iddo Ef a'i haeddiant;"  
 A dyna sain telynu glân,  
 Ar uchaf gân gogoniant.  
 Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen,  
 A'i boen wrth achub enaid,  
 Yn seinio'n uwch ar dannau'r nef  
 Na hyfryd lef seraphiaid.

'Mhen oesoedd rif y tywod mân,  
 Ni bydd y gân ond dechreu ;  
 Rhyw newydd wyrth o'i angeu drud  
 A ddaw o hyd i'r goleu.

Ni thraethir maint anfeidrol werth  
 Ei aberth yn dragywydd ;  
 Er treulio myrdd o oesoedd glân,  
 Ni bydd y gân ond newydd.

379.

M. S.

WEL, dyma wledd, gwledd ein Duw Ion,  
 O basgedigion breision,  
 A gwin puredig yn ddidrai,  
 I lawenhau y cleifion.

On'd gwledd yw hon gyfoethog hael?  
 'Does diwedd 'gael mo honi,  
 O pwy n'anturia 'mlaen yn rhwydd  
 I wledd yr Arglwydd Iesu?

Yfwn yn eon is y nen  
 Ffrwyth y winwydden heddy',  
 Ar fyrder ni gawn brofi ei blas  
 O fewn i deyrnas Iesu.

380.

M. H.

LLEFWCH, genadon Duw, o hyd,  
 O wele waed Iachawdwr byd!  
 Cymbhellwch bawb dd'od ato Fe,  
 Mae'r Iesu'n d'weyd fod eto le.

Maddeu yr holl gamweddu mawr,  
 Ac arbed pryfed gwael y llawr;  
 Hyn yw dy nefol oruwch-nod,  
 Ac ni chaiff arall ran o'r clod:  
 Pa Dduw sy'n maddeu fel Tydi,  
 Yn rhad ein holl bechodau ni?

363.

M. H.

O TYRED, tyred, Ysbryd Glân,  
 A gwna y marw'n fyw;  
 Yn ein calonau ennyn dân  
 O gariad at ein Duw.

Gwel mor dueddol ym o  
 At wagedd yma sy;  
 Bach yw ein hawydd,  
 At bethau'r nefoedd

Yn ofer ganu'n ffurfiol  
 A'n hymdrech sy'n de  
 Mae'n moliant oll yn oer  
 A'n gwaith farwaidd

O Dduw y byddw  
 Fel mor wa  
 Mor o stat T  
 A'th hael!

O tyred, lawr  
 A gwn  
 Rho ran o  
 A charu

364.

GWEDI'R DRINDOD.

21

8. 7.

DIANO wneuthym o Sodoma,  
Ar y gwastad 'rwyf yn byw,  
Gwedi cefnu ar Gonorra  
Ac yn ffoi ar air fy Nuw;  
Fyny i'r bryniau 'rwyf am ddianc,  
'Mhell o sawr y mwg a'r tân;  
Rho dy law, Dywysog bywyd,  
Tyn fy enaid yn y blaen.

25<sup>ed</sup> Sul gwedi'r Drindod.

COLECT.—*Gweddi*—Am dueddiadau i wneuthur daioni, fel y  
caffom ein mawr obrwyo gan Dduw.

BOREUOL WEDDI.

7AU.

Oesoedd! ynot Ti  
rosaf, cuddier fi;  
ng ngyd â'r gwaed  
aed

dân.

385.

M. B.

Mi wn, medd Iob, o'r cynfyd cudd,  
 Mai byw'm Gwaredydd hawddgar,  
 Mi wn y daw fy Mhrynwr drud  
 Ar ddiwedd byd i'r ddaiar.

Ac er fy mod i 'nawr mewn poen,  
 Ac wedi 'nghroen i'r pryfed  
 Ddyfetha hefyd y corff hwn,  
 Er hyny gwn caf weled—

Y Duw anfeidrol yn fy nghnawd,  
 Ar ddydd gollyngdawd seintiau;  
 A'm llygaid i fy hun a'i gwel  
 Ar dirion uchelderau.

386.

M. C.

[365.]

Mor ddedwydd yw y rhai trwy ffydd  
 Sy'n myn'd o blith y byw !  
 Eu henwau'n perarogli sydd,  
 A'u hun mor dawel yw !

Ar ol eu holl flinderau dwys,  
 Gorphwyso maent mewn hedd,  
 Ym mhell o swm y byd a'i bwys,  
 Heb boen yn llwch y bedd.

Llais un gorthrymydd byth ni ddaw  
 I'w deffro i wylaw mwy;  
 Na phrofedigaeth lem na chroes—  
 Un loes ni theimlant hwy.

387.

M. H.

MÆ byd o sylwedd i barhau,  
 Ac oriau sobr yn nesäu;  
 Pan roddo angeu arna'i law,  
 Ceir gwel'd y ty o bridd mewn braw.

Pan ddelo'r oriau hyny i ben,  
 I adael pobpeth is y nen;  
 Pan gefno pob rhyw gyfaill cu,  
 Iesu, pryd hyny cofia fi.

I blith y dorf ddysgleiriaf draw,  
 Duw, dwg fy enaid ddydd a ddaw,  
 I uno gyda'r lluoedd llon  
 Mewn per ganiadau ger dy fron.

388.

M. H.

[367.]

O'r dywyll wlad pan byddwy'n myn'd,  
 Fy Iesu fydd fy ffyddlon Ffrynd;  
 Pa frawd, pa chwaer, pa gyfaill gwell,  
 Ddaw'm hebrwng i'r ardaloedd pell?

Efe yw'm Brawd, Efe yw'm Duw,  
 Efe yw'm Ffrynd a'm Priod gwiw;  
 Efe yw'm hysgol i a'm pen,  
 I ddringo i entrych nefoedd wen.

389.

M. H.

MÆ'R nos yn d'od i'n cwrdd i gyd,  
 Yn barod bôm cyn gado'r byd;  
 Boed i oleuni'r 'fengyl wiw  
 Ein tywys oll i geisio Duw.

390.

M. H.

CYFEILLION gerais fel fy hun  
 Sy'n myn'd o'm blaen o un i un;  
 'Rwyf finnau'n tynu ar eu hol  
 I fyd na ddeuaf byth yn ol!

Pan fyddwy'n rhodio'r dyffryn du,  
 Rho wên dy wyneb, Iesu cu,  
 A dwg fi at y lluoedd llon  
 Sy'n gwledda'n siriol ger dy fron.

391.

8. 7.

AFON amser gludodd ymaith,  
 Frodyr imi fwy na rhif;  
 Ar eu hol 'rwyf finnau'n myned  
 Yn ddiaros gyda'r llif;  
 Pethau daiar, troion amser,  
 O fy ol y maent yn awr;  
 O fy mlaen nid oes i'm golwg  
 Ond cyffiniau'r eilfyd mawr.

Gwyn eu byd fy hen gyfeillion  
 Aeth o'm blaen i'r porthladd draw;  
 Ar eu hol hwy dros y tònau  
 Moriaf finnau maes o law;  
 Clywaf lais yn galw arnaf,  
 Bydd yn barod fe ddaw'r wŷs;  
 Mae'r Priodfab bron â dyfod,  
 Bydd yn barod, bydd ar fryn.

392.

8. 7.

[364.]

Yn y dyfroedd mawr a'r tdnau  
 Nid oes neb a ddeil fy mhen,  
 Ond fy anwyl Briod Iesu  
 A fu farw ar y pren;  
 Cyfaill yw yn afon angeu,  
 Ddeil fy mhen yn uwch na'r don;  
 Golwg arno wna imi ganu  
 Yn yr afon ddofn hon.

393.

8. 7.

WELER ty o bridd yn barod,  
 Rhoir y cyfaill yno i lawr;  
 O bob 'madael a fu rhyngom,  
 Hwn yw'r olaf un yn awr;  
 Am faith noswaith y caiff orwedd,  
 Oddi mewn i'r ddaiar ddu;  
 Gyda'r wawr yn iach gaiff godi,  
 Wrth sw'n galwad Iesu cu.

394.

8. 7.

AFON fawr sy'n rhaid myn'd trwyddi,  
 Rhwng dau fyd mae rhediad hon,  
 Sw'n ei dwr yw'r blin gystuddiau  
 Gwrddir ar y ddaiar hon;  
 Rhwng ei thdnau byddai'n fuan,  
 Mewn caledi mwya' 'rioed,  
 O am 'nabod Iesu yn sylfaen,  
 Fel bo'r gwaelod dau fy nhröed.



395.

8. 7.

PAM yr wylwn am gyfeillion  
 Aeth o'n blaen trwy angeu du!  
 Nid yw hwn ond cenad Iesu,  
 Ddaeth i'w cyrchu ato fry;  
 Beddau'r seintiau a gyssegrodd,  
 Pan orweddodd yu y pridd;  
 Lle bu'r Pen bydd yr aelodau—  
 Dyna'n cartref oll ryw ddydd.

Cododd Iesu mawr i fywyd,  
 Codi hefyd gaiff ei saint;  
 Pan ddêl boreu mawr y cyfri',  
 Caiff y rhei'ny ryfedd fraint:  
 Pan ddaw oesoedd byd i fyny,  
 Pan fo'r meirw, fach a mawr,  
 'N codi'n llu wrth swm yr udgorn,  
 Gwelir Sion fel y wawr.

396.

6. 5.

[368.]

AR lan Iorddonen ddofn  
 'Rwy'n oedi'n nychlyd,  
 Mewn blys fyn'd trwy—ac ofn  
 Ei 'stormydd enbyd;  
 O na bai modd i mi  
 Osgoi ei hymchwyyd hi,  
 A hedfan uwch ei lli  
 I'r Ganaan hyfryd!

Wrth gofio grym y dwr  
 A'i thònog genlli,  
 A'r mynych rymus wr,  
 A suddodd ynddi,  
 Mae braw ar f'enaïd gwan  
 Mai boddi fydd fy rhan,  
 Cyn cyrhaedd tawel lan  
 Bro y goleuni.

Ond pan y gwelwyf draw  
 Ar fynydd Sion,  
 Yn iach, heb boen na braw,  
 Fy hen gyfeillion,—  
 Pa ham yr ofnaf mwy?  
 Y Duw a'u daliodd hwy  
 A'm dyga innau trwy  
 Ei dyfroedd dyfnion.

397.

M. S.

[366.]

Fy Nuw galluog, rhwyga'r llen,  
 A dal fy mhen yn angau;  
 Dod ffydd i iawn olygu'r fan,  
 Rhag suddo dan y tònau.

398.

S. 7. 4.

'Rwy'n preswyllo rhosydd Moab,  
 'Mron ar lan yr afon fawr;  
 Rhwng ei thònau hyll cynddeiriog,  
 Rhaid anturio iddi lawr: [myn'd.  
 'Rwy'n ei hofni; er ei hofni, 'mlaen rhaid

399.

8. 7. 4.

MÆ fy nyddiau yma'n darfod,  
 Tynu tua'r beddrod 'rwy';  
 Buan rhodia'i'r llwybr hwnw  
 Na ddychwelir hyd-ddo mwy:  
 Tuag adref 'rwyf bob awr yn agosau.

400.

9. 8.

[363.]

O ANGEU! pa le mae dy gelyn?  
 O uffern! ti gollaist y dydd;  
 Y Ceidwad a anwyd ym Methl'em  
 Orchfygodd bob gelyn y sydd:  
 Ni raid i blant Sion ddim ofni  
 I deithio trwy'r anial i'w gwlad,  
 Mae'u ffordd hwy yn rhydd i fyn'd adre,  
 A hðno gyssegrwyd â gwaed.

### Gosod Sylfaen Eglwys.

401.

m. c.

FEL Dafydd gynt, dymunem ni  
 Gyfodi ty i'n Duw,  
 A dadgan trwy gynteddau hwn  
 Ei fawr ogoniant gwiw.  
 Dad, Mab, ao Ysbryd, dyro'n awr  
 Y cyssegredig dân;  
 yn mawredd nefol tyr'd i lawr,  
 idguddia'th enw glân.

402.

M. C.

TEILYNGA edrych, Arglwydd da,  
 O'th breswyl fry i lawr,  
 Ar godiad yr adeilad hon,  
 Yn dy i'th enw mawr.

Dy Eglwys fo dan driniaeth dda,  
 Fel gardd yn lân heb chwyn;  
 Yn helaeth gweler ffrwythau gras,  
 O fewn y muriau hyn.

403.

M. H.

Os Duw ni lwydda oddi fry,  
 Bydd ofer adeiladu'r ty;  
 A gwyllo'r ddinas, byth nis gwiw  
 I'r ceidwaid, oni wylia Duw.

Pe y cyfodem gyda'r wawr,  
 Ac hyd yr hwyr ymboeni'n fawr,  
 Gwaith ofer oll heb fendith yw:  
 O Arglwydd, llwydda'th deyrnas wiw!

404.

7. 6.

Mewn ffydd, O Arglwydd, rhoddwn  
 Y sylfaen hon i lawr;  
 Mewn ffydd yr adeiladwn  
 Y deml i'th enw mawr;  
 A boed i'th lygad sanctaidd  
 Fod arni nos a dydd  
 I'w gwylid rhag y gelyn,  
 Ac ynddi beunydd bydd.

Pan iddi delo'th bobl,  
 I geisio gwel'd dy wedd,  
 A'r meirw i geisio'u bywyd,  
 O maddeu Di mewn hedd;  
 Pan safo dy offeiriaid  
 Rhwng marwol ddyn a Duw,  
 O anfon ysbryd bywyd,  
 Fel delo'r marw'n fyw.

405.

6. 8.

TYR'D lawr, O Frenin hedd;  
 A'th ras corona'th dy,  
 A ninnau oll 'run wedd,  
 Fel eiddo byth i Ti:  
 O dan ei nen, rho brawf dy Hun  
 Fod Duw'n preswyllo gyda dyn.  
 O gwranddo yma'n cri,  
 A'n heirioledig lef;  
 A'n mawl esgyno fry,  
 Yn wresog tua'r nef;  
 A sain dy air a lanwo'r ty:  
 O'i gylch boed hedd y nefoedd fry.  
 Dy feibion eto ddaw,  
 A'th ferched gyda hyn,  
 A'th folant yn ddidaw,  
 A'u gwisg fel marmor gwyn:  
 Dadguddia yma'th ras o hyd,  
 Tra bo addolwyr yn y byd.

406.

M. H.

A FYDD i'r Duw tragwyddol mawr  
Sefydlu'i drigfan ar y llawr;  
Ac o'i orseddfainc ddysglaer fry,  
Arddel ein Heglwys iddo'n dy?

O Arglwydd, disgyn lawr o'r ne',  
A'th bresennoldeb lanwo'r lle,  
A chyda'th air aed gallu maes,  
I loni'th blant a maeddu'th gas.

407.

M. S.

I DY fy Nuw, pan dd'wedent, Awn,  
Im' llawen iawn oedd gwrando:  
Sai'n traed o fewn Caersalem byrth,  
Yr un ni syrth oddi yno.

Caersalem lân, ein dinas ni,  
Ei sail sydd ynddi 'i hunan:  
A'i phobl sydd ynddi yn gytûn,  
A Duw ei Hun &i drigfan.

Can's yno daw y llwythau 'nghyd,  
Yn unfryd llwythau'r Arglwydd:  
Tystiolaeth Israel a'i drig-fod,  
A chlod i'w fawr sancteiddrwydd.

O fewn dy gaerau bydded hedd,  
A'th wedd fo i bawb yn fwyniant:  
Er mwyn fy mrodyr, minnau'n awr  
Ddymunaf it' fawr lwyddiant.

408.

8. 7. 4.

WELLE dy a adeiladwyd  
 I dy enw, Arglwydd mawr;  
 Lle i son am Un a hoeliwyd  
 Ar y pren rhwng nef a llawr;  
 Lle i'th foli, ac i alw am dy ras.

Triged yma dy ogoniant,  
 Ac na chuddia byth dy wedd;  
 Rho i'th saint ysbrydol fwyniant,  
 Rho i bechaduriaid hedd:  
 Caed angylion destyn canu yma o hyd.

### Y Cyneuaf.

409.

M. S.

MOR ogoneddus, Arglwydd Dduw,  
 A rhyfedd yw'th ddaioni!  
 Ein dyddiau breuol gânt o'r bron  
 A'th roddion eu coroni.

Y cynnar wlaw a'r maethlon wllith  
 Ddyferant fendith iraidd;  
 Y tir a rydd ei gynnyrch da,  
 A'r haul gyfrana'i rinwedd.

Am ffrwythau hael y flwyddyn hon,  
 A'th fawrion drugareddau,  
 Moliannu d'enw mawr a wnawn,  
 Gan iawn ddefnyddio'n breintiau.

410.

7. 6.

TYDI, fy Nuw, O Frenin,  
 Dros byth a folaf fi;  
 A beunydd y bendithiaf  
 Dy enw sanctaidd Di:  
 O herwydd mawr yw'r Arglwydd,  
 A chanmoladwy iawn;  
 A'i fawredd anchwiliadwy  
 Ni ellir draethu'n llawn.

Cenedlaeth wrth genedlaeth,  
 A fawl dy ryfedd waith;  
 Mynega dy gadernid,  
 Dros dragwyddoldeb maith:  
 Ardderchedd bri dy fawredd,  
 A'th bethau rhyfedd, mwy  
 A draethaf; nerth ofnadwy  
 'Th weithredoedd, draethant hwy:

A choffadwriaeth amllder  
 Dy ddoniau draethant maes;  
 Dadganant dy gyfiawnder,  
 A llawnder mawr dy ras:  
 Daionus yw yr Arglwydd  
 I bawb trwy'r byd heb goll;  
 Ac mae ei hen drugaredd  
 Ar ei weithredoedd oll.



411.

M. S.

I ARGLWYDD yr holl ddaiar hon,  
 O galon llafar cœnwch:  
 Gwas'naethwch Ef mewn hwyl, ar dân,  
 A chân o'i flaen Ef deuwch.

Gwybyddwch bawb mai'r Ior sy Dduw;  
 Efe yw ein Creawdwr:  
 Ei bobl a'i ddefaid ydym ni;  
 Efe yw ein Cynnaliwr.

Ewch mewn i'w byrth â diolch fawl;  
 A mawl ewch i'w gynteddau;  
 Bendithiwch enw Duw ar dân,  
 Rhowch ddiolch glân galonau.

Can's da yw'r Arglwydd; erys byth  
 Yn ddilyth ei drugaredd:  
 A byth heb newid, fel ei Hun,  
 Y saif ei gun wirionedd.

412.

M. C.

O GWYN ei fyd yr hwn mae Duw  
 Yn gymhorth iddo ef,  
 Sy â'i obaith yn yr Arglwydd Dduw,  
 Gan fyw wrth borth y nef.

Yr Hwn a wnaeth y nef a'r llawr,  
 Y môr a'u lluoedd maith:  
 Gwirionedd geidw Ef dros byth  
 Yn bur, heb newid chwaith.

Yr Hwn ag sydd yn gwneuthur barn  
 I'r gorthrymedig oll;  
 Rhoi bara i'r newynog mae,  
 A gollwng caethion coll.

Yr Arglwydd egyr lygaid dall;  
 Yr Arglwydd gwyd y gwan;  
 A hoffi mae ein Harglwydd da,  
 Y cyfiawn ym mhob man.

Yr Arglwydd a deyrnasa byth;  
 Clyw Sion, dy Dduw di;  
 Molwch yr Arglwydd, molwch Ef,  
 Molwch ein Harglwydd ni.

413.

M. H.

MAWB yw'th diriondeb, nefol Dad,  
 Hyd yma atom ni fel gwlad,  
 Er ini haeddu newyn du,  
 Trugaredd wenodd arnom ni.

Ein meusydd onydiaist Di yn llon  
 A'th roddion hael y flwyddyn hon;  
 A hin ddymunol roist i ni  
 I gasglu'th drugareddau Di.

Cyduned ein calonau 'nawr  
 I foli'th enw, Arglwydd mawr;  
 A rhoi ein cyrff yn aberth byw,  
 Er clod i'th ras, ein dyled yw.

414.

M. C.

DYRCHAFWN glod ar uchel gân,  
 I enw glân ein Ior;  
 Mae cnwd y ddaiar genym ni  
 O'i fawr dosturi'n 'stor.

Ni gawsom hyfryd amser hau,  
 Do, ddyddiau gwerthfawr iawn;  
 I faethu cnwd ein tir rhoed tes,  
 A gwres i firwytho'r grawn.

Dadganu moliant iddo mwy,  
 A fyddo trwy'r holl fyd;  
 I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,  
 Rhown fawl ar gân i gyd.

415.

M. C.

BOED in' lafurio am y bwyd  
 Yn rhydd, yn rhad, a gawn;  
 Y bwyd a bortha'r enaid drud,  
 Ac a'i diwalla'n llawn.

O! pa ffolineb ydyw in'  
 Lafurio nos a dydd  
 Am fwyd i'r corff, heb feddwl dim  
 Am fwyd i'r enaid sydd!

Bywhâ ni oll, O Dduw! bywhâ,  
 I deimlo'n heisiau'n awr,  
 Fel bo in' geisio'r bara gwir,  
 Sy'n d'od o'r nef i lawr.

416.

M. H.

TEYRNASA'R Iesu ym mhob lle  
 Y daw goleuni heulwen ne';  
 O fôr hyd fôr ei deyrnas fydd,  
 Nes darfod troion nos a dydd.

Teyrnasoedd, pobloedd o bob iaith  
 I'w enw roddant foliant maith,  
 Babanod ieuainc llesg eu llef  
 Yn fore a'i bendithiant Ef.

Lle y llewyrcha'r dedwydd ddydd,  
 Nid angeu mwy na melltith fydd;  
 Caiff meibion Adda trwyddo fwy  
 Na chollwyd gan eu cyndad hwy.

Rhoed pob creadur yn ddilyth  
 Gywiraf barch i'w enw byth;  
 Angylion, molwch Ef uwch ben;  
 A'r ddaiar d'wedded byth, "Amen."

417.

M. C.

LLEWYRCHED pur oleuni'r nef  
 Dros wyneb daiar faith;  
 Ac aed Efengyl gadarn, gref,  
 Hyd at bob llwyth ac iaith.

Doed deheu, gogledd, dwyrain faith,  
 Gorllewin, o un fryd,  
 I edrych ar brydferthwch gwaith  
 Iachawdwr mawr y byd.

418.

M. H.

AED sain Efengyl bur i maes,  
 O fôr i fôr drwy nerth dy ras;  
 Ac na ddychweled yn ei hol  
 Heb fyrdd o gaethion yn ei chol.

Eglwysi hardd fel gwinwydd ir,  
 Flaguro ar led drwy'r gogledd dir;  
 A theyrnas Crist drwy'r deheu bras  
 Flodeuo ar led fel Eden las.

419.

7. 6.

O REWDIR Greenland oerddig,  
 O Ind a'i chwrel glân,  
 Lle treigla dyfroedd Affrig  
 Eu heuraidd dywod mân;  
 O lawer oesawl afon,  
 O lanau'r palmwydd gwyrdd,  
 Eu llef yw, "Rhowch ni'n rhyddion  
 O'n coel grefyddau fyrdd."

Pa werth, er ohwyth awelon  
 Yn bur o Ceylon wiw,  
 Er boddus holl wrthddrychau  
 A dyn yn elyn Duw!  
 Yn ofer holl ddaioni  
 Yr Ion a'i roddion drud—  
 Mae'r Ethnig yn addoli  
 O flaen ei ddelwau mud.

Pa enaid a oleuwyd  
 Gan Ysbryd Iesu ou,  
 A balla lamp y bywyd  
 I ddyn mewn t'wyllwch du!  
 Achubiaeth, O achubiaeth!  
 Yn llon gyhoedder mwy,  
 Nes clyw pob gwlad a thalaeth  
 Am Grist a'i farwol glwy'.

Ewch, wyntoedd, ewch â'r newydd;  
 Ti, don, ymdreigla o hyd;  
 Nes fel rhyw fôr o glodydd  
 Y taena dros y byd;  
 Nes daw yr Oen fu'n gwaedu  
 Dros feiau'r byd yn rhad,  
 Mewn gwynfyd i deyrnasu  
 Dros ei brynedig had.

### Dydd Ympryd neu Ymostyngiad.

420.

M. S.

O! MOR ofnadwy, Ior, yw'th wg,  
 Ac O! mor ddrwg yw pechod;  
 Pwy edwyn nerth dy soriant mawr?  
 Tywyll yw awr y trallod.  
 Y cryf a'r cadarn nid ŷnt ddim,  
 Yng ngwyneb grym dy soriant;  
 Tydi wnai'n ffol holl ddoethion byd,  
 A'r beilch yng nghyd â syrthiant.

I Dduw mae'r haint a'r nodau'n un,  
 Er cospi dyn, yn weision;  
 Gwynt, gwres, ac oerni, pan y pair,  
 A wnânt ei air yn union.

Mae'r cledd a'r newyn yn ei law,  
 Y rhai'n a ddaw ar alwad;  
 Ond ni ddaw niwed ddydd na nos  
 Yn agos, heb ei genad.

Mae'r Hwn sydd ar yr orsedd fawr  
 Ei Hun bob awr yn gweled;  
 Efe sydd yn cystuddio dyn,  
 Efe ei Hun sy'n gwared.

421.

M. H.

O ARGLWYDD nef a daiar lawr,  
 Dysgwyliwn wrth dy enw mawr;  
 Ac yn y llwch yr fym fel hyn  
 Yn ceisio gwedd dy wyneb gwyn.

Mae'n beiau'n aml iawn dros ben,  
 Ac yn cyrhaeddyd hyd y nen,  
 Gan alw arnom ddial maith  
 Y Llaw a'n cadwodd lawer gwaith

O gwel ein dagrau, gwrando'n llef,  
 Ac arbed eto, Arglwydd nef;  
 Amddiffyn ni rhag llid a brâd,  
 Ac mewn trugaredd cadw'n gwlad.

422.

8. 7. 4.

CADARN, Iesu! oedd dy allu  
 Pan ymwelaist gynt â'r byd;  
 Bywyd rhoddaist Ti i'r meirwon,  
 Clyw i'r byddar, llais i'r mud;  
 Gwahangleifion  
 Ddaethant lân yn ol dy air.

Deillion welsant; blin glefydau  
 Gawsant genyt eu hiachâu;  
 Glanau teg yr hen Iorddonen  
 Herwydd hyn fu'n llawenhau;  
 Twrf 'Tiberias  
 A ostegodd yn dy wydd.

Gwywedigion trist, a chloffion,  
 A'r cystuddiol o bob rhyw,  
 O'u cartrefydd pell ymdeithient;  
 Cyrchent atat, Iesu gwiw!  
 Ymadawsant  
 A Bethesda enwog lyn.

Iesu cadarn, Awdwr bywyd,  
 Ffynnon llewyrch a phob da!  
 Ar ein gweithred o drugaredd  
 'Nawr dy fendith caniatâ:  
 Llwydda'r achos:  
 Fiddot Ti dy Human yw.



423.

*Emyn Foreuol.*

M. H.

O DEFFRO, gyda'r heulwen rhed,  
 Fy enaid, ddyddiol daith dy dd'led;  
 Rho heibio syrthni, 'n ebrwydd cod,  
 A chân i'th Geidwad foreu glod.

Cais brynu'r amser gwerthfawr; bydd  
 Fyw heddyw fel dy olaf ddydd;  
 Defnyddia'n ddwys bob talent wiw,  
 A pharod bydd i farn dy Dduw.

Dy rodiad fo yn un â'r gwir,  
 Dy fynwes fel y goleu'n glir;  
 Craff lygad Duw yn syllu sydd  
 Ar weithred, gair, a meddwl cudd.

O deffro, cyfod, f'enaid; cân  
 Yn gydgor â'r angylion glân,  
 Y rhai trwy gydol dydd, heb boen,  
 Sy'n canu mawl i Dduw a'r Oen.

O molwch Dduw pob bendith ddrud  
 Molwch Ef, bawb trwy gyrau'r byd;  
 Molwch Ef, luoedd nef, ar gân,  
 Molwch Dad, Mab, a'r Ysbryd Glân.

424.

*Emyn Brydnawol.*

M. H.

**Mawl**, mawl, i Dduw am oleu 'i ddydd,  
 A'i holl fendithion, rhoddion rhydd;  
 Duw'r duwiau, diogela fi  
 Dan gysgod hoff dy edyn Di.

Fy meiau'r dydd aeth heibio, Dad,  
 Maddeua'n rhwydd, er d'un Mab rhad;  
 Fel bo im' huno'r noson hon  
 A'th heddwch melus dan fy mron.

Dysg fi i fyw, nad ofnwyf lan  
 Y bedd yn fwy na'm gorwedd fan;  
 Dysg fi i farw, fel o'r bedd  
 I'r farn y codwyf ar dy wedd.

O molwch Dduw pob bendith ddrud,  
 Molwch Ef, bawb trwy gyrau'r byd;  
 Molwch Ef, luoedd nef ar gân,  
 Molwch Dad, Mab, a'r Ysbryd Glân.

425.

*Pren y Bywyd.*

M. C.

MÆ pren y bywyd wedi ei gael,  
 Wrth law mewn anial dir,  
 Yn plygu ei frig, er cymbell pawb  
 I fwyta'r ffrwythau pur.

Pan ddelo cystudd misoedd oer,  
 Ceir ffrwyth ar hwn o hyd;  
 A dail y pren all lwyr iachâu  
 Ein holl ddoluriau i gyd.

